Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021/2022



HC 313
SG/2022/106

professional standards authority

**Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021/2022

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Atodlen 7, Paragraff 16 (2) y Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012.

Gosodwyd gerbron Senedd yr Alban gan weinidogion yr Alban dan y Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012.

Gosodwyd gerbron Cynulliad Gogledd Iwerddon yn unol â'r Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012.

Gosodwyd gerbron Senedd Cymru yn unol â'r Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012.

Gorchymynnwyd i'w argraffu gan Dŷ'r Cyffredin 29 Mehefin 2022.

**HC 313**
**SG/2022/106**

professional standards authority

© Hawlfraint Awdurdod Safonau Proffesiynol 2022

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Pan fyddwn wedi dynodi unrhyw wybodaeth fel hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael ar www.gov.uk/official-documents.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom ni yn info@professionalstandards.org.uk

ISBN 978-1-5286-3494-6

E02761345 06/2022

Wedi'i argraffu ar bapur yn cynnwys lleiafswm cynnwys ffibr wedi'i ailgylchu o 75%

Argraffwyd yn y DU gan HH Global ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| | **Rhagair** | **2** |
| | **Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021/22** | **4** |
| 1 | **Adroddiad perfformiad** | **5** |
| 2 | **Dangosyddion perfformiad allweddol** | **13** |
| 3 | **Gwaith rheoleiddio a gosod safonau** | **17** |
| 4 | **Adroddiad atebolrwydd** | **38** |
| | **Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol** | **38** |
| | Adroddiad y Cyfarwyddwyr | 38 |
| | Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu | 42 |
| | Datganiad llywodraethu | **43** |
| | **Adroddiad cydnabyddiaeth a staff** | **52** |
| | **Adroddiad Atebolrwydd Seneddol ac Archwilio** | **60** |
| 5 | **Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i'r Tŷ Cyffredin, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon a Senedd Cymru** | **63** |
| 6 | **Datganiadau ariannol – datganiad o wariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022** | **69** |
| 7 | **Datganiadau ariannol – datganiad o'r sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2022** | **70** |
| 8 | **Datganiadau ariannol – datganiad o lif arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022** | **71** |
| 9 | **Datganiadau ariannol – datganiad o newidiadau yn ecwiti'r trethdalwr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022** | **72** |
| 10 | **Nodiadau ar y cyfrifon** | **72** |

# Rhagair gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr

Rydym yn falch i gyflwyno'r adroddiad blynyddol hwn ar gyfer 2021/22. Mae eleni, fel ag yn 2020/21, mae'r pandemig Covid-19 wedi dylanwadu ar y flwyddyn. Yn Ebrill 2021, fe gyhoeddom ein hadolygiad *Dysgu o Covid-19* o ymatebion y rheolyddion i'r pandemig, a wnaeth argymhellion ynghylch gwelliannau posibl mewn rheoleiddio a sut allwn ni baratoi ar gyfer argyfyngau yn y dyfodol. Yn ystod pedwerydd chwarter 2021/22 fe godwyd cyfyngiadau'r llywodraeth, ac edrychwn ymlaen at adferiad y system iechyd a gofal cymdeithasol yn ystod y flwyddyn i ddod.

Rydym yn goruchwylio gwaith 10 corff statudol sy'n rheoleiddio gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn y Deyrnas Unedig. Wrth gyflawni ein rôl drosolwg, rydym yn ymdrechu i sicrhau cydbwysedd priodol rhwng craffu ar un llaw, a chyngor a chefnogaeth ar y llaw arall. Yn ystod 2021/22 buom yn ymgynghori ar newidiadau i'n prosesau adolygu perfformiad i sicrhau ei bod yn dal i fod yn gymesur a'u bod yn cyfrannu i welliannau mewn rheoleiddio proffesiynol. Rhoddwyd y prosesau newydd ar waith yn ystod pedwerydd chwarter 2021/22.

Yn ein hadolygiadau craffu o berfformiad rheolyddion yn ystod y flwyddyn, rydym wedi canfod eu bod yn gyffredinol wedi perfformio'n dda yn erbyn y safonau a osodom. Ar draws y rheolyddion, bodlonwyd cyfartaledd o 90% o'r safonau a bodlonodd dau o'r rheolyddion yr holl safonau. Cyhoeddom ein hadolygiad perfformiad cyntaf o Social Work England ym Medi 2021. Mae'n amlwg bod angen i'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal wella ei brosesau addasrwydd i ymarfer, a bod angen i nifer o reolyddion eraill ddelio ag ôl-groniadau mewn achosion addasrwydd i ymarfer. Mae'n dda gweld eu hymroddiad i wneud hynny – byddwn yn monitro'r sefyllfa'n agos yn 2022/23.

Wrth adolygu penderfyniadau'r rheolyddion ynghylch a yw unigolion ar eu cofrestrau yn addas i ymarfer, rydym yn canfod bod y mwyafrif o achosion wedi eu rheoli i safon uchel, gyda chasgliadau a chosbau sy'n diogelu'r cyhoedd yn briodol. Fodd bynnag, mae pob penderfyniad yn cyfrif ac mae lle i wella o hyd. Yn ystod 2021/22, cwblhawyd 15 apêl dan ein grymoedd Adran 29, gyda phob un wedi ei gynnal neu setlo.

Rydym yn parhau i gydnabod pwysigrwydd ymchwil i ddatblygu polisi a llunio arferion rheoleiddio. Eleni fe gyhoeddom ymchwil ar safbwyntiau cleifion, y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol ar gysondeb rheng rheolyddion; ar y cyfyng-gyngor moesegol a wynebai gweithwyr proffesiynol yn ystod y pandemig; ac ar ragfarn wybyddol wrth wneud penderfyniadau addasrwydd i ymarfer.

Mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol. wedi bod yn glir iawn yr hoffem weld trefniadau rheoleiddio mwy effeithiol ac effeithlon. Ym Mehefin 2021, fe gyhoeddom ein hymateb i ymgynghoriad y llywodraeth ar ddiwygio rheoleiddio ar gyfer gweithwyr iechyd – *Rheoleiddio gweithwyr iechyd proffesiynol, diogelu'r cyhoedd*. Ym mis Hydref 2021, cyhoeddwyd ein barn ar gynigion y llywodraeth ar gyfer diwygio rheoleiddio yn y Bil Iechyd a Gofal. Ym mis Mawrth 2022, fe wnaethom gyhoeddi ein hymateb i ymgynghoriad y llywodraeth ar benderfynu pryd mae rheoleiddio statudol yn briodol mewn gofal iechyd. Fe groesawom y cynigion ar gyfer polisi newydd yn seiliedig yn bennaf ar y risg y mae gwahanol grwpiau proffesiynol yn ei pheri i'r cyhoedd. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r llywodraeth ac eraill i nodi ffyrdd i wella rheoleiddio a chofrestru ymhellach.

Mae gan y rhaglen cofrestrau achrededig ran bwysig i chwarae nawr ac yn y dyfodol, yn darparu sicrwydd i'r cyhoedd parthed sectorau iechyd a gofal cymdeithasol nad ydynt wedi eu rheoleiddio. Mae'r rhaglen nawr yn cwmpasu oddeutu 100,000 o ymarferwyr ar draws 23 o gofrestrau. Yn ystod chwarter cyntaf 2021/22, gwnaethom roi'r newidiadau ar waith yn dilyn ein hadolygiad strategol o'r rhaglen cofrestrau achrededig yn 2020/21, gan gynnwys cyflwyno saofnau newydd sy'n cynnwys prawf 'budd y cyhoedd' yn ogystal â chylch asesiad seiliedig ar risg newydd. Ym mis Mawrth 2022, lansiwyd cynllun diogelu peilot ar gyfer y rhaglen, ar y cyd â'r Gwasanaeth Datgelu a

Gwahardd a Chymdeithas Seicotherapyddion Plant.

Rydym yn cydnabod yn fwy nag erioed, bod angen dulliau cydweithredol o reoleiddio er mwyn hyrwyddo cydlyniad ar draws y sector, gan fod gwaith tîm trawsddisgyblaethol yn fwyfwy arferol mewn lleoliadau clinigol ac wrth i ddisgyblaethau newydd ddod i'r amlwg. Ym mis Tachwedd 2021, cynhaliom symposiwm tair rhan llwyddiannus ar 'bontio'r bylchau': yn y system diogelwch cleifion; rhwng y sectorau preifat a chyhoeddus; ac mewn cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI) mewn rheoleiddio. Mae EDI yn parhau i fod yn rhan bwysig o waith yr Awdurdod Safonau Proffesiynol, o ran ei brosesau ei hun ac yng nghyd-destun ei rôl o oruchwylio'r rheolyddion a'r cofrestrau achrededig.

I gloi, mae wedi bod yn flwyddyn lwyddiannus a chynhyrchiol i'r Awdurdod Safonau Proffesiynol. Wrth i ni edrych ymlaen tuag at 2022/23 a thu hwnt, rydym yn parhau i fod mor ymroddedig ag erioed i wella rheoleiddio a chofrestru er mwyn diogelu'r cyhoedd.

**Caroline Corby (Cadeirydd)**

**Alan Clamp (Prif Weithredwr)**

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021/2022

# 1. Adroddiad perfformiad

## Trosolwg

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno gwaith yr Awdurdod Safonau Proffesiynol dros y flwyddyn ddiwethaf

## Ynglŷn â'r Awdurdod Safonau Proffesiynol

1.2 Sefydlwyd yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (yr Awdurdod) ar 1 Rhagfyr 2012. Cyflwynir ei rôl a dyletswyddau yn y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012.[1] Yn gryno, mae'r Awdurdod yn diogelu'r cyhoedd trwy godi safonau rheoleiddio a chofrestru pobl yn gweithio mewn iechyd a gofal. Mae'r Awdurdod yn gorff annibynnol yn y Deyrnas Unedig.

1.3 Mae gan yr Awdurdod fwrdd sy'n cynnwys saith aelod anweithredol ac un aelod gweithredol a benodir gan y Bwrdd.

1.4 Penodir yr aelodau anweithredol gan y Cyfrin Gyngor, gweinidogion Cymru a'r Alban, a'r Adran Iechyd yng Ngogledd Iwerddon.

1.5 Mae'r Awdurdod wedi ei ariannu'n bennaf gan ffioedd a delir gan y rheolyddion a oruchwylir gennym. Dan y Deddfau Seneddol sy'n llywodraethu'r hyn a wnawn, mae gennym rymoedd i gyflawni detholiad o weithgareddau i hyrwyddo iechyd a lles cleifion, a'r cyhoedd yn gyffredinol parthed rheoleiddio gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol.

1.6 Mae gennym ddyletswyddau a grymoedd parthed:

- Trosolwg o'r 10 corff statudol sy'n rheoleiddio gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn y Deyrnas Unedig
- Achredu'r cofrestrau a gedwir gan gyrff cofrestru anstatudol gweithwyr iechyd a gofal
- Darparu comisiynau i, a chyflawni ymchwiliadau ar gyfer, llywodraeth
- Darparu cyngor i sefydliadau eraill tebyg yn y Deyrnas Unedig a thramor.

1.7 Mae'r Awdurdod yn adrodd i Senedd y Deyrnas Unedig ac yn cydweithio'n agos â'r gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon a gyda'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Adran Addysg yn Lloegr, i gyflenwi'n hoblygiadau statudol ac amcanion allweddol ein cynllun busnes. Mae hyn yn cynnwys nodi ac ymateb yn briodol i risgiau mewnol ac allanol.

1.8 Mae'r Awdurdod yn gorff cyhoeddus annosbarthedig.

## Beth ydyn ni'n ei wneud

### *Gwaith rheoleiddio a gosod safonau*

1.9 Mae gan yr Awdurdod rymoedd i:

- Ymchwilio, cymharu ac adrodd ar berfformiad pob rheoleiddiwr. Gofynnir yn benodol i ni adrodd i'r Senedd ar i ba raddau mae pob rheoleiddiwr wedi

[1] Ar gael ar www.legislation.gov.uk/ukpga/2012/7/contents/enacted

cydymffurfio ag unrhyw ddyletswydd a osodwyd arno i hyrwyddo iechyd, diogelwch a lles cleifion a'r cyhoedd yn gyffredinol

- Archwilio camau cyntaf achosion addasrwydd i ymarfer ac adrodd ar ein casgliadau parthed pob rheoleiddiwr
- Arolygu canlyniadau achosion addasrwydd i ymarfer terfynol a'u cyfeirio at y Llys os ystyriwn fod y canlyniad yn annigonol ac nad yw'n diogelu'r cyhoedd[2]
- Rhoi cyfarwyddiadau yn gofyn i reoleiddiwr sefydlu rheolau dan unrhyw rymoedd sydd gan y corff i wneud hynny.

1.10 Rydym yn hyrwyddo iechyd a lles cleifion a'r cyhoedd yn gyffredinol wrth reoleiddio gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol. I gyflawni hyn, rydym yn gwrando ar farn a phryderon pobl a'u hystyried wrth ddatblygu'n gwaith.

1.11 Rydym yn cynorthwyo' r Cyfrin Gyngor i arfer eu grymoedd penodi parthed y rheolyddion a chefnogi ansawdd penodiadau i gynghorau rheolyddion. Mewn ymgynghoriad â'r rheolyddion, rydym wedi cynhyrchu safonau ar gyfer y Cyfrin Gyngor yn ymwneud â recriwtio a phenodiadau i gynghorau'r rheolyddion.

1.12 Rydym yn craffu a goruchwylio gwaith y 10 rheoleiddiwr rheoleiddio sy'n gosod safonau ar gyfer hyfforddiant ac ymddygiad gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol.

1.13 Rydym yn hyrwyddo arfer da a rheoleiddio cyffyrddiad cywir. Rydym yn gweithio gyda'r rheolyddion i wella ansawdd a rhannu arfer da. Er enghraifft, rydym yn rhannu pwyntiau dysgu sy'n codi o archwilio achosion addasrwydd i ymarfer ac yn trefnu seminarau i archwilio materion rheoleiddio.

1.14 Rydym yn rhannu arfer da a gwybodaeth gyda'r rheolyddion, yn cyflawni ymchwil a chyflwyno syniadau newydd am reoleiddio i'r sector. Rydym yn gweithio'n agos gydag, ac yn cynghori, pedair adran iechyd llywodraethau'r Deyrnas Unedig a'r Adran Addysg yn Lloegr (o ran Social Work England) ar faterion yn ymwneud â rheoleiddio gweithwyr iechyd a gofal.

1.15 Y rheolyddion yw:


- Y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol (GCC) sy'n rheoleiddio ceiropractyddion yn y Deyrnas Unedig
- Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC) sy'n rheoleiddio deintyddion, nyrsys deintyddol, technegwyr deintyddol, hylenyddion deintyddol, therapyddion deintyddol, technegwyr deintyddol clinigol a therapyddion orthodonteg yn y Deyrnas Unedig
- Y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC) sy'n rheoleiddio meddygon yn y Deyrnas Unedig
- Y Cyngor Optegol Cyffredinol (GOC) sy'n rheoleiddio optometryddion, optegwyr cymwysedig, optegwyr sy'n fyfyrwyr a busnesau optegol yn y Deyrnas Unedig
- Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol (GOsC) sy'n rheoleiddio meddygon esgyrn yn y Deyrnas Unedig
- Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (GPhC) sy'n rheoleiddio fferyllwyr, technegwyr fferyllol ac eiddo fferyllol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban

[2] O 31 Rhagfyr 2015 fe ddisodlodd yr ymadrodd 'annigonol i ddiogelu'r cyhoedd' yr ymadrodd 'rhy drugarog'.

- Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a gofal (HCPC) sy’n rheoleiddio therapyddion celf, gwyddonwyr biofeddygol, ciropodyddion/podiatryddion, gwyddonwyr clinigol, dietegwyr, cyflenwyr teclynnau clyw, therapyddion galwedigaethol, ymarferwyr adrannau llawdriniaeth, orthoptwyr, parafeddygon, ffisiotherapyddion, ymarferwyr seicolegol, prosthetyddion ac orthotyddion, radiograffwyr, a therapyddion lleferydd a llais yn y Deyrnas Unedig
- Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) sy’n rheoleiddio nyrsys a bydwragedd yn y Deyrnas Unedig a chymdeithion nyrsio yn Lloegr
- Cymdeithas Fferyllol Gogledd Iwerddon (PSNI) sy’n rheiddio fferyllwyr ac eiddo fferyllol yng Ngogledd Iwerddon
- Social Work England (SWE) sy'n rheoleiddio gweithwyr cymdeithasol yn Lloegr.

1.16 Ceir manylion y nifer sydd wedi cofrestru ym mhob rheoleiddiwr gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol a oruchwylir gennym (fel yr oedd ar 31 Mawrth 2022) isod.

**Tabl 1 Nifer o bersonau cofrestredig fesul rheoleiddiwr gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol**




### *Cofrestrau Achredig*

1.17 Mae gan yr Awdurdod rôl statudol o ran atgyfnerthu ansawdd a diogelwch cleifion trwy osod safonau ac achredu cofrestrau pobl sy'n gweithio mewn galwedigaethau nad ydynt wedi eu rheoleiddio gan gyfraith. O 31 Mawrth 2022, roedd yna 23 o gofrestrau achrededig.

1.18 Diben yr achrediad yw gwella ansawdd cofrestriad a gyflawnir gan y sefydliadau sy'n meddu ar y cofrestrau hyn ac i hyrwyddo safonau ymddygiad da, cymhwyster technegol a, ble fo'n berthnasol, ymarfer busnes gan eu personau cofrestredig. Ei fwriad yw hybu amddiffyn y cyhoedd ac i gefnogi dewis gan y cyhoedd wrth geisio gwasanaethau gan ymarferwyr mewn galwedigaethau nad ydynt wedi eu rheoleiddio gan gyfraith. Mae'n fodd cymesur o reoli risgiau.

### *Comisiynau gan Lywodraeth(au)*

1.19 Rydym yn cefnogi gwaith yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg, Senedd Cymru, gweinidogion yr Alban a'r Adran Iechyd yng Ngogledd Iwerddon trwy ddarparu cyngor ynghylch rheoleiddio a safonau gweithwyr iechyd a gofal. Rydym hefyd yn darparu cyngor ar faterion eraill pan ofynnir i ni wneud hynny.

1.20 Gall yr Ysgrifenyddion Gwladol a Gweinidogion Iechyd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon ofyn i ni ymchwilio materion sy'n achosi pryder hefyd. Fel y sefydlwyd yn y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012, mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r gweinyddiaethau datganoledig yn talu ffi, i'w bennu gan yr Awdurdod, ar gyfer y gwaith hwn.

1.21 Rydym yn ymgynghori â llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r llywodraethau yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon ar ddatblygu canllawiau ar gyfer y sector, ac yn ymateb i'w hymgynghoriadau. Yn ogystal, byddwn yn cadw golwg ar ddatblygiadau rhyngwladol a allai effeithio ar reoleiddio iechyd a gofal cymdeithasol yn y Deyrnas Unedig. Rydym yn gweithio gyda chydweithwyr yn y Deyrnas Unedig a rhyngwladol, gan sicrhau ein bod yn ymwybodol o'r datblygiadau hyn a'n bod yn cryfhau ein cysylltiadau â'r partneriaid hyn.

### *Cyngor i sefydliadau eraill*

1.22 Mae ein deddfwriaeth yn ein caniatáu i ddarparu cyngor neu wasanaethau archwilio i reolyddion ac i eraill sydd â swyddogaethau tebyg i rai rheoleiddiwr, p'un a fydd y swyddogaethau hyn yn berthnasol i iechyd neu ofal cymdeithasol. Telir am y gwaith hwn gan y sefydliad sy'n gofyn am y cyngor.

### Ein gwerthoedd

1.23 Mae ein gwerthoedd yn disgrifio sut fyddwn ni'n gweithio gyda chydweithwyr a rhanddeiliaid allanol. Rydym yn ymgeisio i hyrwyddo, datblygu ac arddangos y gwerthoedd hyn ym mhopeth a wnawn. Mae diwylliant positif yn arwain at well perfformiad a gwell deilliannau i gleifion a'r cyhoedd.

1.24 Ein gwerthoedd yw:

- Cywirdeb – byddwn yn agored, onest ac yn ymddiried yn ein gilydd
- Tryloywder – byddwn yn glir ynghylch ein perfformiad a'r rhesymau dros ein penderfyniadau gyda phob rhanddeiliad
- Parch – byddwn yn trin ein gilydd, a'r rhai rydym yn gweithio gyda nhw tu allan i'r sefydliad, gyda pharch ar bob adeg
- Tegwch – byddwn yn ymdrechu i fod yn deg ym mhob agwedd o wneud penderfyniadau
- Gwaith tîm – byddwn yn gweithio mewn partneriaeth i ddarparu gwell deilliannau i gleifion a'r cyhoedd.

1.25 Mae ein gwerthoedd yn eglur yn sut ydym yn gweithio; ein hymagwedd tuag at ein goruchwyliaeth o gofrestru a rheoleiddio'r sawl sy'n gweithio mewn iechyd a gofal cymdeithasol, sut ydym yn datblygu cyngor polisi a sut ydym yn ymgysylltu â'n partneriaid i gyd. Rydym yn ceisio bod yn gyson o ran sut ydym yn gweithredu ein gwerthoedd.

1.26 Rydym yn annibynnol ond yn dal ein hunain yn atebol i'r cyhoedd ac i seneddau a chynulliad y Deyrnas Unedig ar gyfer yr hyn a wnawn a sut ydym yn ei wneud.

1.27 Rydym yn gwrando ar farn y bobl sy'n derbyn gofal. Rydym yn ceisio sicrhau yr ystyrir eu barn yng nghofrestriad a rheoleiddiad pobl sy'n gweithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.

1.28 Rydym yn datblygu a hyrwyddo rheoleiddiad cyffyrddiad cywir.[3] Mae hyn yn rheoleiddio sy'n gymesur i'r risg o niwed i'r cyhoedd ac sy'n darparu fframwaith fydd yn caniatáu i broffesiynoldeb ffynnu a ble gellir cyflawni rhagoriaeth sefydliadol.[4] Rydym yn gweithredu egwyddorion rheoleiddio cyffyrddiad cywir yn ein gwaith ein hunain.

### Ein hamcan

1.29 Rydym yn gweithio i amddiffyn y cyhoedd, gosod safonau ac annog gwelliant yng nghofrestriad a rheoleiddiad pobl sy'n gweithio mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Mae diogelwch y cyhoedd yn ganolog i bopeth a wnawn.

### Amcanion strategol ar gyfer 2020-23

1.30 Sefydlir amcanion strategol corfforaethol yr Awdurdod ar gyfer 2020-23 a gytunwyd gan y Bwrdd ym Mai 2020, ac a adolygir yn flynyddol, isod.

#### *Nod strategol 1*

1.31 Diogelu'r cyhoedd trwy ddarparu trosolwg effeithiol iawn o reoleiddio a chofrestru.

- Cyflawni ein dyletswyddau statudol, targedu ein hadnoddau ble mae'r risg mwyaf i'r cyhoedd
- Bod yn dryloyw wrth wneud penderfyniadau ac adrodd, gan gydnabod y rhai sy'n ymroddedig i gyflawni safonau uchel a bod yn drylwyr, clir a theg wrth adrodd am ddiffyg cydymffurfiad gyda'n safonau
- Cefnogi safonau uchel mewn rheoleiddio a chofrestru iechyd a gofal cymdeithasol trwy ddefnydd effeithiol o wybodaeth, data a deallusrwydd
- Arwain datblygiad rheoleiddio mwy effeithiol trwy ymchwil, gwaith a gomisiynwyd, cyngor polisi a defnydd o'n model sicrwydd cyffyrddiad cywir a thrwy lunio diwygio rheoleiddiol.

1.32 Yn ystod 2021/22 rydym wedi:

- Darparu adolygiadau perfformiad cadarn a theg o'r rheolyddion statudol; defnyddio ein pwerau Adran 29 i adolygu canlyniadau paneli Addasrwydd i Ymarfer; rheoli'r rhaglen Cofrestrau Achrededig; ac wedi adrodd ar ein casgliadau i'r Senedd
- Cwblhau adolygiad strategol o'r rhaglen cofrestrau achrededig yn arwain at gyflwyno cylch asesu newydd dros blynedd, sy'n seiliedig ar risg ac addasu ein prosesau adolygu perfformiad i sicrhau eu bod yn fwy cymesur ac effeithiol
- Cyfrannu at welliannau mewn rheoleiddio trwy ymchwil a chyngor polisi

[3] Awdurdod Safonau Proffesiynol (2010). *Right-touch regulation*. Ar gael ar www.professionalstandards.org.uk/policy-and-research/right-touch-regulation
[4] Diffinnir rhagoriaeth sefydliadol fel perfformiad cyson o arfer da wedi ei gyfuno â gwelliant parhaus.

- Monitro’r ymateb rheoleiddio proffesiynol i’r argyfwng Covid-19; darparu cyngor ac arweiniad i reolyddion ar newidiadau cysylltiedig â’r ymateb i’r argyfwng; ac wedi cynnal adolygiad o'r ymateb cychwynnol.

### *Nod strategol 2*

1.33 Sicrhau dull effeithiol a chydlynol o ddiogelu'r cyhoedd rhag niwed trwy hyrwyddo a hwyluso cydweithredu rhwng rheolyddion.

- Cynnal perthnasau cryf gyda rheolyddion statudol, sefydliadau gyda chofrestrau achredig a rhanddeiliaid eraill i wella safonau mewn ymarfer
- Cydweithio gyda rheolyddion proffesiynol a system mewn iechyd a gofal cymdeithasol i ddiogelu'r cyhoedd yn well
- Sicrhau bod y rhaglen cofrestrau achrededig a mathau eraill o sicrwydd mewn iechyd a gofal cymdeithasol yn cydweddu â rheoleiddio statudol i ddarparu dull cydlynol o ofal
- Ymestyn cydweithredu tu hwnt i’r rheolyddion proffesiynol a system i gynnwys cyflogwyr, cyrff cynrychiadol, cleifion a’r cyhoedd.

1.34 Yn ystod 2021/22 rydym wedi:

- Darparu ein strategaeth ymgysylltu â rhanddeiliaid newydd a defnyddio hyn i rannu gwybodaeth, dysgu ac arfer da ac i ddylanwadu ar ddiwygio rheoleiddio
- Hyrwyddo buddiannau defnyddwyr gofal iechyd, gofal cymdeithasol a gwaith cymdeithasol yng ngwaith rheolyddion a chofrestrau achrededig
- Adolygu’r cyfathrebu, cydweithredu a chydweithio rhwng rheolyddion proffesiynol, er mwyn cyflwyno gwelliannau
- Ymgysylltu â chyflogwyr, cyrff cynrychiadol, grwpiau cleifion a’r cyhoedd i ddatblygu dull cydlynol i ofal diogel.

### *Nod strategol 3*

1.35 Sicrhau bod yr Awdurdod wedi ei arwain yn dda, gyda ffocws pendant ar wella ansawdd, rheolaeth ariannol effeithiol, cydraddoldeb ac amrywiaeth a buddsoddiad yn ein pobl.

- Hyrwyddo a monitro cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn yr Awdurdod ac yn y rhai rydym yn eu goruchwylio
- Cynnal a gwella cost-effeithiolrwydd ac ansawdd trwy adolygu systemau, prosesau a gweithdrefnau'n systematig, a thrwy weithio gydag eraill
- Cadw a datblygu ein staff ac i gynnal diwylliant gwaith cadarnhaol
- Gwella arbenigedd a chefnogi darpariaeth trwy ddysgu a datblygu o safon uchel.

1.36 Yn ystod 2021/22 rydym wedi:

- Parhau i ddarparu ein strategaeth cyllid, TGCh a phobl, a chwblhau ein prosiect cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
- Adolygu ein trefniadau llywodraethu ac wedi gwella ein prosesau sicrwydd ymhellach

- Gwella ein heffeithiolrwydd a chynyddu ein gwerth am arian
- Darparu detholiad o gyfleoedd datblygiad proffesiynol defnyddiol ar gyfer staff.

### Egwyddorion busnes

1.37 Dechreuodd yr Awdurdod weithredu gyda phedair ffrwd gwaith yn 2012 ac, yn y cyfnod ers hynny, mae wedi cynyddu trylwyredd y gwahaniad rhyngddynt. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y bydd ein rhanddeiliaid yn chwilio am dryloywder parthed sut ydym yn gweithredu.

1.38 Isod rydym yn sefydlu'r egwyddorion sy'n sail i'n gwaith:

- Gwaith rheoleiddio a gosod safonau: Mae'r holl ffioedd o'r rheolyddion yn cael eu talu i'n swyddogaethau statudol o drosolwg a gwelliannau rheoleiddiol yn unig, fel y sefydlwyd yn ein deddfwriaeth. Bydd unrhyw warged neu ddiffyg a gynhyrchir yn erbyn ein cyllideb fel y cytunwyd gan y Cyfrin Gyngor yn cael ei ddefnyddio i gyfrifo ffi'r flwyddyn ganlynol
- Cofrestrau Achrededig: Mae ffioedd ar gyfer achredu neu adnewyddu o gofrestrau yn cael eu gweithredu i ddarparu a datblygu'r rhaglen cofrestrau achrededig yn unig. Bydd unrhyw warged a gynhyrchir yn cael ei gadw er budd y rhaglen
- Comisiynau gan Lywodraeth(au): Bydd prisio comisiynau a chontractau ymgynghori yn talu'r holl gostau sy'n gysylltiedig â'r gwaith. Bydd unrhyw warged yn deillio o hyn yn cael ei ddefnyddio yn ôl doethineb y Bwrdd i gefnogi ein hamcanion strategol er lles y cyhoedd
- Cyngor i sefydliadau eraill: Bydd prisio comisiynau a chontractau ymgynghori yn talu'r holl gostau sy'n gysylltiedig â'r gwaith. Bydd unrhyw warged yn deillio o hyn yn cael ei ddefnyddio yn ôl doethineb y Bwrdd i gefnogi ein hamcanion strategol er lles y cyhoedd.

1.39 Bydd gwargedion yn cael eu gweithredu yn unol â'r egwyddorion hyn wedi i ofynion ein polisi cronfeydd gael eu bodloni.

1.40 I sicrhau tryloywder, byddwn yn:

- Cyhoeddi ein cyfrifon blynyddol ac yn datgelu ein datganiadau ariannol wedi eu harchwilio yn llawn
- Dangos ein hincwm a gwariant yn glir parthed pob un o bedair swyddogaeth yr Awdurdod
- Cyhoeddi datganiad archwilydd mewnol yn sefydlu ein cydymffurfiad â'r egwyddorion busnes hyn.


1.41 Ar y cyd â'r egwyddorion hyn, mae ein Bwrdd wedi sefydlu polisi cronfeydd.

1.42 Mae'r Awdurdod wedi cytuno i gadw isafswm cronfeydd o gyfanswm o dri mis o gostau gweithredu, sef tua £1.244 miliwn, ble mae'r gwahaniaeth rhwng y canlynol wedi ei nodi:

- Elfen gyfyngedig yn gysylltiedig i waith rheoleiddio a safonau
- Elfen anghyfyngedig yn gysylltiedig i holl waith yr Awdurdod.

1.43 Adroddir ar lefel a lluniad ein cronfeydd yn hwyrach yn ein cyfrifon ariannol (t72).

1.44 Bydd angen rhoi unrhyw arian a gymerir o'r cronfeydd yn ystod y flwyddyn sy'n ei leihau i lai na’r lefel isafswm a gytunwyd yn ôl yn y flwyddyn neu flynyddoedd dilynol.



Alan Clamp,

Swyddog Cyfrifyddu

15 Mehefin 2022

## 2. Dangosyddion perfformiad allweddol

2.1 Mae'r adran hon yn esbonio sut ydym yn mesur perfformiad. Yn ein cynllun busnes blynyddol, fe gyflwynom amrywiol ddangosyddion perfformiad allweddol (DPA) ar gyfer ein gwaith. Rydym yn eu hadolygu yn rhan o raglen waith y Grŵp Cyfarwyddwyr ac yn eu hadrodd i'r Bwrdd. Rydym yn eu trafod gyda swyddogion yn yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r gweinyddiaethau yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon yn ein cyfarfodydd rhannu gwybodaeth cyfnodol.

2.2 Cyflwynir ein perfformiad yn erbyn y dangosyddion hynny sydd fwyaf tebygol o fod o ddiddordeb i'r cyhoedd yn ystod 2021/22 isod:

| Maes Gwaith | Dangosyddion perfformiad allweddol | Perfformiad hyd yma yn 2021/22 |
|---|---|---|
| Cyllid | I dalu anfonebau diamheuol:<br>100% o fewn 10 niwrnod | 100% [611/611] |
| | Amrywiad incwm / gwariant a gyllidwyd yn llai na 5% (ac eithrio Adran 29 sydd tu hwnt i'n rheolaeth) | 7.5% [4,089/4,421] |
| | Cyfradd gwall taliad yn llai na 3% | 0% [0/611] |
| | Cyfradd archebion prynu hwyr yn llai na 10% | 6.4% [18/280] |
| AD | Salwch staff yn ddim mwy na 2% | 2.7% [295/10766][5] |
| | Trosiant staff i fod yn llai na 15% | 9.09% [4/44] |
| | Proses recriwtio cyfartalog yn llai nag 12 wythnos | 7.3 wythnos |
| | Cyfradd swyddi gwag yn ddim mwy na 5% | 4.5% [2/44] |
| TGCh | Cau 85% o alwadau i'r ddesg gymorth o fewn 1 niwrnod | 96% [306/320] |
| | Diffyg argaeledd y system yn is na 10 awr | 0 |

[5] Mae hyn oherwydd dau absenoldeb salwch hirdymor. Heb y rhain, mae'r ffigwr yn 1.20%

| | | |
|---|---|---|
| Diogelwch gwybodaeth | Dim achosion wedi eu hadrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth | 0 |
| Ceisiadau gwybodaeth (FOI / SAR / EIR) | Delio â phob (100%) Cais Gwrthrych am Wybodaeth o fewn dyddiadau cau statudol<br><br>Delio â phob (100%) cais Deddf Rhyddid Gwybodaeth o fewn dyddiadau cau statudol | 80% [4/5][6]<br><br>100% [21/21] |
| Archwiliad – mewnol | Cwblhau 100% o adolygiadau a gynlluniwyd o fewn y flwyddyn ariannol honno – cynnydd hyd yma. | 100% |
| Cwynion | Cydnabod 100% o gwynion ymhen pum niwrnod<br><br>Cwblhau ymateb i bob cwyn o fewn 28 niwrnod | 100% [4/4]<br><br>100% [4/4] |
| Iechyd a diogelwch | Dim digwyddiadau yn achosi niwed wedi eu hadrodd | Dim |
| Penderfyniadau adran 29 | Nifer o achosion a dderbyniwyd [o gymharu â 2020-21]<br><br>Nifer o achosion Gyfarfodydd Achos a gynhaliwyd [o gymharu â diwedd 2020-21]<br><br>Apeliadau a gyflwynwyd [o gymharu â 2020-21]<br><br>Ystyried 100% o benderfyniadau perthnasol o fewn y dyddiad cau statudol [o gymharu â 2020-21] | 2137 [2019]<br><br>101 [75]<br><br>19[7] [11]<br><br>100% (2129) [100% (2093)] |
| Adolygiadau Perfformiad | 100% o asesiadau cychwynnol 2021 wedi'u cwblhau ar amser | 50% [5/10][8] |

[6] Mae hyn oherwydd yr ymateb i'r dyddiad yn syrthio dros y penwythnos, er yr anfonwyd ymateb i'r cais yn syth ar y diwrnod gwaith nesaf. Roedd un diwrnod yn hwyr o fewn y dyddiad cau statudol.
[7] Yn cynnwys 1 achos dan a.40B y Ddeddf Feddygol, yn ymuno ag apêl y GMC.
[8] Cynhaliwyd pum panel asesu cychwynnol yn hwyr: tri oherwydd problemau adnoddau staff tîm adolygu perfformiad – un o un wythnos, un o dair wythnos, ac un o ddau fis; bu oedi o ddiwrnod ar un oherwydd argaeledd aelod o'r panel; a bu oedi o tua phedair wythnos ar un ar gais y rheoleiddiwr i ystyried y pwysau adnoddau ar y rheoleiddiwr.

| | | |
|---|---|---|
| | Cyhoeddwyd 100% o adolygiadau perfformiad 2021 o fewn 3 mis i'r amserlen ddangosol gychwynnol<br><br>Cyhoeddwyd 100% o adolygiadau perfformiad 2021 o fewn 3 mis i'r amserlen ddangosol gychwynnol | 80% [8/10][9]<br><br>75% [6/8][10] |
| Pryderon y cyhoedd am Gyrff Rheoleiddio | Cydnabod 100% o bryderon o fewn pum niwrnod gwaith | 99% (366/370)[11] |
| Cofrestrau Achrededig – prosesau cyfredol (cyflwynwyd Gorffennaf 2021) | 90% o Gofrestrau'n cael asesiad llawn o fewn tair blynedd i'r asesiad blaenorol.<br><br>90% o benderfyniadau am y gwiriad blynyddol o fewn blwyddyn i'r asesiad blaenorol.<br><br>90% o asesiadau llawn wedi eu cynnal o fewn blwyddyn i gyhoeddi Amod.<br><br>95% o adolygiadau targedig yn cael eu cwblhau o fewn tri mis i'r dyddiad cychwyn<br><br>90% o benderfyniadau wedi eu gwneud ar geisiadau newydd ar gyfer achrediad o fewn dau fis i dderbyn yr holl wybodaeth. | 100% (23/23)<br><br>96% (22/23)<br><br>100% (23/23)<br><br>Amh<br><br>100% (1/1) |
| Defnydd o'r wefan | Data blynyddol ar ddefnydd gwefan[12] ar gyfer 21/22 o gymharu â 20/21 (mewn cromfachau) | |

9 Cyhoeddwyd dau adroddiad 2020 y tu allan i'r DPA. Cyhoeddwyd un tua mis y tu allan i'r DPA. Cyhoeddwyd hwn ym mlwyddyn ariannol 2020/21 a chafodd ei ohirio oherwydd sawl ffactor, gan gynnwys pwysau a achoswyd gan y pandemig yn ystod 2020 yn yr Awdurdod a'r rheoleiddiwr. Cyhoeddwyd yr adroddiad arall tua dau fis y tu allan i'r DPA gan fod yr asesiad cychwynnol wedi'i ohirio am dri mis ar gais y rheoleiddiwr oherwydd pwysau a achoswyd gan y pandemig.

10 Cyhoeddwyd dau adroddiad 2021 y tu allan i'r DPA. Cyhoeddwyd y ddau tua phythefnos ar ôl y dyddiad DPA. Roedd un oherwydd adnoddau staff a thrafodaethau estynedig gyda'r rheoleiddiwr yn ymwneud ag un maes o'r adolygiad. Roedd y llall oherwydd bod y panel asesu cychwynnol wedi'i ohirio am ddau fis oherwydd adnoddau staff.

11 Ymatebwyd i un pryder 14 niwrnod yn hwyr wedi iddo gyrraedd trwy'r post yn y swyddfa dros y Flwyddyn Newydd, tra bod staff yn gweithio o gartref.

Fel y nodwyd yn flaenorol yn Ch2 fe fethodd un y DPA o ddau ddiwrnod ac yn Ch1, roedd un wedi ei fethu o ddiwrnod a'r llall o ddau ddiwrnod.

12 Data gwefan rhwng Tachwedd 21 a Mawrth 22 ddim yn gywir oherwydd offeryn olrhain cwcis newydd yn analluogi cwcis gwe (sy'n casglu data defnydd) heb ofyn am ganiatâd defnyddiwr.

| | | |
|---|---|---|
| | • Cyfanswm yr ymweliadau â thudalennau ar draws y wefan<br><br>• Tudalen lanio Gwirio Ymarferwr a thudalennau ymarferwyr penodol<br><br>• Tudalen hafan Cofrestrau Achrededig a thudalennau Cofrestrau Achrededig cysylltiedig | 560,885 (666,704)<br><br>163,942 (140,474)<br><br>93,938 (144,443) |

### Dadansoddiad o berfformiad

2.3 Fel y dengys yr adroddiad hwn, rydym wedi parhau i ffocysu ar ddiogelu'r cyhoedd, gwella rheoleiddio proffesiynol a chofrestru a chyflawniad effeithiol o'n holl swyddogaethau statudol. Rydym wedi gweithio'n galed i sicrhau ein bod wedi cynnal safon ein perfformiad.

2.4 Mae swm y gwaith a gyflawnir gan staff wedi parhau i fod yn uchel. Rydym yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a chydweithrediad yr ydym wedi derbyn gan y rheolyddion, yn arbennig eu cydweithrediad gyda'r cylch cynllunio busnes a'r ymgynghoriad ffioedd.

2.5 Mae ein gwaith polisi a'n rhaglen ymchwil yn parhau i ddwyn dylanwad.

2.6 Mae'r rhaglen cofrestrau achrededig yn gwbl integredig i'n cynlluniau gwaith, llywodraethu a rheoli ariannol. Gyda 23 o gofrestrau wedi eu hachredu yn cwmpasu oddeutu 100,000 o ymarferwyr, mae'n gyfraniad gwerthfawr i ansawdd a dewis mewn iechyd a gofal.

## 3. Gwaith rheoleiddio a gosod safonau

### Adran 29

3.1 Dan Adran 29 Deddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, gallwn gyfeirio penderfyniadau terfynol addasrwydd i ymarfer (FTP) a wneir gan y 10 rheoleiddiwr at y Llys (gan fod atgyfeiriad gennym yn cael ei ystyried fel apêl gan y Llys) os byddwn yn ystyried nad yw'r penderfyniad yn ddigonol i ddiogelu'r cyhoedd.

3.2 Eleni rydym wedi gweld cynnydd o 6% yn y nifer o benderfyniadau achosion addasrwydd i ymarfer gan y rheolyddion, o 2,019 yn 2020/21 i 2,137 yn 2021/22 (gweler tabl 2). Mae’r cynnydd bach hwn yn nifer yr achosion yn debygol o fod oherwydd ailddechrau gwrandawiadau yn dilyn y nifer llai o wrandawiadau a gynhaliwyd yn ystod pandemig Covid-19.

3.3 Roedd mwyafrif y penderfyniadau a adolygwyd gennym (43%) yn benderfyniadau panel yr NMC.

3.4 O’r 2,137 o achosion a dderbyniom yn 2021/22, cafodd 91% (1,943) eu cau heb fod angen rhagor o wybodaeth. Fodd bynnag, roedd 440 o'r achosion hyn wedi arwain at y rheoleiddiwr yn dileu enw'r person cofrestredig oddi ar ei gofrestr, peidio ei adfer i'r gofrestr, neu ei atal am gyfnod amhenodol, ac felly nid oedd yn codi unrhyw bryderon am ddiogelu'r cyhoedd ac nid oedd angen ymyrraeth gan yr Awdurdod. Nid ydym ychwaith yn edrych ar achosion ble mae panel adolygu wedi cyflwyno ataliad pellach, ataliad yn dilyn cyfnod o gofrestriad amodol, neu ble mae gwaharddiad wedi ei gyflwyno ar gyfer y cyfnod uchafswm mewn achos yn ymwneud ag iechyd, perfformiad, diffyg ieithyddol neu ddiffyg cydymffurfiad â’r broses reoleiddio gan y person cofrestredig. Yn defnyddio'r dull hwn, cafodd 289 o achosion eu cau. Caewyd 40 o achosion eraill yr NMC yn dilyn canfyddiad o amhariad ond lle’r oedd cofrestriad yr unigolyn cofrestredig wedi dod i ben yn ystod y broses FTP. Yn yr achosion hyn, pe bai’r cofrestrai’n gwneud cais am adferiad, byddai’r pryderon FTP blaenorol yn cael eu cyfeirio’n ôl drwy’r broses FTP.

3.5 O’r achosion a dderbyniwyd yn ystod 2021/22, gofynnom am ragor o wybodaeth a chynnal adolygiadau achos manwl mewn 101 o achosion (5%), o gymharu â 75 yn 2020/21.

3.6 Yn ystod 2021/22, fe ystyriom 26 penderfyniad panel mewn cyfarfodydd achos ffurfiol. Roedd pedwar ar hugain o’r rhain yn gyfarfodydd achos ‘Adran 29’ a chynhaliwyd dau gyfarfod i ystyried a ddylid ymuno ag apeliadau gan y GMC neu beidio (‘cyfarfod Adran 40B’). Roedd un o'r cyfarfodydd achos hyn a wnelo ag apêl yn ymwneud â naw meddyg; gohiriwyd y llall ac ni wnaethpwyd penderfyniad eto ynghylch ymuno â'r apêl. I gymharu, yn 2020/21, cynhaliom 20 o gyfarfodydd, gydag un hefyd yn gyfarfod achos Adran 40B.

3.7 Cyfeiriom 18 achos i’r Llys dan ein hawdurdodaeth Adran 29 (o gymharu ag 11 yn 2020/21).ac ymuno fel parti i un apêl gan y GMC sy'n ymwneud â naw chofrestrydd. Cafodd ein hapêl ar saith achos a gyfeiriwyd o fewn y flwyddyn ariannol hon eu cynnal neu setlo trwy gydsyniad, cafodd un ei dynnu'n ôl oherwydd bod y cofrestrydd wedi ei ddileu o'r gofrestr yn gysylltiedig â mater arall, ac mae 11 achos yn weddill wedi eu rhestru ar gyfer gwrandawiad yn ystod blwyddyn ariannol


2022/23, a bydd eu canlyniadau yn cael eu hadrodd yn adroddiad blynyddol y flwyddyn nesaf.

3.8 Mewn wyth o'r 10 o’r achosion sy'n weddill a ystyriom mewn cyfarfodydd achos ffurfiol ond ble penderfynom beidio cyfeirio at y Llys, fe nodom bwyntiau dysgu i'w porthi yn ôl i'r rheolyddion.


3.9 Eleni rydym wedi gweld cynnydd yn y canran o achosion a gyfeirir at y Llys (i fyny i 0.89% o 0.54%) wrth gymharu â’r flwyddyn flaenorol (gweler tabl 3).

3.10 O’r 18 atgyfeiriad wnaethom i'r Llys dan awdurdodaeth Adran 29 a wnaethom yn 2021/22, roedd tri yn ymwneud â phenderfyniadau gan y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd Ymarferwyr Meddygol, 10 yn ymwneud â phenderfyniadau panel NMC, un yn ymwneud â phenderfyniad panel GDC, tri yn ymwneud â phenderfyniadau panel SWE (gydag un wedi ei dynnu'n ôl), ac un i benderfyniad panel GPhC. Fel y nodwyd ym mharagraff 3.7, fe wnaethom hefyd ymuno ag un apêl GMC yn erbyn penderfyniad y Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol o dan ein pwerau yn Adran 40B o'r Ddeddf Feddygol.

**Tabl 2 Nifer o achosion addasrwydd i ymarfer a dderbyniwyd yn flynyddol**




**Tabl 3 – Nifer o achosion a gyfeiriwyd at y Llys yn flynyddol**



**Tabl 4 – Cynnydd achosion a gyfeiriwyd at y Llys**

| Rheoleiddiwr | Nifer o benderfyniad a gyfeiriwyd at y Llys dan Adran 29 Deddf 2002 | Canlyniad |
|---|---|---|
| NMC | Roedd deg yn ymwneud â phenderfyniadau panel yr NMC | Setlwyd pedair apêl drwy Orchymyn Cydsynio. Mewn un achos amnewidiwyd yr ataliad â dilead, trosglwyddwyd un arall i banel yr NMC, ac mewn achos arall disodlwyd y canfyddiad o ddim amhariad gan ganfyddiad o amhariad.<br><br>Mewn un achos daethpwyd i gytundeb lle derbyniwyd penderfyniad panel adolygu i ganiatáu i'r cofrestriad ddod i ben. Cymeradwyodd y Llys y Gorchymyn Cydsynio a oedd yn cadarnhau'r apêl ac yn mynnu bod gwybodaeth benodol yn cael ei hystyried mewn unrhyw gais adfer.<br><br>Disgwyliwn i'r pum apêl sy'n weddill ddod i ben yn ystod 2022/23. |
| GMC | Pedwar (Un dan Adran 40B) ble mae apêl y GMC yn ymuno â ni | Disgwyliwn i’r apeliadau hyn gael eu cwblhau yn ystod 2022/23. |
| SWE | Tri | Tynnwyd un apêl yn ôl ar ôl i’r cofrestrai gael ei dynnu oddi ar y gofrestr mewn perthynas ag achos arall.<br><br>Cafodd un apêl ei chadarnhau a chafodd yr achos ei anfon yn ôl at banel SWE.<br><br>Disgwyliwn i’r apêl sy'n weddill ddod i ben yn ystod 2022/23. |
| GPhC | Un | Disgwyliwn i’r apêl hon gael ei chwblhau yn ystod 2022/23. |
| GDC | Un | Cafodd yr apêl hon ei chynnal, ac fe ddisodlwyd yr ataliad gyda dilead. |

## Adolygiad perfformiad

3.11 Mae gennym ddyletswydd statudol i adrodd yn flynyddol ar berfformiad y rheolyddion o ran cyflawni eu dyletswydd i ddiogelu’r cyhoedd. Rydym yn gwneud hyn trwy asesu eu perfformiad yn erbyn ein Safonau Rheoleiddio Da. Rydym yn adolygu ac adrodd ar berfformiad pob rheoleiddiwr pob blwyddyn.  Yn ystod y

flwyddyn ariannol, cyhoeddom naw adroddiad adolygiad perfformiad. Roedd dau o'r adroddiadau hyn o gylchred adolygiad perfformiad a gychwynnodd yn Ionawr 2020, a saith o gylchred Ionawr 2021. Cyhoeddwyd un o'r tri adroddiad sy'n weddill ar gyfer cylch 2021 ddechrau mis Ebrill, a chyhoeddir y ddau arall yn ddiweddarach yn 2022.

3.12 O'r adroddiadau hynny a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn o gylchred adolygiadau 2020, llwyddodd y PSNI a SWE i fodloni 15 o'r 18 Safon.

3.13 O'r adroddiadau hynny a gyhoeddwyd o gylchred 2021, roedd y GOsC a'r GMC yn bodloni'r holl Safonau, roedd y GCC, y GOC a'r NMC yn bodloni 17 o 18 o Safonau, y GPhC yn bodloni 15 o 18 o Safonau, a'r HCPC yn bodloni 13 o 18 o Safonau.

### *HCPC*

3.14 Nododd ein hadolygiad perfformiad 2016/17 o'r HCPC bryderon difrifol am broses addasrwydd i ymarfer yr HCPC. Cymerodd yr HCPC gamau i fynd i'r afael â'n pryderon. Fodd bynnag, yn ein hadroddiad ar gyfer 2019/20, fe wnaethom nodi bod pryderon difrifol o hyd. O ganlyniad, fe wnaethom ysgrifennu gyda'n pryderon at y Pwyllgor Dethol ar Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Ym mis Tachwedd 2020, cychwynnodd yr HCPC ar gynllun gwella newydd a chyflwynasom waith monitro agosach ar y cynllun hwn. Mae ein monitro wedi cynnwys cyfarfodydd gweithredol rheolaidd a'n presenoldeb ym Mwrdd Gwella Addasrwydd i Ymarfer yr HCPC.

3.15 Mae'n amlwg bod yr HCPC yn gwbl ymrwymedig i wella ei berfformiad o ran addasrwydd i ymarfer ac adennill y Safonau nad yw'n eu bodloni ar hyn o bryd. Rydym wedi nodi egni ac ymrwymiad yr HCPC wrth symud ei waith gwella yn ei flaen ac yn cydnabod y bydd yn cymryd amser i hyn wreiddio ac i ni allu asesu effaith y newidiadau. Byddwn yn edrych yn fanwl ar berfformiad yr HCPC o ran addasrwydd i ymarfer yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23; o dan ein dull newydd (gweler paragraffau 3.20-3.24), mae'r HCPC wedi'i restru ar gyfer adolygiad cyfnodol.

### *Social Work England*

3.16 Yn ystod y flwyddyn hon, cyhoeddwyd ein hadroddiad cyntaf ar berfformiad Social Work England ers iddo ddod i rym ar 2 Rhagfyr 2019. Roedd yr adolygiad yn ymdrin â pherfformiad Social Work England rhwng mis Rhagfyr 2019 a mis Tachwedd 2020.

3.17 Gan fod Social Work England yn sefydliad newydd gyda rhai pwerau newydd, fe wnaethom addasu ein harolygiaeth yn ei flwyddyn gyntaf o weithredu fel y gallem fonitro ei berfformiad yn agos. Fel y nodwyd uchod, bodlonodd Social Work England 15 o'r 18 Safon. Roedd y tair Safon na chyrhaeddodd yn ymwneud â: data demograffig cyfyngedig ei gofrestryddion a chynnydd yn erbyn ei strategaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant; amseroedd prosesu cofrestru; ac asesiadau risg addasrwydd i ymarfer. Er bod y rhain yn feysydd pwysig y mae angen mynd i'r afael â hwy, roeddem o'r farn, yn gyffredinol, fod perfformiad Social Work England yn dda ar gyfer sefydliad newydd ei sefydlu.

### *Data*

3.18 Yn rhan o'n proses o gasglu tystiolaeth ar gyfer y broses o adolygu perfformiad, rydym yn casglu data'n chwarterol, sy'n ein galluogi i nodi tueddiadau gydag amser ac yn darparu gwybodaeth i hysbysu gwaith pellach. Rydym hefyd yn casglu set data blynyddol gan y rheolyddion. Mae’r tabl isod yn amlinellu rhai o’r ystadegau allweddol ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2021 hyd 31 Mawrth 2022. Nid yw'r wybodaeth hon wedi ei harchwilio gennym.

| Data ar gyfer 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022 | GCC | GDC | GMC | GOC | GOsC | GPhC | HCPC | NMC | PSNI | SWE |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer o bersonau cofrestredig** | 3,492 | 114,899 | 351,021 | 32,234 yn cynnwys 2,768 sefydliad corfforaethol a 5,943 o fyfyrwyr a hyfforddeion | 5,471 | 99,909 yn cynnwys 13,844 eiddo | 297,515 | 758,303 | 2,847 | 98,447 |
| **Nifer o geisiadau cofrestru cychwynnol newydd a dderbyniwyd** | 228 | 8,737 | 20,991 | 1,458 | 276 | 6,782 | 22,846 | 48,436 | 154 | 5,474 |
| **Nifer o apeliadau cofrestru a gwblhawyd ble na chyflwynwyd gwybodaeth newydd, ac a ategwyd.** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Canolrif amser (mewn dyddiau) a gymerwyd i broses ceisiadau cofrestru cychwynnol ar gyfer:** | | | | | | | | | | |
| • **Graddedigion y Deyrnas Unedig** | 1 | 19 | 1 | 4 | 2 | Fferyllwyr = 0 Technegydd Fferyllfa = 0 | 8 | 0 | 11 | 0 |
| • **Rhyngwladol** | 1 | 33 | 17 | 6 | 1 | Fferyllwyr = 0 Technegydd Fferyllfa = 0 | 92 | 0 | 7.5 | 0 |
| **Ffi dargadw flynyddol** | £800 | £680 (Deintyddion) £114 (Gweithwyr Gofal Deintyddol) | £408 | £360 | £320 (Cofrestriad blwyddyn 1) £430 (Blwyddyn 2 DU) £215 (Blwyddyn 2 graddfa is) £570 (Blwyddyn 3 DU) £320 (Blwyddy | £257 (Fferyllydd) £121 (Technegwyr Fferyllfa) £365 (Eiddo) | £180 (talwyd dros gylch o 2 flynedd) | £120 | £398 (Fferyllydd) £155 (Eiddo) | £90 |

| Data ar gyfer 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022 | GCC | GDC | GMC | GOC | GOsC | GPhC | HCPC | NMC | PSNI | SWE |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | n 3 graddfa is) | | | | | |
| **Amser a gymer (mewn wythnosau) o dderbyn cwyn cyntaf i benderfyniad y pwyllgor archwilio terfynol:** | | | | | | | | | | |
| • **Canolrif amser i ddod i gasgliad** | 46 | 57 | 45 | 73 | 27 | 73.6 | 57 | 95 | 44 | 71.8 |
| • **Achos hiraf i ddod i gasgliad** | 139 | 329 | 456 | 197 | 80 | 187.4 | 225 | 329 | 65 | 233.9 |
| • **Achos cyflymaf i ddod i gasgliad** | 11 | 12 | 2 | 25 | 8 | 36.9 | 14 | 14 | 30 | 4.6 |
| **Amser o dderbyn cwyn cyntaf (mewn wythnosau) i benderfyniad gwrandawiad addasrwydd i ymarfer terfynol:** | | | | | | | | | | |
| • **Canolrif amser i ddod i gasgliad** | 134 | 121 | 118 | 83 | 65 | 126.1 | 123 | 143 | 91.5 | 158.1 |
| • **Achos hiraf i ddod i gasgliad** | 212 | 436 | 412 | 292 | 97 | 273.9 | 253 | 408 | 168 | 293.4 |
| • **Achos cyflymaf i ddod i gasgliad** | 60 | 29 | 16 | 25 | 42 | 71.1 | 64 | 18 | 58 | 67.4 |
| **Yr amser canolrif (mewn wythnosau) o dderbyn cwyn i benderfyniad gorchymyn dros dro, ac o dderbyn gwybodaeth yn dynodi angen am orchymyn dros dro i benderfyniad gorchymyn dros dro:** | | | | | | | | | | |
| • **Derbyn cwyn** | 22 | 13 | 8 | 17 | 8 | 10.0 | 22 | 28 | 39.5 | 36.9 |
| • **Derbyn gwybodaeth** | 4 | 3 | 3 | 4 | 3 | 2.7 | 3 | Amh | 6.5 | 4.1 |
| **Nifer o apeliadau personau cofrestredig /Awdurdod yn erbyn penderfyniadau terfynol addasrwydd i ymarfer:** | | | | | | | | | | |
| • **Apeliadau personau cofrestredig** | 0 | 0 | 16 | 2 | 0 | 0 | 4 | 4 | 0 | 3 |
| • **Apeliadau gan yr Awdurdod** | 0 | 1 | 12 (9 ar y cyd â'r GMC) | 0 | 0 | 1 | 0 | 10 | 0 | 3 |
| **Nifer o geisiadau adolygiad** | 0 | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

| Data ar gyfer 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022 | GCC | GDC | GMC | GOC | GOsC | GPhC | HCPC | NMC | PSNI | SWE |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| barnwrol ble rhoddwyd caniatâd | | | | | | | | | | |

3.19 Mae amrywiaethau yn y data perfformiad ystadegol ar gyfer y gwahanol reolyddion yn adlewyrchu maint eu cofrestrau, eu cyfyngiadau deddfwriaethol a'r gwahanol amgylcheddau maent yn gweithio ynddynt. Rydym yn cydnabod y gall rheolyddion gyda llwyth achosion llai ganfod bod eu perfformiad cyffredinol wedi ei sgiwio gan ambell i achos hir na ellir eu hosgoi neu hyd yn oed rai byr iawn.

### *Diweddaru ein hymagwedd i adolygiadau perfformiad*

3.20 Ers 2020 rydym wedi bod yn adolygu ein dull o gyflawni adolygiadau perfformiad, i sicrhau bod y rhain mor effeithiol â phosibl ac yn cynrychioli proses gymesur ar gyfer lefel y risg yr ydym yn ei goruchwylio. Un o’n pryderon oedd bod ein hadroddiadau’n aml yn cael eu cyhoeddi’n rhy hir ar ôl diwedd y cyfnod adolygu perfformiad.

3.21 Yn dilyn ymgynghoriad ar ddiwedd 2020, fe wnaethom ddatblygu cynigion ar gyfer dull gweithredu newydd ac ymgynghori ar hyn ddiwedd 2021. Cyhoeddwyd ein hadroddiad ar yr ymgynghoriad hwn ym mis Mawrth 2022. O ganlyniad i'r gwaith hwn, penderfynwyd y dylem symud i ffwrdd o broses lle rydym yn adolygu'r holl Safonau bob blwyddyn ar gyfer pob rheolydd. Yn ei le, rydym wedi cyflwyno proses lle rydym yn cynnal adolygiad ('cyfnodol') manwl bob tair blynedd ac yn monitro perfformiad rheolyddion yn y blynyddoedd eraill. Mae’r broses newydd hon yn ein galluogi i ganolbwyntio mwy ar y risgiau a nodir gennym drwy ein sylfaen dystiolaeth, gan gyfeirio ein hadnoddau i’r meysydd hyn.

3.22 Ein proses hyd yma fu dadansoddi perfformiad unwaith y bydd cyfnod adolygu wedi dod i ben, a all gynnwys gwaith pellach sylweddol. Yn ein proses newydd, byddwn yn gwneud y gwaith hwn yn ystod y cyfnod adolygu ei hun, er mwyn ein galluogi i wneud ein penderfyniadau ar ddiwedd y flwyddyn a chyhoeddi ein hadroddiad yn fuan wedyn. Dylai hyn wneud ein hadroddiadau yn fwy defnyddiol i reolyddion a rhanddeiliaid eraill.

3.23 O fewn ein proses newydd, rydym yn cynyddu lefel yr ymgysylltu sydd gennym â rheolyddion a'u rhanddeiliaid. Mae gwella ein hymgysylltiad â rheolyddion yn elfen bwysig o sicrhau bod ein dealltwriaeth barhaus o berfformiad yn gywir. Mae'r wybodaeth a gawn gan randdeiliaid yn agwedd hanfodol ar ein sylfaen dystiolaeth ac mae'n helpu i lywio ein dealltwriaeth o risgiau proffesiwn-benodol a oruchwylir gan y rheolyddion a'u persbectif ar berfformiad y rheolyddion. Drwy wella'r ddwy elfen hyn, byddwn yn gwneud ein harolygiaeth yn fwy ymatebol ac effeithiol.

3.24 Cyflwynwyd ein dull newydd ar gyfer cylch 2022. Ar y pwynt hwn, gwnaethom ddiweddaru'r cyfnodau adolygu ar gyfer y rheolyddion; mae cyfnod adolygu pob rheolydd bellach yn alinio i chwarter ariannol, gyda'r rhain wedi eu gwasgaru ar draws y flwyddyn. Darperir trefn y rheolyddion yn y cylch tair blynedd gyntaf yn y tabl isod. Disgwyliwn gyhoeddi'r adroddiadau cyntaf erbyn diwedd mis Mehefin 2022.

| Rheoleiddiwr | Blwyddyn 1: 21/22 | | Blwyddyn 2: 22/23 | | Blwyddyn 3: 23/24 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **GCC** | Monitro | Ebr 21-Meh 22 | **Adolygiad cyfnodol** | Gor 22-Meh 23 | Monitro | Gor 23-Meh 24 |
| **GDC** | **Adolygiad cyfnodol** | Gor 21-Medi 22 | Monitro | Hyd 22-Medi 23 | Monitro | Hyd 23-Medi 24 |
| **GMC** | Monitro | Med 21-Medi 22 | Monitro | Hyd 22-Medi 23 | **Adolygiad cyfnodol** | Hyd 23-Medi 24 |
| **GOC** | **Adolygiad cyfnodol** | Hyd 21-Rhag 22 | Monitro | Ion 23-Rhag 23 | Monitro | Ion 24-Rhag 24 |
| **GOsC** | Monitro | Ion 21-Maw 22 | Monitro | Ebr 22-Maw 23 | **Adolygiad cyfnodol** | Ebr 23-Maw 24 |
| **GPhC** | Monitro | Maw 21-Meh 22 | **Adolygiad cyfnodol** | Gor 22-Meh 23 | Monitro | Gor 23-Meh 24 |
| **HCPC** | Monitro | Ion 21-Maw 22 | **Adolygiad cyfnodol** | Ebr 22-Maw 23 | Monitro | Ebr 23-Maw 24 |
| **NMC** | Monitro | Ebr 21-Meh 22 | Monitro | Gor 22-Meh 23 | **Adolygiad cyfnodol** | Gor 23-Meh 24 |
| **PSNI** | Monitro | Tach 21-Rhag 22 | Monitro | Ion 23-Rhag 23 | **Adolygiad cyfnodol** | Ion 24-Rhag 24 |
| **SWE** | Monitro | Rhag 21-Rhag 22 | **Adolygiad cyfnodol** | Ion 23-Rhag 23 | Monitro | Ion 24-Rhag 24 |

### *Covid-19*

3.25 Parhaodd pandemig Covid-19 i roi pwysau sylweddol ar y rheolyddion yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Rydym wedi cydnabod ac wedi ystyried sut yr effeithiodd y pandemig ar berfformiad y rheolyddion a’u gallu i symud rhai darnau o waith yn eu blaen. Disgwyliwn barhau i weld rhai effeithiau parhaus y pandemig ar berfformiad rheolyddion, er enghraifft yn yr amser y mae'n ei gymryd i gwblhau prosesau addasrwydd i ymarfer wrth i'r achosion hyn weithio eu ffordd drwy'r system.

### *Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant*

3.26 Yn 2020, yng ngoleuni llofruddiaeth George Floyd, adolygodd yr Awdurdod ei ymagwedd at gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI). Comisiynodd archwiliad allanol a awgrymodd rai meysydd allweddol y gallai'r Awdurdod ddatblygu ei waith ynddynt. Derbyniwyd yr archwiliad hwnnw ym mis Ebrill 2021 ac

ers hynny mae'r Awdurdod wedi penodi cynghorydd EDI i'n helpu i ddatblygu cynllun gweithredu i ddwyn ymlaen y newidiadau yr ydym am eu gwneud. Cyhoeddwyd y cynllun gweithredu ym mis Ebrill 2022 a bydd yn canolbwyntio ar y canlynol:

1. Gwella gwybodaeth a hyder yr Awdurdod mewn perthynas ag amrywiaeth
2. Adolygu a gwella gweithdrefnau mewnol yr Awdurdod i'n cynorthwyo i wella, hyrwyddo a chroesawu amrywiaeth
3. Ein gwaith craffu ar y rheolyddion fel y gallwn ystyried eu perfformiad eu hunain nid yn unig o ran eu prosesau eu hunain ond i ba raddau y mae eu hyfforddiant a'u safonau yn hyrwyddo buddiannau cleifion a defnyddwyr gwasanaeth o gefndiroedd amrywiol.

### *Craffu ar brosesau penodiadau cynghorau'r rheolyddion*

3.27 Ac eithrio'r PSNI a SWE, gwneir penodiadau i gynghorau'r rheolyddion gan y Cyfrin Gyngor ar argymhelliad y rheoleiddiwr dan sylw. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gynghori'r Cyfrin Gyngor ynghylch a all fod yn hyderus yn y broses a gynhelir gan y rheoleiddiwr.

3.28 Rydym yn craffu ar y prosesau a ddilynir gan y rheolyddion i argymell ymgeiswyr i'w penodi er mwyn darparu'r cyngor hwnnw. Rydym hefyd yn darparu cyngor, os bydd y Cyfrin Gyngor yn gofyn amdano, mewn perthynas ag unrhyw agwedd arall ar swyddogaeth benodi'r Cyfrin Gyngor ac yn gweithio'n agos gyda rheolyddion, gan hyrwyddo arfer gorau a chynnig cyngor ar sut i fodloni ein safonau gofynnol.

3.29 Yn 2021/22, rhoesom gyngor i'r Cyfrin Gyngor mewn perthynas â 15 o brosesau sy'n cael eu rhedeg gan saith o'r wyth rheoleiddiwr yr ydym yn ystyried eu penodiadau. Roedd naw o'r prosesau hyn yn ymwneud â phenodiadau trwy gystadleuaeth agored, gan gwmpasu 12 o swyddi gwag, gan gynnwys pedwar argymhelliad gan reolyddion ar gyfer cadeiryddion cynghorau newydd. Roedd y chwe phroses arall yn ymwneud ag ailbenodi, gyda 14 o aelodau cyngor yn cael eu hystyried i'w hailbenodi. Gwnaethom hysbysu'r Cyfrin Gyngor y gallai fod yn hyderus ym mhob un o'r prosesau y buom yn craffu arnynt.

3.30 Ym mis Ionawr, cynhaliom ein seminar penodiadau ac roeddem yn falch o gael presenoldeb rhagorol gan bob un o'r rheolyddion. Roedd y seminar hefyd wedi elwa o bresenoldeb y Cyfrin Gyngor, a fanteisiodd ar y cyfle i roi adborth i'r rheolyddion. Bu'r Cyfrin Gyngor hefyd yn trafod effaith bosibl diwygio rheoleiddiol ar benodiadau wrth symud i fyrddau unedol.

3.31 Fe wnaethom hefyd ddefnyddio rhan fawr o'r seminar i ganolbwyntio ar heriau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant o fewn y broses benodi. Roeddem yn falch o'r drafodaeth hon a'r agwedd gadarnhaol y mae'r rheolyddion yn ei mabwysiadu tuag at y mater hwn. Er bod mwy i'w wneud o fewn y broses benodi, rydym wedi'n plesio'n gyffredinol gan yr ymagwedd at amrywiaeth a ddangoswyd gan y rheolyddion.

### Pryderon

3.32 Cysylltir â ni bron pob dydd gan unigolion a gweithwyr iechyd a gofal sydd eisiau rhannu eu profiad o'r rheolyddion gyda ni. Yn ogystal, derbyniwn nifer o geisiadau am wybodaeth neu gyngor ynghylch gwasanaethau iechyd a gofal.

3.33 Yn aml, mae'r rhai sy'n cysylltu â ni yn ceisio cymorth gyda'u pryderon neu'n dymuno gwneud cwyn. Er na allwn ymchwilio i gwynion am y rheolyddion, rydym yn gwneud ein gorau i ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol ac weithiau byddwn yn cysylltu â rheoleiddiwr ynghylch pryder a dderbyniwn. Mae hyn fel arfer er mwyn gofyn i'r rheoleiddiwr ddarparu rhagor o wybodaeth i'r unigolyn am ei benderfyniadau neu oedi. Cysylltwyd â rheolyddion am bryder ar 12 achlysur yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

3.34 Yn ystod 2021/22 derbyniasom 370 o bryderon ysgrifenedig, gostyngiad mawr ar y ffigwr o 551 a adroddwyd yn 2020/21. Gall hyn gael ei esbonio'n rhannol gan y ffaith bod y swyddfa wedi cau yn ystod blwyddyn flaenorol y pandemig, a oedd yn golygu bod mwy o unigolion wedi ysgrifennu atom nag a alwyd. Gwnaethom hefyd dynhau ein hadroddiadau i roi gwybod am y pryderon hynny am reolyddion yn unig, yn hytrach na'r holl ymholiadau iechyd a gofal ehangach yr ydym yn eu hailgyfeirio. Gan ystyried y gwahaniaethau hyn, rydym yn parhau i dderbyn niferoedd tebyg o bryderon am y rheolyddion i flynyddoedd blaenorol.

3.35 Cawsom y nifer fwyaf o bryderon (69) am achosion addasrwydd i ymarfer parhaus y rheolyddion. Roedd llawer o'r rhain yn ymwneud ag oedi gan reolyddion cyn cwblhau eu hymchwiliadau. Derbyniom 44 o bryderon pellach ynghylch penderfyniadau a wnaed gan reolyddion yng nghamau cynnar eu proses, gan wrthod mynd ag achos ymlaen ar gyfer ymchwiliad pellach neu wrandawiad. Cysylltodd 19 o unigolion â ni hefyd a oedd yn anhapus â chanlyniad terfynol gwrandawiad addasrwydd i ymarfer. Cafodd y pryderon hyn eu hystyried yn ofalus gan y tîm Adran 29 wrth ystyried digonolrwydd y penderfyniadau terfynol a wnaed gan baneli'r rheolyddion. P'un a wnaethom benderfynu cyfeirio'r penderfyniad i'r llys ai peidio, fe wnaethom egluro ein rhesymeg yn llawn i'r rhai a gysylltodd â ni.

3.36 Roedd y categori mwyaf nesaf o bryderon a gawsom yn ymwneud â phrosesau cofrestru'r rheolyddion (36), yn bennaf gan ymgeiswyr a oedd yn profi oedi.

3.37 Mae'r adborth a gawn o bryderon yn rhan bwysig o'r wybodaeth a gasglwn am berfformiad y rheolyddion ac mae'n ein helpu i dargedu ein hadolygiadau perfformiad at faterion sy'n peri pryder.

### Polisi ac ymchwil

3.39 Rydym yn gwneud amrywiaeth o waith i helpu sicrhau bod rheoleiddio yn diogelu'r cyhoedd yn effeithlon. Mae hyn yn cynnwys cyflawni ymchwil a chyhoeddi cyngor polisi ac edrych i'r dyfodol, i ragweld newid a sicrhau fod rheoleiddio yn parhau i fod yn ystwyth. Ein hamcan yw sicrhau fod rheoleiddio a chofrestru yn seiliedig ar dystiolaeth o beth sy'n gweithio fel bod y rheolyddion a chofrestrau achrededig yn effeithiol o ran diogelu'r cyhoedd.

3.40 Ym mis Ebrill 2021, fe gyhoeddom ein hadolygiad o wersi a ddysgwyd Covid-19 a ddefnyddiodd astudiaethau achos i edrych ar sut yr ymatebodd y 10 rheoleiddiwr iechyd a gofal cymdeithasol yn y DU i'r argyfwng cychwynnol a achoswyd gan y pandemig. Ym mis Mehefin, cyhoeddwyd ymchwil yr oeddem wedi'i gomisiynu gan yr Athro Deborah Bowman: *Ethics in extraordinary times - practitioner experiences during the pandemic*, sy'n dadansoddi'r sefyllfaoedd a wynebir gan ymarferwyr a'r penderfyniadau anodd y bu'n rhaid iddynt eu gwneud. Yn ystod y pandemig fe wnaethom sefydlu fforwm cudd-wybodaeth traws-gyfarwyddiaeth i ystyried materion yn codi a sut roedd y rheolyddion yn ymateb i'r sefyllfa esblygol. Rydym wedi parhau â'r fforwm hwn i fonitro'r 'normal newydd'. Mae'r amgylchedd

allanol yn parhau i fod yn gyfnewidiol, gyda materion fel iechyd meddwl gweithwyr proffesiynol, a chydraddoldeb ac amrywiaeth yn cyflwyno heriau cynyddol. Rydym wedi nodi, cofnodi a lle y bo'n briodol gweithredu ar risgiau a chyfleoedd sy'n deillio o weithgarwch y rheolyddion ac o effaith y pandemig ar y sector iechyd a gofal cymdeithasol.

3.41 Fe wnaethom hefyd gyhoeddi ymchwil defnyddwyr ar safbwyntiau'r cyhoedd, cleifion a gweithwyr proffesiynol ar bwysigrwydd cysondeb mewn rheoleiddio; ac ymchwil ar ragfarnau gwybyddol wrth wneud penderfyniadau addasrwydd i ymarfer. Ni wnaethom gomisiynu ymchwil newydd eleni, gan ganolbwyntio yn lle hynny ar ddiwygio rheoleiddiol a chyhoeddiad am reoleiddio proffesiynol a ddisgwylir yn hwyrach yn 2022.

3.42 Cododd nifer o faterion yn yr amgylchedd polisi allanol sydd angen sylw polisi, gan gynnwys ymateb y llywodraeth i Ymchwiliad Paterson, ac Ymchwiliad Ockenden. Rydym wedi ymateb i nifer o ymgynghoriadau sylweddol eleni. Rhoesom ein cefnogaeth i gyflwyno Comisiynwyr Diogelwch Cleifion yn Lloegr a’r Alban; ac i gyflwyno dyletswydd gonestrwydd statudol ar sefydliadau yng Ngogledd Iwerddon. Mynegwyd ein gwrthwynebiad i'r defnydd o therapi trosi ac mae gennym gofrestrau hirfaith yr ydym yn eu hachredu i wahardd ei ymarfer. Roeddem yn cefnogi cyflwyno trwyddedu ar gyfer ymarfer cosmetig (yr Alban a Lloegr) fel atodiad angenrheidiol i reolaethau cofrestrau rheoleiddiol ac achrededig. Gwnaethom ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar ymgyfreitha, gan ailadrodd ein cefnogaeth i ddiwylliannau dysgu, ond gan rybuddio yn erbyn 'mannau diogel' a allai danseilio atebolrwydd proffesiynol. Gwnaethom sylwadau ar gynnig yr Alban i gyflwyno Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol, gan gefnogi eu cynnig i gyflwyno cofrestr anstatudol, sy'n cyd-fynd â'n hegwyddorion *Rheoleiddio cyffyrddiad cywir*. Fe wnaethom hefyd ymateb i sawl ymgynghoriad gan y rheolyddion a oruchwyliwn, er enghraifft ar y defnydd o wrandawiadau o bell, yr ydym yn eu cefnogi ar yr amod bod rheolyddion yn cymryd camau i sicrhau mynediad cyfartal.

3.43 Mae ymgynghoriadau’r llywodraeth ar ddiwygio, *Rheoleiddio gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, diogelu’r cyhoedd,* ymgynghoriad BEIS ar egwyddorion rheoleiddio gwell, a’r Papur Gwyn *Cydweithio i wella iechyd a gofal cymdeithasol i bawb* gyda chynigion ar gyfer Bil Iechyd a Gofal wedi bod yn ffocws sylweddol i'r Awdurdod yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

3.44 Rydym wedi parhau i gynnal digwyddiadau i hyrwyddo dysgu a gwelliant. Roedd ein symposiwm blynyddol yn cynnwys ffocws eleni ar bontio’r bylchau yn y system diogelwch cleifion gan gynnwys mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Thema ein seminar ar y cyd â Llywodraeth Cymru oedd sicrhau hyblygrwydd a gwytnwch mewn system reoleiddio dan bwysau. Rydym hefyd yn cynnal fforwm polisi rheolyddion i rannu syniadau a dysg rhwng cydweithwyr polisi yn ein sector; ac yn yr un modd mynychu fforwm ymchwil y rheolyddion. Rydym wedi parhau i wella ein hymgysylltiad â rhanddeiliaid, ac wedi cynnal arolwg rhanddeiliaid ym mis Mawrth 2022.

### Diwygio deddfwriaethol

3.45 Cyhoeddodd y Llywodraeth ei ymgynghoriad ar ddiwygio deddfwriaeth i'r holl reolyddion gofal iechyd mae’r Awdurdod yn eu goruchwylio ar ddiwedd Mawrth 2021. Roedd hyn yn dilyn yr ymateb i'r ymgynghoriad pedair gwlad *Promoting*

*professionalism, reforming regulation,* a gyhoeddwyd gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Ngorffennaf 2019.

3.46 Mae'r Awdurdod wedi bod yn galw ers cryn amser am newidiadau i'r fframwaith cyfreithiol tameidiog a darfodedig ar gyfer rheoleiddio proffesiynol, ac rydym yn dal i fod o'r farn fod angen diwygio'r sector i gefnogi cyflawniad gwasanaethau iechyd a gofal yn y dyfodol mewn modd hyblyg ac arloesol. Daeth hyn yn fwy i'r amlwg gyda'r camau argyfwng y bu'n rhaid i nifer o'r rheolyddion gymryd o ganlyniad i heriau gweithlu oherwydd Covid-19. Roedd hyn yn amlygu'r angen i sicrhau cydbwysedd rhwng ystwythder rheoleiddiol a diogelu'r cyhoedd.

3.47 Mae cynigion y Llywodraeth yn garreg filltir arwyddocaol ar gyfer diwygio ac yn atseinio nifer o'r newidiadau a gynigiwyd gan yr Awdurdod yn gyffredinol, er bod rhai cynigion wedi rhoi achos i ni ofidio. Mae'r Awdurdod wedi rhybuddio bod yn rhaid cydbwyso'r hyblygrwydd atodol arfaethedig ar gyfer rheolyddion gyda throsolwg effeithiol i sicrhau y diogelir cleifion a'r cyhoedd yn gyffredinol, ac y gall y cyhoedd barhau i deimlo'n hyderus ynghylch rheoleiddio.

3.48 Gweithiodd yr Awdurdod gyda chydweithwyr yn yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y gweinyddiaethau datganoledig a'r rheolyddion ar bob agwedd o'r cynigion, yn cwmpasu llywodraethu, cofrestru ac addysg a hyfforddiant, yn ogystal ag addasrwydd i ymarfer. Ein prif nod fu i sicrhau bod y diwygiadau yn parhau i ffocysu ar ddiogelu'r cyhoedd. Mae manylion ein safbwyntiau ar draws ehangder y diwygiadau wedi'u nodi yn ein hymateb i'r ymgynghoriad ar *Reoleiddio gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, diwygio rheoleiddio* a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2021; ac yn *Ail-lunio rheoleiddio*, ein hymateb i gynigion ar gyfer diwygio rheoleiddio yn y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

### Cofrestrau Achrededig

3.49 Mae rhaglen Cofrestrau Achrededig yr Awdurdod yn cwmpasu oddeutu 100,000 o ymarferwyr o amrediad o broffesiynau gwahanol mewn iechyd a gofal cymdeithasol.

3.50 Mae cael eich achredu yn golygu bod sefydliad wedi ein bodloni ei fod yn ateb ein holl Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig. Unwaith y bydd wedi'i hachredu, mae gan y gofrestr a'i chofrestryddion yr hawl i ddefnyddio Marc Ansawdd achredu'r Awdurdod (a ddangosir isod). Mae hyn yn galluogi'r cyhoedd, cyflogwyr a chomisiynwyr i ddewis ymarferwr sy'n hyderus yn eu hymrwymiad i safonau uchel.

3.51 Mae'n ofynnol i bob Cofrestr yr ydym wedi'i hachredu wella ei harfer mewn un maes neu fwy er mwyn bodloni'r Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig cyn ennill achrediad. Gall ein Panelau Achredu gyhoeddi amodau (newidiadau y mae'n rhaid eu gwneud o fewn amserlen benodol i gynnal achrediad) ac Argymhellion (camau a fyddai'n hyrwyddo arfer gorau ond nad oes angen eu cwblhau i gynnal achrediad) yn ystod achrediad cychwynnol ac mewn asesiadau adnewyddu llawn i wella arfer yn erbyn y Safonau. Rhaid bodloni amodau i gynnal achrediad.

3.52 Ar 31 Mawrth 2022, mae 23 o Gofrestrau Achrededig, sy'n cwmpasu dros 60 o rolau a thua 100,000 o ymarferwyr.

## Newidiadau yn 2021 yn dilyn adolygiad strategol

3.53 Ym mis Mehefin 2020, lansiwyd adolygiad strategol o'r rhaglen Cofrestrau Achrededig gennym. Y nod oedd nodi ffyrdd o wneud y rhaglen yn fwy effeithiol, pennu pa alwedigaethau y dylid eu cynnwys o fewn ei chwmpas, a sicrhau cynaliadwyedd ariannol. Roedd hyn yn cynnwys ymgynghoriad cyhoeddus, y gwnaethom gyhoeddi adroddiad arno ym mis Ebrill 2021.

3.54 Ym mis Gorffennaf 2021, gwnaethom newidiadau i'r rhaglen o ganlyniad i'r adolygiad strategol. Cyflwynwyd 'prawf budd y cyhoedd' newydd o fewn ein Safonau (Safon 1b), sy'n ystyried a yw buddion gweithgareddau ymarferwyr ar Gofrestr yn gorbwyso unrhyw risgiau. Cyflwynwyd model ffioedd diwygiedig gennym hefyd, a chylch asesu seiliedig ar risg.

3.55 Cyhoeddasom ganllawiau atodol ar brawf lles y cyhoedd. Cafodd y set lawn o Safonau eu rhesymoli o 11 i wyth. Mae fframwaith tystiolaeth newydd sy'n nodi'r gofynion sylfaenol ar gyfer pob Safon, i gefnogi mwy o gysondeb wrth wneud penderfyniadau.

3.56 Mae'r model ffioedd bellach yn seiliedig ar isafswm ffi sylfaenol o £10,500 a ffi amrywiol fesul cofrestrydd gydag uchafswm cap ar gyfer Cofrestrau o £60,000. Cyflwynwyd y model hwn yn ystod y flwyddyn ariannol, ym mis Gorffennaf 2021. Talwyd ffioedd ar gyfer Ebrill i Fehefin 2021 ar y model ffioedd blaenorol, a gyfrifwyd gan ffi sefydlog o £10,414 ynghyd â thâl amrywiadwy o £0.10 fesul cofrestrai.

3.57 Erys y ffioedd ar gyfer ceisiadau newydd yn £13,798 er y gallai hyn gael ei adolygu yn y dyfodol. Gall cofrestrau hefyd wneud cais am benderfyniad cychwynnol, dros dro yn erbyn 'prawf budd y cyhoedd' cyn cyflwyno cais llawn. Y ffi am hyn yw £1,300 sy'n ad-daladwy yn erbyn cost lawn y cais.

3.58 Er mwyn sicrhau bod y rhaglen yn parhau i fod yn gost-effeithiol a bod asesiadau yn gymesur â risg, bydd asesiadau llawn yn erbyn ein Safonau bellach yn cael eu cynnal unwaith bob tair blynedd, yn hytrach na bob blwyddyn. Bydd pob Cofrestr Achrededig yn cael ei gwirio bob blwyddyn yn y cyfamser. Os byddwn yn nodi unrhyw bryderon neu newidiadau a allai effeithio ar p’un a yw’r Safonau’n parhau i gael eu bodloni, yna efallai y byddwn yn cychwyn Adolygiad Targedig mwy manwl ar unrhyw adeg.

## Penderfyniadau achredu yn 2021/22

### *Ceisiadau newydd*

3.59 Yn 2021/22, gwnaethom barhau i asesu ceisiadau a dderbyniwyd yn y flwyddyn ariannol flaenorol gan Gymdeithas y DU ar gyfer Dadansoddi Ymddygiad (UK-SBA), Cymdeithas Seicotherapi Ymddygiad Gwybyddol Prydain (BABCP) a'r

Gymdeithas ar gyfer Therapi Ymddygiad Rhesymoli Emosiwn (AREBT), Cofrestr Gweithlu Seicolegol Ehangach Cymdeithas Seicolegol Prydain (BPS), Sefydliad y Tricolegwyr (IoT) a Chyngor Cenedlaethol y Seicotherapyddion (NCP). Ym mis Mawrth 2022, mae'r holl asesiadau hyn yn y camau terfynol a disgwyliwn wneud penderfyniadau terfynol ar bob un o'r ceisiadau hyn yn ystod 2022/23.

3.60 Cawsom gais newydd gan y Rhwydwaith o Weithwyr Adsefydlu Proffesiynol (RWPN) ym mis Mai 2021. Mae'r RWPN yn cofrestru Gweithwyr Adsefydlu Golwg ac Arbenigwyr Cymhwyso Golwg, sy'n gweithio gyda phobl sydd wedi colli eu golwg. Fe wnaethom gyhoeddi achrediad yr RWPN ar 31 Mawrth 2022.

3.61 Mae'r holl geisiadau a oedd eisoes wedi dod i law pan gyflwynwyd ein prosesau newydd ym mis Gorffennaf 2021 wedi'u hasesu yn erbyn y Safon Un newydd (gan gynnwys prawf budd y cyhoedd), a Dau wedi'u hasesu yn ôl Un ar ddeg o'r hen Safonau. Mae pob cais a dderbynnir ar ôl Gorffennaf 2021 yn cael ei asesu yn erbyn fersiwn lawn ein Safonau newydd.

3.62 Fe wnaethom hefyd gwblhau asesiad safonol rhagarweiniol ar gyfer Athena Herd CIC, sy'n cofrestru Gweithwyr a Hwylusir gan Geffylau.[13] Gwelsom fod Safon Un wedi'i bodloni yn amodol.

3.63 Ar 31 Mawrth 2022, cawsom gais newydd gan Gymdeithas Hylendid Galwedigaethol Prydain, y mae ei chofrestryddion yn helpu i adnabod, rheoli a rheoli risgiau iechyd yn y gweithle.

*Asesiadau adnewyddu Ebrill-Mehefin 2021*

3.64 Fe wnaethom barhau ag asesiadau achredu ar ein cylch blynyddol blaenorol nes i'r system newydd gael ei disodli ym mis Gorffennaf 2021. Rhwng Ebrill a Mehefin 2021, fe wnaethom asesu ac adnewyddu achrediad ar gyfer chwe Chofrestr Achrededig, a chafodd dwy arall eu hadnewyddu yn dilyn adolygiadau wedi'u targedu ym mis Medi a mis Hydref 2021.

*Asesiadau adnewyddu Gorffennaf 2021-Mawrth 2022*

3.65 Fe gynhaliom 11 o wiriadau blynyddol rhwng Gorffennaf 2021 a Mawrth 2022. Arweiniodd un o'r rhain, ar gyfer Cyngor Seicotherapyddion y DU (UKCP), at adolygiad targedig o brosesau cwynion ac erbyn mis Mawrth 2022, mae'n dal i fynd rhagddo. Cwblhawyd 96% o wiriadau blynyddol o fewn blwyddyn i gyhoeddi'r adroddiad blaenorol, sy'n rhagori ar ein targed o 90%.

3.66 Cwblhawyd un asesiad adnewyddu llawn yn ystod y cyfnod hwn, ar gyfer Cyngor Seicdreiddio Prydain. Arweiniodd hyn at gyhoeddi tri Amod. Fe wnaethom hefyd gychwyn asesiadau adnewyddu llawn ar gyfer Cyngor Aciwbigo Prydain a'r Cyd-gyngor Ymarferwyr Cosmetig.

3.67 Ym mis Hydref 2021 fe wnaethom ystyried apêl gan y Gymdeithas Cwnsela Genedlaethol (NCS) a'r Gymdeithas Hypnotherapi Genedlaethol (HS) yn erbyn tri Amod Achredu a roddwyd i'r HS. Cyfarfu'r Panel Apeliadau a chadarnhaodd y ddau Amod cyntaf a chyhoeddwyd y trydydd fel Argymhelliad. Yn dilyn ein penderfyniad, derbyniasom dystiolaeth gan yr HS yn ymwneud â'r Amodau. Gwelsom fod yr Amodau wedi'u bodloni.

[13] Hwyluso gan geffylau yw'r term a ddefnyddir ar gyfer rolau sy'n cynnwys gweithio gyda cheffylau i ddatblygu hunanymwybyddiaeth unigolyn. Bydd ymarferwyr ar y gofrestr hon yn gweithio gydag oedolion a phlant a gallant gyfuno hwyluso ceffylau â dulliau therapiwtig eraill.

3.68 Ym mis Mawrth 2022, fe wnaethom gymeradwyo cais Hysbysiad o Newid gan y Gymdeithas Cwnsela Genedlaethol/Y Gymdeithas Hypnotherapi Genedlaethol i ymestyn ei hachrediad i ddwy gofrestr newydd, ar gyfer Therapyddion Plant a Phobl Ifanc (CYPTs) a Therapyddion drwy Brofiad sy'n Canolbwyntio ar Unigolion (PCETs). Gwnaethom gymeradwyo'r newid a chyhoeddi Argymhellion.

3.69 Penderfynodd Ffederasiwn y Therapyddion Holistaidd beidio â symud at y model a'r dull ffioedd newydd pan gafodd ei gyflwyno ym mis Gorffennaf 2021. Tynnwyd ei achrediad yn ôl ar ddiwedd ei gylchred achredu 2021/22, ar 9 Ionawr 2022. Ni thynnodd unrhyw Gofrestrau pellach yn ôl o'r rhaglen yn 2021/22. Fodd bynnag, unodd y Cyngor Cofrestru Ffisiolegwyr Clinigol â'r Academi Gwyddor Gofal Iechyd ar 1 Mehefin 2021.

3.70 Mae'r tabl isod yn dangos y rhestr lawn o gofrestrau achrededig, a'r nifer o amodau ac argymhellion oedd yn weithredol ar 31 Mawrth 2022.

| Cofrestr Achrededig | Asesiad diwethaf | Math o asesiad[14] | Amodau[15] | Argymhellion[16] |
|---|---|---|---|---|
| Academi Gwyddor Gofal Iechyd | 31 Mawrth 2021 | Gwiriad blynyddol | Dim Amodau | Dau Argymhelliad |
| Cynghrair Ymarferwyr y Sector Preifat | 8 Tachwedd 2021 | Gwiriad blynyddol | Dim Amodau | Un Argymhelliad |
| Cymdeithas Seicotherapyddion Plant | 7 Gorffennaf 2021 | Asesiad llawn | Dim Amodau | Dau Argymhelliad |
| Cymdeithas Cynghorwyr Cristnogol | 7 Mehefin 2021 | Asesiad llawn | Dim Amodau | Un Argymhelliad |
| Cyngor Aciwbigo Prydain | 8 Ebrill 2021 | Asesiad llawn | Pedwar Amod | Un Argymhelliad |
| Cymdeithas Cynghori a Seicotherapi Prydain | 2 Awst 2021 | Asesiad llawn | Dim Amodau | Tri Argymhelliad |
| Cymdeithas Therapyddion Chwarae Prydain | 17 Mawrth 2022 | Gwiriad blynyddol | Dim Amodau | Dim Argymhellion |
| Cymdeithas Adferwyr a Hyfforddwyr | 14 Rhagfyr 2021 | Gwiriad blynyddol | Dim Amodau | Dim Argymhellion |

[14] Mae 'Asesiad llawn' cyn Gorffennaf 2021 yn cyfeirio at adnewyddiad blynyddol yn erbyn y Safonau blaenorol. I'r rhai a gwblhaodd fis Gorffennaf 2021 ymlaen, dyma'r asesiad adnewyddu llawn sydd fel arfer yn cael ei gynnal unwaith bob tair blynedd. Mae gwiriadau blynyddol yn berthnasol o fis Gorffennaf 2021 ymlaen ac yn y blynyddoedd yn y cyfamser pan nad oes disgwyl asesiad adnewyddu llawn.
[15] Mae amodau yn newidiadau sy'n rhaid eu gwneud o fewn cyfnod amser penodedig i gynnal achrediad.
[16] Mae argymhellion yn weithredoedd a fyddai'n hyrwyddo arfer da ond nad oes rhaid eu cwblhau i gynnal achrediad

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Chwaraeon Prydain | | | | |
| Cyngor Seicdreiddiol Prydain | 6 Ebrill 2022 | Asesiad llawn | Tri Amod | Chwe Argymhelliad |
| Cyngor Gofal Iechyd Cyflenwol a Naturiol | 5 Ionawr 2022 | Gwiriad Blynyddol | Dim Amodau | Dim Argymhellion |
| Counselling & Psychotherapy in Scotland (COSCA) | 11 Mehefin 2021 | Asesiad llawn | Dim Amodau | Un Argymhelliad |
| Human Givens Institute | 1 Gorffennaf 2021 | Asesiad llawn | Un Amod | Un Argymhelliad |
| Ffederasiwn Rhyngwladol Aromatherapyddion | 27 Mai 2021 | Asesiad llawn | Dim Amodau | Tri Argymhelliad |
| Cyd-Gyngor Ymarferwyr Cosmetig | 12 Mai 2021 | Asesiad llawn | Dau Amod | Tri Argymhelliad |
| Cymdeithas Cynghori Genedlaethol/Cymdeithas Hypnotherapi Cenedlaethol | 2 Tachwedd 2021 | Asesiad llawn | Dau Amod | Un Argymhelliad |
| Play Therapy UK | 8 Medi 2021 | Asesiad llawn | Tri Amod | Un Argymhelliad |
| Cofrestr y Technolegwyr Clinigol | 11 Chwefror 2022 | Gwiriad Blynyddol | Dim Amodau | Un Argymhelliad |
| Rhwydwaith Gweithwyr Adsefydlu Proffesiynol | 31 Mawrth 2022 | Cais newydd | 12 Amod | 24[17] Argymhelliad |
| Save Face | 9 Mawrth 2022 | Gwiriad Blynyddol | Dim Amodau | Dim Argymhellion |
| Cymdeithas y Deyrnas Unedig | 12 Hydref 2021 | | Dim Amodau | Dim Argymhellion |

[17] Nid yw'n anarferol i gofrestrau newydd fod â niferoedd uchel o amodau pan fyddant wedi'u hachredu o'r newydd, er bod gan yr RWPN nifer eithaf uchel. Ni farnodd y Panel fod yr un ohonynt yn effeithio ar ddiogelu neu hyder y cyhoedd ac felly rhoddwyd achrediad. Mae gan rai o'r amodau gyfnod amser byr, ac rydym yn adolygu'r cyntaf o'r rhain ym mis Ebrill.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ar gyfer Ymarferwyr Seicoleg Ddyneiddiol | | Gwiriad Blynyddol | | |
| Bwrdd Caplaniaid gofal Iechyd y Deyrnas Unedig | 30 Tachwedd 2021 | Gwiriad Blynyddol | Dim Amodau | Un Argymhelliad |
| Cofrestr Iechyd Cyhoeddus y Deyrnas Unedig | 29 Mawrth 2022 | Gwiriad Blynyddol | Dim Amodau | Dim Argymhellion |
| Cyngor Seicotherapi'r Deyrnas Unedig | 12 Chwe 2021[18] | Asesiad llawn | Dim Amodau | Dau Argymhelliad |

### *Dangosyddion Perfformiad Allweddol*

Mae perfformiad ar gyfer prosesau sydd ar waith hyd at fis Mehefin 2021 wedi'i nodi yn y tabl isod.

| | | |
|---|---|---|
| Cofrestrau Achrededig – proses flaenorol (a ddaeth i ben yn raddol ym mis Gorffennaf 2021, gyda'r asesiadau olaf wedi eu cyflawni ym mis Awst 2021) | 90% o gofrestrau achrededig yn ymgeisio i barhau achrediad.<br>Mae ceisiadau newydd yn dod gerbron y Panel o fewn 15 niwrnod gwaith i dderbyn yr holl wybodaeth / dogfennaeth ofynnol.<br>Mae ceisiadau adnewyddu yn cael eu hystyried gan Gymedrolwr erbyn y dyddiad adnewyddu achrediad<br>Ble mae angen adolygiad targedig, mae hyn yn dod gerbron y Panel o fewn 5 niwrnod gwaith i dderbyn yr holl wybodaeth / dogfennaeth ofynnol<br>Cyhoeddi hysbysiadau yn cynghori am yr angen i ymgeisio am adnewyddiad 12 wythnos cyn i'r achrediad ddarfod. | 100% (8/8)<br>Amh<br>100% (8/8)<br>60% (3/5)[19]<br>100% |

Mae perfformiad ar gyfer y dull asesu newydd sydd ar waith o fis Gorffennaf 2021 ymlaen, hyd at ddiwedd mis Mawrth 2022 wedi'i nodi yn y tabl isod.

| | | |
|---|---|---|
| Cofrestrau Achrededig – prosesau | 90% o Gofrestrau'n cael asesiad llawn o fewn tair blynedd i'r asesiad blaenorol. | 100% (23/23) |

[18] Ar ddiwedd mis Mawrth 2022, adolygiad wedi'i dargedu fel rhan o wiriad blynyddol UKCP ar gyfer 2022 oedd ar y gweill.
[19] Eglurwyd yn yr adran Cofrestrau Achrededig.

| | | |
|---|---|---|
| cyfredol (cyflwynwyd Gorffennaf 2021) | 90% o benderfyniadau am y gwiriad blynyddol o fewn blwyddyn i'r asesiad blaenorol. | 96% (22/23) |
| | 90% o asesiadau llawn wedi eu cynnal o fewn blwyddyn i gyhoeddi Amod. | 100% (23/23) |
| | 95% o adolygiadau targedig yn cael eu cwblhau o fewn tri mis i'r dyddiad cychwyn | Amh |
| | 90% o benderfyniadau wedi eu gwneud ar geisiadau newydd ar gyfer achrediad o fewn dau fis i dderbyn yr holl wybodaeth. | 100% (1/1) |

### *Gwiriadau diogelu a chofnodion troseddol*

3.71 Hyd yn hyn, mae Cofrestrau Achrededig wedi profi heriau o ran cael mynediad at wiriadau cofnodion troseddol ar gyfer eu cofrestryddion. Mae hyn wedi golygu bwlch yn y gwiriadau ar gyfer unigolion cofrestredig sy'n hunangyflogedig ac nad yw'r gwiriadau hyn yn cael eu cyflawni gan gyflogwyr. Mae gwiriadau cefndir cofnodion troseddol yn rhan bwysig o fesurau diogelu i amddiffyn cleifion a'r cyhoedd. Cânt eu cynnal gan wahanol asiantaethau, yn dibynnu ar ble yn y DU y mae'r gwaith yn cael ei wneud. Cyflogwyr yw'r prif lwybr ar gyfer cynnal y gwiriadau. Er nad yw'r rheolyddion a Chofrestrau Achrededig yn gyflogwyr, mae rhai yn cynnal gwiriadau cofnodion troseddol ar gyfer unigolion cofrestredig hunangyflogedig.

3.72 Ar 9 Mawrth 2022, lansiwyd cynllun peilot gennym gyda’r nod o fynd i’r afael â’r bwlch presennol o ran gwiriadau ymarferwyr hunangyflogedig ar Gofrestrau Achrededig. Mae sampl fach, a ddewiswyd ar hap, o ymarferwyr hunangyflogedig ar y gofrestr ACP yn cymryd rhan. Bydd y canlyniadau, a ddisgwylir ym mis Mai 2022, yn cael eu defnyddio i lywio ein dealltwriaeth o gymhwysedd a goblygiadau ymarferol gwneud y gwiriadau hyn ar Gofrestrau Achrededig eraill.

3.73 Ochr yn ochr â’n cynllun peilot, mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi ei Hadolygiad Annibynnol o’r Gyfundrefn Datgelu a Gwahardd a fydd yn ceisio rhoi sicrwydd i Weinidogion ynghylch ei heffeithiolrwydd o ran diogelu plant ac oedolion agored i niwed. Bydd yn adolygu'r diffiniad o 'weithgarwch a reoleiddir', a ddefnyddir i benderfynu pwy sy'n gymwys ar gyfer gwiriad lefel uwch gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, a bylchau cymhwyster ar gyfer gwiriadau datgelu ar gyfer pobl hunangyflogedig. Byddwn yn defnyddio canfyddiadau ein peilot ac adolygiad y Llywodraeth, i benderfynu a fyddai cyflwyno gwiriadau ehangach ar gyfer Cofrestrau Achrededig yn o werth. Bydd hyn yn ystyried sut y gellir cyflawni dull cydlynol ar draws pedair gwlad y DU.

### *Codi ymwybyddiaeth a chydnabyddiaeth*

3.74 Yn unol â pholisi'r llywodraeth, rydym yn hyrwyddo'r neges, wrth ddewis ymarferwyr sy'n gweithio mewn rolau heb eu rheoleiddio, y dylai'r cyhoedd, cyflogwyr ac eraill ddewis ymarferwyr ar Gofrestrau Achrededig, lle bynnag y bo modd, i'w helpu i wneud dewis gwybodus ac elwa ar y diogelwch cynyddol y mae'n ei gynnig.

3.75 Rydym yn parhau i weithio i godi ymwybyddiaeth o'r rhaglen, y manteision a pham ei bod yn bwysig defnyddio ymarferwyr sydd wedi'u cofrestru o dan fantell y rhaglen Cofrestrau Achrededig. Rydym yn hyrwyddo'r Marc Safon – arwydd clir bod rhywun wedi'i achredu a'i fod wedi cyrraedd ein safonau. Rydym yn defnyddio ein blog a'n sianeli cyfryngau cymdeithasol yn rheolaidd i hyrwyddo'r rhaglen ac amlygu gwaith a wneir gan gydweithwyr.

3.76 Eleni, rydym wedi ailgynllunio ein pecynnau cymorth cyfathrebu yr ydym yn eu dosbarthu i bob cofrestr a'u cofrestreion gyda negeseuon wedi'u diweddaru am y rhaglen, templedi cyfryngau cymdeithasol ac awgrymiadau ymarferol ar gyfer creu cynllun marchnata. Bydd hyn yn galluogi pob cofrestr i siarad yn hyderus am y rhaglen a'i manteision.

3.77 Yn dilyn cwblhau ein Hadolygiad Strategol, rydym hefyd wedi diweddaru gwefan yr Awdurdod gyda gwybodaeth ddefnyddiol am y newidiadau i'r rhaglen.

3.78 Mae'r cyfleuster [www.checkapractitioner.com](http://www.checkapractitioner.com) (CAP) ar ein gwefan yn caniatáu i'r holl randdeiliaid chwilio am gofrestr, neu ymarferydd sy'n gweithio mewn rôl benodol. Mae'r defnydd o offeryn chwilio'r CAP yn parhau i gynyddu o fis i fis, sy'n dangos ei fod yn adnodd gwerthfawr.

3.79 Mae ein hymgysylltiad â rhanddeiliaid wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn hon ac rydym wedi creu perthnasoedd gwerthfawr gyda sefydliadau yn y sector gofal iechyd a fydd yn cefnogi ein gwaith cyfathrebu yn y flwyddyn i ddod.

## Crynodeb ariannol

3.80 Roedd ein hincwm gweithredu ar gyfer 2021/22 yn cynnwys £4.5 miliwn mewn ffioedd a dalwyd gan y rheolyddion a £0.724m o incwm heb fod yn ffioedd . Yn 2020/21 roedd ein cyllid yn £4.4 miliwn o ffioedd gan y rheolyddion, a £0.16 miliwn o gyllid cymhorthdal a dalwyd gan DHSC.

3.81 Ar 31 Mawrth 2022, gwnaethom gario ymlaen gyfanswm cronfeydd wrth gefn o £2.6 miliwn, yr oedd £0.7 miliwn ohonynt yn anghyfyngedig a £1.9 miliwn yn gyfyngedig (2020/21: cyfanswm o £2.3 miliwn, 0.6 miliwn yn anghyfyngedig ac £1.7 miliwn yn gyfyngedig) ar ôl incwm gweithredu net o £0.287 miliwn (2020/21: gwariant gweithredu net £0.014 miliwn). Dychwelom £0.216 miliwn i'r rheolyddion yn ymarfer cynllunio busnes 2022/23 (£0.105 miliwn yn 2021/22). Cyfrifir gwariant gweithredu ar gyfer 2021/22 yn net o ffioedd a dderbyniwyd gan y rheolyddion, a gofnodir fel incwm yn unol ag IFRS 15.

3.82 Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022, cynhyrchom warged a gynyddodd ein sefyllfa cronfeydd wrth gefn o £0.287 miliwn.

3.83 Dangosir disgrifiad o bolisïau cyfrifyddu yn nodyn 1 y cyfrifon.

### Tryloywder

3.84 Mae'r Awdurdod yn ymroddedig i ddarparu gwybodaeth i'r cyhoedd.

3.85 Cynhelir ein polisi taliad credydwr yn unol â Pholisi Taliad Gwell y llywodraeth, sydd ar hyn o bryd yn darparu tâl ar gyfer cyflenwyr o fewn pum niwrnod gwaith i dderbyn anfoneb, ac eithrio ble gall fod ymholiad neu anghydfod am anfoneb.

3.86 Mae'r targed hwn yn heriol, yn arbennig i sefydliad bach fel ni, a dim ond trwy gyflogi mwy o staff y gellid cyflawni hyn. Felly, ein nod yw talu 60% o anfonebau diamheuol o fewn pum niwrnod a 100% o fewn 10 niwrnod.

3.87 Yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22, talwyd 100% o anfonebau o fewn 10 niwrnod a 78% (yn ôl nifer o anfonebau) a 81% (yn ôl cyfanswm gwerth anfonebau) o fewn pum niwrnod. Ceir manylion ein cofnod taliadau ar ein gwefan.20

3.88 Ni thalwyd unrhyw log dan y Ddeddf Taliadau Hwyr o Ddyledion Masnachol (Llog) 1998.

3.89 Y balans oedd yn ddyledus i gredydwyr masnach ar 31 Mawrth 2022 oedd £30,349 (2020/21: £18,000). Fel cyfran o'r cyfanswm a anfonebwyd gan gyflenwyr yn y flwyddyn, mae hyn yn cyfateb i 7.71 diwrnod (2020/21: 1.68 diwrnod).

3.90 Mae gwybodaeth arall y gellir ei gweld ar adrannau datgeliad a thryloywder llywodraeth ein gwefan yn cynnwys:

- Gwariant dros £25,000
- Treuliau aelodau'r Bwrdd
- Treuliau'r tîm gweithredol
- Lletygarwch.

### Cynaliadwyedd

3.91 Oherwydd ein maint, nid yw'n ofynnol i ni ddarparu adroddiad cynaliadwyedd. Rydym, fodd bynnag, yn ceisio lleihau effaith ein gweithgareddau ar yr amgylchedd.

3.92 Cafodd ein swyddfa ei hailddodrefnu, cyn i ni ddod yn denantiaid, yn unol â'r safon asesiad amgylcheddol BREEAM, sy'n edrych ar wresogi, goleuo, ailgylchu a deunyddiau eraill, gan dderbyn graddiad 'rhagorol'.

3.93 Rydym yn meddiannu 2.58% o'r adeilad.

3.94 Cesglir dŵr glaw a'i ddefnyddio i gyflenwi'r cyfleusterau glanweithiol, gan leihau ein defnydd o ddŵr glân.

3.95 Mae gan ein swyddfeydd gyfleusterau i ddidoli gwastraff i'w ailgylchu, ac i annog staff i wneud hyn ni chesglir unrhyw wastraff o finiau wrth ddesgiau. Mae gwastraff yn cael ei wahanu i ailgylchadwy, nid i'w ailgylchu a gwastraff bwyd. Mae contractwr yn didoli'r deunydd ailgylchu cymysg. Nid oes unrhyw wastraff yn mynd i safleoedd tirlenwi. Mae gwastraff na ellir ei ailgylchu yn cael ei losgi. Mae cost cael gwared ar waredu gwastraff wedi ei gynnwys yn nhaliadau gwasanaeth yr adeilad.

3.96 Cyfrifir ein defnydd o nwy a dŵr fel 2.58% o gyfanswm yr adeilad. Mae ein trydan wedi ei fonitro ar wahân ac mae'r defnydd ar gyfer y gofod a rhentir gan y landlord

[20] www.professionalstandards.org.uk/about-us/ask-us-for-information/government-disclosure/payment-statistics

yn hysbys. Mae ein defnydd ar gyfer 2021/22 a'r flwyddyn flaenorol wedi'i nodi isod.

| | 2021/22 | 2020/21 |
|---|---:|---:|
| **Nwy** | 4,083kWh | 4,552kWh |
| **Trydan** | 49,320kWh | 48,393kWh |
| **Dŵr** | 44.13 $m^3$ | 43.48 $m^3$ |
| **Gwaredu gwastraff** | 1.08 tunnell | 0.30 tunnell |

3.97 Daw'r holl drydan a ddefnyddir o ffynonellau adnewyddadwy 100% gan EDF Energy (a gadarnhawyd gan yr Ymddiriedolaeth Garbon).

3.98 Mae gosod cywasgyddion gwastraff wedi lleihau amlder casgliadau o ddyddiol i bob pythefnos, gan leihau allyriadau cerbydau.

3.99 Rydym yn ceisio lleihau effaith ein gweithgareddau ar yr amgylchedd. Pan fyddwn yn prynu offer, rhoddir ystyriaeth i ddefnydd ynni. Defnyddiwn ddeunydd wedi ei ailgylchu ble bynnag fo’n bosibl a’i fod yn cynnig gwerth am arian.

3.100 Rydym yn parhau i geisio lleihau’r defnydd o bapur trwy wneud y defnydd gorau posibl o’n safle mewnrwyd a gwefan i ddosbarthu gwybodaeth. Rydym hefyd yn defnyddio fersiynau electronig o bapurau cyfarfod ble fo’n dechnegol ymarferol. Ble defnyddir papur, rydym yn anelu at leihau defnydd ohono trwy reolaeth weithredol o argraffwyr yn gorfodi argraffu dwyochrog.

### Hawliau dynol

3.101 Rydym yn ymroddedig i barchu hawliau dynol fel yr ymgorfforwyd yn y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol a’i ddau gyfamod cyfatebol, Y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Sifil a Gwleidyddol a’r Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol.

3.102 Rydym yn ymdrechu i sicrhau nad ydym yn troseddu ar hawliau dynol, yn osgoi cymryd rhan mewn tramgwyddau ar hawliau dynol eraill, ac yn cydymffurfio gyda chyfreithiau'r gwledydd yr ydym yn gweithio ynddynt.

### Gwrthlygredd a gwrthlwgrwobrwyaeth

3.103 Rydym yn ymroddedig i gyflawni ein gwaith mewn modd onest a moesol. Yn unol â Deddf Llwgrwobrwyo 2010, rydym yn gweithredu llywodraethu trwy weithredu a gorfodi polisïau a gweithdrefnau cadarn i ddiogelu yn erbyn unrhyw ymddygiad anghyfreithiol.

3.104 Fe adolygir ein polisïau chwythu’r chwiban a thwyll yn flynyddol gan ein Pwyllgor Archwilio a Risg a’u hanfon mewn neges i'n staff. Mae gennym ymagwedd dim goddefiant i unrhyw weithredu croes i Ddeddf Llwgrwobrwyo 2010 a bydd unrhyw faterion a godir yn cael eu trin gyda’r pwysigrwydd uchaf.

### Risg

3.105 Ceir manylion hyn ym mharagraffau 4.23 to 4.26.

## 4. Adroddiad atebolrwydd

# Adroddiad llywodraethu corfforaethol

4.1 Sefydlir ein trefniadau llywodraethu mewn Fframwaith Llywodraethu ffurfiol sy'n disgrifio'r amrywiol rolau a chyfrifoldebau yn yr Awdurdod.

### Adroddiad y Cyfarwyddwyr

4.2 Mae gennym dîm gweithredol fel y nodir isod, yn ymdrin â'n tri maes gwaith: Gwasanaethau Corfforaethol; Craffu ac Ansawdd; a Safonau a Pholisi.

4.3 Mae cofrestr buddiannau Swyddogion Gweithredol ac Anweithredol ar gael ar ein gwefan.

4.4 Mae cyfarwyddwyr yn aelodau o staff ac yn cael eu talu yn unol â pholisïau staff.

| | |
|---|---|
| Alan Clamp | Prif Weithredwr |
| Jane Carey | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol |
| Mark Stobbs | Cyfarwyddwr Craffu ac Ansawdd |
| Christine Braithwaite | Cyfarwyddwr Safonau a Pholisi |

### *Bwrdd yr Awdurdod*

4.5 Mae Bwrdd yr Awdurdod yn cynnwys saith aelod anweithredol ac un aelod gweithredol. Ni all unrhyw aelodau anweithredol o'n Bwrdd fod nac erioed wedi bod yn aelod o broffesiwn a reoleiddir gan unrhyw un o'r 10 rheoleiddiwr a oruchwylir gennym, fel ein bod yn awdurdod annibynnol o broffesiynau a rheolyddion iechyd a gofal cymdeithasol.

4.6 Y Bwrdd yw fforwm penderfyniadau uchaf yr Awdurdod, ble trafodir materion strategol a gweithredol arwyddocaol, ac y gwneir penderfyniadau canlyniadol.

4.7 Mae gan Fwrdd yr Awdurdod gyfrifoldeb corfforaethol am sicrhau ei fod yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol ac am hyrwyddo defnydd effeithiol ac effeithlon o'i adnoddau.

4.8 I'r diben hwn, ac ar drywydd ei gyfrifoldebau corfforaethol ehangach, mae'r Bwrdd:

- Yn gosod cyfeiriad strategol cyffredinol yr Awdurdod o fewn y statud a'r fframwaith polisi ac adnoddau
- Yn sicrhau y cydymffurfir ag unrhyw ofynion statudol neu weinyddol i ddefnyddio cyllid cyhoeddus; fod yr Awdurdod yn gweithredu o fewn terfynau ei awdurdod statudol, ac yn unol ag unrhyw amodau eraill yn ymwneud â defnydd o gyllid cyhoeddus
- Yn sicrhau bod yr Awdurdod yn derbyn ac adolygu gwybodaeth ariannol reolaidd parthed rheolaeth yr Awdurdod; yn cael ei hysbysu mewn modd amserol am unrhyw bryderon am weithgareddau'r Awdurdod; ac yn darparu sicrwydd positif y cymerwyd camau priodol ar bryderon o'r fath

- Yn arddangos safonau uchel o lywodraethu corfforaethol ar bob adeg, yn cynnwys sefydlu pwyllgor archwilio i helpu'r Awdurdod i ddelio â risgiau ariannol allweddol ac eraill sy'n ei wynebu
- Yn penodi'r Prif Weithredwr i'r Awdurdod ac yn gosod amcanion perfformiad ac amodau tâl yn gysylltiedig i'r amcanion hyn ar gyfer y Prif Weithredwr, sy'n rhoi pwys i reolaeth briodol a defnydd o gyllid cyhoeddus.

4.9 Gwneir penodiadau i'r Bwrdd am gyfnod cychwynnol o bedair blynedd, y gellir ei ymestyn am ail dymor. Ni ddylai cyfanswm yr amser a wasanaethir fod yn fwy nag wyth mlynedd.

4.10 Rhodda Atodlen 7 Deddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 gyfarwyddiadau ar gyfer penodi aelodau i'r Cyngor.

4.11 Penodwyd Caroline Corby gan y Cyfrin Gyngor yn Gadeirydd ar 1 Chwefror 2021.

4.12 Ceir manylion penodiadau'r Bwrdd a pwy sy'n eu gwneud yn y tabl isod.

4.13 Ceir manylion swyddi cyfarwyddwyr a buddiannau arwyddocaol sydd gan y Bwrdd yn y gofrestr buddiannau ar ein gwefan.[21]

***Aelodau'r Bwrdd***

| Aelod o'r Bwrdd | Penodwyd gan |
|---|---|
| Caroline Corby (Cadeirydd) | Cyfrin Gyngor (Chwefror 2021) |
| Antony Townsend | Cyfrin Gyngor (ailbenodwyd 2019) |
| Frances Done CBE | Cyfrin Gyngor (ailbenodwyd 2021) |
| Renata Drinkwater | Cyfrin Gyngor (ailbenodwyd 2019) |
| Thomas Frawley CBE | Adran Iechyd Gogledd Iwerddon (ailbenodwyd 2021) |
| Moiram Ali | Gweinidogion yr Alban (ailbenodwyd 2021) |
| Marcus Longley | Gweinidogion Cymru (ailbenodwyd 2021) |
| Alan Clamp | Bwrdd yr Awdurdod (2018) |

4.14 Mae ein Prif Weithredwr yn weithiwr i'r Awdurdod. Prif swyddogaethau, dyletswyddau a phwerau'r Prif Weithredwr yw:

- I sicrhau bod yr Awdurdod yn cyflawni ei swyddogaethau statudol
- I baratoi a chyhoeddi safonau rheoleiddio da
- I drefnu cyhoeddi cyngor ac arweiniad polisi
- I anfon adroddiad blynyddol i'r Senedd ar berfformiad y rheolyddion a oruchwylir gennym

[21] www.professionalstandards.org.uk/docs/default-source/board/board-register-of-interests.pdf

- I gadw cyfrifon cywir a chofnodion cywir parthed y cyfrifon, i baratoi datganiad o gyfrifon parthed pob blwyddyn ariannol, ac i anfon copi o'r cyfrifon blynyddol at y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol ac i'r rhain gael eu paratoi yn unol ag egwyddorion cyfrifo cymeradwy cyffredinol y Deyrnas Unedig a chyfrifo llywodraeth
- I weithredu a rheoli'r Awdurdod yn unol â'r strategaeth a sefydlwyd gan y Bwrdd.

4.15 Mae gan y Prif Weithredwr gyfrifoldeb dros ddarparu arweinyddiaeth effeithiol ar bob mater yn ymwneud â dyletswyddau statudol a gweinyddol. Mae hyn yn cynnwys gweithredu'r strategaeth, arwain ar faterion gweithredol, hyrwyddo defnydd effeithiol ac effeithlon o staff ac adnoddau eraill, annog safonau uchel o gywirdeb a chynrychioli'r Awdurdod yn gyhoeddus.

### Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu


4.16 Mae'r Cyfrin Gyngor wedi penodi'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu. Mae ei gyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifyddu yn cynnwys ei gyfrifoldeb ar gyfer cywirdeb a chysondeb y cyllid cyhoeddus mae'n atebol amdanynt ac am gadw cofnodion cywir. Er nad ydym yn Gorff Cyhoeddus Anadrannol, mae'n cymryd i ystyriaeth yr egwyddorion a sefydlwyd yn y Memorandwm Swyddogion Cyfrifyddu Cyrff Cyhoeddus Anadrannol a gyhoeddir gan Drysorlys EM ac yn 'Managing Public Money'.

4.17 Dan Atodlen 7 Paragraff 15 Deddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012, mae'r Cyfrin Gyngor wedi cyfeirio'r Awdurdod Safonau Proffesiynol i baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar y ffurf a'r sail a gyfarwyddir gan y Cyfarwyddyd Cyfrifon. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ynghyd â'i incwm a'i wariant, Datganiad Sefyllfa Ariannol a llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

4.18 Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth ac yn neilltuol:

- Arsylwi'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a roddwyd gan y Cyfrin Gyngor, gan gynnwys y gofynion perthnasol o ran cadw cyfrifon a datguddiadau, a gweithredu polisïau cyfrifyddu perthnasol a'u defnyddio'n gyson
- Gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol
- Paratoi'r cyfrifon ar sail gweithredu fel busnes parhaus
- Datgan a gyflawnwyd y safonau cyfrifyddu cymwys fel y'u nodir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac egluro unrhyw achosion perthnasol o beidio â gwneud hynny yn y cyfrifon
- Cadarnhau bod yr Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol ar y cyfan yn deg, cytbwys a dealladwy a chymryd cyfrifoldeb am yr Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol a'r penderfyniadau gofynnol i bennu ei fod yn deg, cytbwys a dealladwy.

4.19 Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd pob cam posibl i fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod archwilwyr yr Awdurdod Safonau Proffesiynol yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Felly hyd y gwn i, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni.



Alan Clamp

Swyddog Cyfrifyddu
15 Mehefin 2022

## Datganiad llywodraethu

### *Cwmpas cyfrifoldeb*

4.20 Fel Swyddog Cyfrifyddu i'r Awdurdod, rwy'n gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawniad polisïau, nodau ac amcanion yr Awdurdod wrth ddiogelu arian ac asedau sefydliadol yr wyf yn bersonol gyfrifol amdanynt. Rwy'n talu sylw gofalus i'r canllaw a sefydlwyd yn Managing Public Money.

4.21 Mae'r Awdurdod yn adrodd i Senedd y Deyrnas Unedig ac yn cydweithio'n agos â'r gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Lloegr ac i'r Adran Addysg i gyflenwi'n hoblygiadau statudol ac amcanion allweddol ein cynllun busnes. Mae hyn yn cynnwys nodi ac ymateb yn briodol i risgiau mewnol ac allanol.

### *Cydymffurfiad â chod llywodraethu corfforaethol Trysorlys Ei Mawrhydi*

4.22 Rydym wedi cydymffurfio â Chod Llywodraethu Corfforaethol Trysorlys Ei Mawrhydi cyn belled â'i fod yn berthnasol i ni.

### *Dull rheoli risg a'r Gofrestr risgiau*

4.23 Mae Grŵp y Cyfarwyddwyr yn adolygu'r gofrestr risg strategol yn fisol. Ystyrir y gofrestr wedi ei ddiweddaru gan y Pwyllgor Archwilio a Risg (ARC), ac yna gan y Bwrdd. Bydd risgiau yn cael eu hychwanegu, diweddaru neu ddileu tu allan i'r broses hon wrth i'r angen godi.

4.24 Roedd y risgiau mwyaf arwyddocaol ar gyfer 2021/22 yn ymwneud ag

- effaith pandemig Covid-19 ac yn arbennig y risg y byddai ôl-groniadau Addasrwydd i Ymarfer yn peryglu effeithiolrwydd rheoleiddio ac felly'n lleihau diogelu'r cyhoedd,
- diwygio rheoleiddio ac yn arbennig y risg y caiff ei roi ar waith yn wael, gan leihau arolygiaeth effeithiol o waith y rheolyddion
- cynaliadwyedd ariannol y Rhaglen Cofrestrau Achrededig.

4.25 Mae'r Grŵp Cyfarwyddwyr yn datblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol ac yn darparu sicrwydd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg, sydd yn ei dros yn darparu cyngor strategol i'r Bwrdd, ble cynhelir cyfrifoldeb cyffredinol bod trefniadau'r Awdurdod yn effeithiol.

4.26 Mae elfennau allweddol y system reolaeth fewnol yn cynnwys:

- Gweithdrefnau ariannol yn manylu rheoliadau ariannol, ar gyfer y cyfrifoldebau ac awdurdodau a ddirprwywyd i'r Grŵp Cyfarwyddwyr
- Prosesau cynllunio busnes yn sefydlu amcanion yr Awdurdod wedi eu cefnogi gan incwm blynyddol manwl, gwariant, cyfalaf a chyllidebau llif arian
- Adolygiadau rheolaidd o berfformiad, ynghyd ag adrodd amrywiant, cynllunio senario ac ail-ddarogan
- Y fframwaith sicrwydd.

### *Fframwaith sicrwydd*

4.27 Y Fframwaith Sicrwydd yw'r ffordd o sicrhau aelodau'r Bwrdd am weithrediad yr Awdurdod.

4.28 Mae'r Fframwaith wedi'i nodi yn nhermau'r model tair llinell amddiffyn. Mae'r fframwaith wedi ei strwythuro o amgylch y meysydd llywodraethu da hynny a fydd angen cymorth ar bob adeg, yn hytrach nag amcanion blynyddol y Bwrdd a fydd yn esblygu'n barhaus.

4.29 Mae'r dulliau sicrwydd a restrir yn fewnbynnau y mae'r Bwrdd yn defnyddio i ddyfarnu ar eu lefel sicrwydd. Nid yw'r fframwaith yn anelu i fod yn rhestr hollgynhwysol nac yn offeryn i'r gweithgor gyflawni gweithrediadau.

### *Cadeirydd y Bwrdd*

4.30 Mae gan y Cadeirydd gyfrifoldeb arweinyddiaeth ar y materion canlynol:

- Arwain y Bwrdd o ran llunio ein strategaeth
- Sicrhau bod y Bwrdd, wrth wneud ei benderfyniadau, yn cymryd sylw dyledus o unrhyw ganllaw perthnasol
- Hyrwyddo defnydd effeithiol, economaidd, ac effeithlon o adnoddau, yn cynnwys staff
- Annog safonau uchel o gywirdeb
- Sicrhau fod y Bwrdd yn cwrdd yn rheolaidd trwy gydol y flwyddyn a bod cofnodion y cyfarfodydd yn gofnod cywir o'r penderfyniadau a wnaed a, ble fo'n briodol, trafodaethau'r Bwrdd
- Sicrhau yr adroddir yn flynyddol ar waith yr Awdurdod i'r Senedd fel sy'n ofynnol dan Statud.

### *Presenoldeb yng nghyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd*

4.31 Cynhaliwyd chwech cyfarfod o'r Bwrdd rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022.

4.32 Roedd presenoldeb aelodau yng nghyfarfodydd y Bwrdd yn ystod 2021/22 fel a ganlyn:

| Aelod o'r Bwrdd | Nifer o gyfarfodydd a fynychwyd | Posibl |
|---|---|---|
| Caroline Corby (Cadeirydd) | 6 | 6 |
| Antony Townsend | 6 | 6 |
| Frances Done CBE | 6 | 6 |
| Renata Drinkwater | 6 | 6 |
| Thomas Frawley CBE | 6 | 6 |
| Moiram Ali | 6 | 6 |
| Marcus Longley | 6 | 6 |
| Alan Clamp | 6 | 6 |

4.33 Yn ystod y flwyddyn a adolygir, roedd y Bwrdd yn weithredol o ran sicrhau y cynhaliwyd ein swyddogaethau statudol a bod y risgiau yr oeddem yn eu hwynebu yn cael sylw. Cyflawnodd hyn trwy ddefnydd effeithiol a monitro’r gofrestr risg a fframwaith sicrwydd a thrwy fod yn wyliadwrus ynglŷn ag ansawdd ein hallbynnau.

4.34 Mae’r Bwrdd yn hyderus ei fod yn dal i dderbyn adroddiadau priodol, cyflawn a pherthnasol gan y gweithgor i sicrhau y gall gyflawni ei rôl strategol ac y gall ddal y gweithgor yn atebol. Darperir sicrwydd ansawdd gan y Pwyllgor Craffu, y Pwyllgor Archwilio a Risg a’r Pwyllgor Cyllid sy’n adrodd i’r Bwrdd. Mae’r Bwrdd hefyd yn adolygu'r holl bapurau polisi ac adroddiadau allweddol cyn cyhoeddi i sicrhau eu bod yn bodloni’r safonau uchel disgwyliedig. Mae’r Bwrdd yn derbyn adroddiadau ariannol ym mhob cyfarfod ac yn adolygu’r gofrestr risg ddwywaith y flwyddyn.

4.35 Mae'r Bwrdd yn talu sylw arbennig i gyflawniad ymchwiliadau ac adolygiadau arbennig yr Awdurdod ac yn sicrhau ei hun yn ofalus ynghylch ansawdd yr adroddiadau terfynol.

4.36 Mae’r Bwrdd yn chwarae rôl bwysig o ran sefydlu’r cyfeiriad strategol ar gyfer yr Awdurdod ac mae’n ystyried hyn a materion eraill cysylltiedig yn ei digwyddiad cynllunio blynyddol.

4.37 Mae’r Bwrdd hefyd yn adolygu ei berfformiad ei hun yn rhan o’i gynllunio strategol. Mae’r Bwrdd o’r farn ei fod yn gweithredu’n effeithiol.

4.38 Mae cynnal ansawdd ein gwaith yn ystyriaeth bwysig i’r Bwrdd. Mae’n cyfrannu i gyhoeddiadau ac adroddiadau cyn eu cyhoeddi ac yn cymryd diddordeb mewn ymchwil ac mewn datblygiad polisi.

4.39 Mae’r Bwrdd hefyd yn adolygu gwybodaeth a dderbynia am berfformiad yr Awdurdod gan bartïon allanol yn cynnwys y rheolyddion statudol, y cofrestrau achrededig, yr Adrannau Iechyd yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon a’r Adran Addysg yn Lloegr.

4.40 Mae holl aelodau’r Bwrdd yn cael eu harfarnu yn flynyddol gan y Cadeirydd ac yn gallu rhoi sylw ar berfformiad y Cadeirydd a’r Prif Weithredwr. Mae'r Cadeirydd yn cael ei arfarnu gan y Dirprwy Gadeirydd, gan ddefnyddio adborth gan aelodau'r Bwrdd, uwch aelodau o staff a rhanddeiliaid allanol.

4.41 Mae manylion sicrwydd ansawdd wedi ei ddirprwyo i’r Pwyllgor Craffu ac i’r Pwyllgor Archwilio a Risg. Adroddwn ar eu gweithgareddau ar wahân. Adolygir Cylch Gorchwyl y ddau bwyllgor yn flynyddol.

### *Pwyllgorau a gweithgorau’r Bwrdd*

#### *Pwyllgor Archwilio a Risg*

4.42 Mae gan y Bwrdd Bwyllgor Archwilio a Risg i’w gefnogi yn ei gyfrifoldebau i reoli risg a llywodraethu. Mae’r pwyllgor yn arolygu pa mor gynhwysfawr yw sicrwydd o ran bodloni anghenion sicrwydd y Bwrdd a’r Swyddog Atebolrwydd ac adolygu dibynadwyedd a chywirdeb y sicrwydd hwn.

4.43 Cynhaliwyd pedwar cyfarfod Pwyllgor Archwilio a Risg rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022.

4.45 Roedd presenoldeb aelodau yng nghyfarfodydd y pwyllgor yn ystod 2021/22 fel a ganlyn:

| Aelod o'r pwyllgor | Nifer o gyfarfodydd a fynychwyd | Posibl |
|---|---|---|
| Frances Done CBE | 4 | 4 |
| Moiram Ali | 4 | 4 |
| Tom Frawley | 4 | 4 |

4.46 Adroddir ar gofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor yn ffurfiol i'r Bwrdd yn ogystal â barn y Pwyllgor ar y gofrestr risg a'r newidiadau a wnaed iddi.

4.47 Mae'r Pwyllgor yn adolygu ei Gylch Gorchwyl a rhaglen waith yn flynyddol ac yn adrodd unrhyw newidiadau y bydd yn cynnig i'r Bwrdd. Pob blwyddyn, mae'n adrodd yn ffurfiol i'r Bwrdd ar:

- Ei waith yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf
- Asesiad o drefniadau llywodraethu gwybodaeth
- Yr adroddiadau archwiliad mewnol a gyflwynwyd iddo
- Barnau'r archwilwyr.

4.48 Mae'r Pwyllgor yn gosod ei raglen waith ei hun ar gyfer y flwyddyn i ddod ac mae hyn yn dylanwadu ar y rhaglen waith a osodir gan yr archwilwyr mewnol.

4.49 Fel arfer, bydd y Bwrdd yn dirprwyo cymeradwyaeth derfynol o'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon i'r Pwyllgor hwn.

### Archwiliad mewnol

4.50 Mazars oedd ein harchwilwyr mewnol ar gyfer 2021/22.

4.51 Roedd y gwaith archwilio mewnol ar gyfer eleni yn canolbwyntio ar:

- Cynllunio busnes
- Caffael
- Diogelwch seiber y gronfa ddata Adran 29
- Camau dilynol
- Ymlyniad i'n hegwyddorion busnes a pholisi cronfa wrth gefn.

#### *Cynllunio Busnes*

4.52 Derbyniodd yr adolygiad hwn Sicrwydd Cymedrol. Gwnaethpwyd tri argymhelliad arwyddocaol ynghylch nodi arbedion effeithlonrwydd a gwerth am arian, adolygiadau canolbwynt a chynllunio a chyllidebu ariannol. Mae pob un o'r argymhellion wedi eu gweithredu.

#### *Caffael*

4.53 Derbyniodd yr adolygiad hwn Sicrwydd Cymedrol. Gwnaethpwyd pedwar argymhelliad arwyddocaol ynghylch trothwyon caffael, hyfforddiant staff a chymeradwyo a chyfiawnhau eithriadau. Mae dau o'r argymhellion hyn wedi'u rhoi ar waith a chwblhawyd y gweddill erbyn diwedd mis Ebrill.

### *Diogelwch cronfa ddata Adran 29*

4.54 Derbyniodd yr adolygiad hwn Sicrwydd Cyfyngedig. Gwnaed un argymhelliad sylfaenol a phedwar argymhelliad arwyddocaol. Roedd yr argymhelliad sylfaenol yn ymwneud â sicrwydd trydydd parti, sef nad oedd y contract yn nodi'n ddigon manwl ofynion diogelwch gwybodaeth y cyflenwr. Roedd yr argymhellion arwyddocaol yn ymwneud â rheoli risg, polisïau diogelwch yn ymwneud â'r gronfa ddata, monitro gweithgarwch defnyddwyr a goruchwyliaeth uwch reolwyr. Mae'r argymhellion hyn i gyd wedi'u rhoi ar waith.

### *Ymlyniad i'n hegwyddorion busnes a pholisi cronfa wrth gefn*

4.55 Ystyriodd yr adolygiad hwn ar os oedd yr Awdurdod yn gweithredu yn unol â'n harferion busnes ein hun a pholisi cronfeydd wrth gefn.

4.56 Cadarnhaodd yr adolygiad, a nododd nad oedd unrhyw gamau a oedd yn haeddu sylw i'r Awdurdod eu hystyried, na nodwyd unrhyw faterion i ddangos nad oedd yr Awdurdod wedi cadw at y polisi.

4.57 Monitrodd y Pwyllgor weithrediad holl gasgliadau'r archwiliad. Adroddwyd crynodeb o'r rhain a'r gwaith a gwblhawyd i ddelio â nhw i'r pwyllgor gan yr archwilwyr mewnol yng nghyfarfod Mai 2022. Roedd yr holl waith wedi ei gwblhau'n brydlon.

### Pwyllgor Craffu

4.58 Mae'r Pwyllgor Craffu yn derbyn adroddiadau ar ein gweithrediad craffu a goruchwylio o'r 10 rheoleiddiwr gweithwyr iechyd a gofal ac yn darparu sicrwydd ansawdd ar benderfyniadau Adran 29 a'r rhaglen cofrestrau achrededig ac adolygiadau perfformiad y rheolyddion.

4.59 Cynhaliwyd tri chyfarfod Pwyllgor Craffu rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022. Gohiriwyd un a'i gynnal dros ddau ddiwrnod.

Roedd presenoldeb aelodau yng nghyfarfodydd y pwyllgor yn ystod 2021/22 fel a ganlyn:

| Aelod o'r pwyllgor | Nifer o gyfarfodydd a fynychwyd | Posibl |
|---|---|---|
| Antony Townsend | 3 | 3 |
| Renata Drinkwater | 2 | 3 |
| Marcus Longley | 3 | 3 |

### *Penodiadau i gynghorau rheolyddion*

4.60 Ym mhob un o'r tri chyfarfod, fe ystyriodd y Pwyllgor Craffu adroddiadau ar weithgaredd diweddar, yn ogystal â gwybodaeth a ddarparwyd ynghylch prosesau mewnol yr Awdurdod a'i berthynas gyda rhanddeiliaid allanol yn cynnwys y Cyfrin Gyngor parthed y maes hwn o'i waith.

### *Adolygiad o benderfyniadau terfynol addasrwydd i ymarfer (awdurdodaeth Adran 29 yr Awdurdod)*

4.61 Ym mhob cyfarfod, fe adolygodd y Pwyllgor Craffu benderfyniadau a wnaethpwyd am benderfyniadau panel addasrwydd i ymarfer rheolyddion unigol yn ystod gwahanol gamau o'r broses. Ym mhob achos, cytunodd y Pwyllgor fod y penderfyniad o fewn cyrraedd penderfyniadau rhesymol sydd ar gael i'r Awdurdod ac roedd yn fodlon gydag ansawdd y rhesymeg. Bu hefyd yn adolygu archwiliad o benderfyniadau cychwynnol gan gynghorwyr allanol. Cadeiriodd aelodau'r Pwyllgor rai cyfarfodydd achos dan y broses hon yn ystod y flwyddyn.

### *Adolygiad perfformiad blynyddol y rheolyddion*

4.62 Derbyniodd y Pwyllgor Craffu adroddiadau rheolaidd ar gynnydd y broses Adolygiad Perfformiad. Mae'r Pwyllgor wedi bod yn fodlon gyda'r broses honno. Mae'r Pwyllgor wedi chwarae rhan arbennig yn yr adolygiad o'r broses ac wedi darparu canllawiau a her i gynigion y weithrediaeth.  Mae'n fodlon ar y cynnydd.

4.63 Mae'r Pwyllgor wedi cael cyngor ar effaith debygol diwygiadau i reoleiddio proffesiynol ar waith craffu'r Awdurdod ac wedi mynegi barn gychwynnol ar y cynigion.

4.64 Mae'r Pwyllgor wedi adolygu ei drefniadau gwaith ac, yng ngoleuni'r llwyth gwaith, bydd yn cyfarfod bedair gwaith yn 2022/23.

### *Cofrestrau Achrededig*

4.65 Cyflawnodd y Pwyllgor Craffu ei graffu ar y rhaglen Cofrestrau achrededig. Derbyniodd ddiweddariadau cynnydd ar geisiadau yn mynd trwy asesiadau cychwynnol, adolygiadau blynyddol o achrediad a hysbysiadau o newid.

4.66 Goruchwyliodd y Pwyllgor yr adolygiad strategol o'r rhaglen Cofrestrau Achrededig ac mae'n parhau i fonitro gweithrediad y newidiadau.

4.67 Cafodd y Pwyllgor hefyd wybod am y gweithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu gyda rhanddeiliaid i godi ymwybyddiaeth o'r rhaglen.

### Pwyllgor Cyllid

4.68 Sefydlwyd y Pwyllgor Cyllid ym Mai 2020. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn darparu cefnogaeth, cyngor ac argymhellion i'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu parthed cyfrifoldebau'r Bwrdd ar faterion ariannol (yn gyfalaf a refeniw). Mae'r Pwyllgor yn disodli'r pwyllgor tal wrth ddelio â materion yn ymwneud â thaliadau i staff a'r Bwrdd.

4.69 Cynhaliwyd pum cyfarfod Pwyllgor Cyllid yn 2021/22.

4.70 Roedd presenoldeb aelodau yng nghyfarfodydd y pwyllgor yn ystod 2021/22 fel a ganlyn:

| Aelod o'r pwyllgor | Nifer o gyfarfodydd a fynychwyd | Posibl |
|---|---|---|
| Renata Drinkwater | 5 | 5 |
| Frances Done | 5 | 5 |
| Antony Townsend | 5 | 5 |

### *Rheoliadau cynllun pensiwn*

4.71 Fel cyflogwr gyda staff sydd â hawl i aelodaeth o Gynllun Pensiwn y GIG, mae gennym fesurau rheoli i sicrhau y cydymffurfir â phob gofyniad ar gyflogwyr o fewn rheoliadau'r cynllun. Mae hyn yn cynnwys sicrhau fod didyniadau o gyflogau, cyfraniadau cyflogwr a thaliadau i'r cynllun yn unol â'r rheolau a bod cofnodion cynllun pensiwn aelodau yn cael eu diweddaru'n gywir yn unol â'r amserlen a fanylir yn y rheoliadau.

### *Trin data*

4.72 Mae'n system o reolaeth fewnol yn seiliedig ar Fframwaith Polisi Diogelwch Llywodraeth EM ac rydym yn parhau i fonitro ac adolygu ein cydymffurfiad â hyn.

4.73 Ychydig o wybodaeth bersonol a gedwir gennym. Mae'r prif fath o ddata personol sydd gennym yn ymwneud â'n staff ein hun. Mae'n ofynnol i staff weithio trwy fynediad o bell i'n gweinydd ac mae dilysiadau dau ffactor ar waith i ddarparu haen arall o ddiogelwch.

4.74 Mae staff yn parhau i gyflawni cyfuniad o hyfforddiant ar-lein 'Diogelu Gwybodaeth' y llywodraeth a hyfforddiant diogelwch gwybodaeth mewnol yr Awdurdod. Mae'r hyfforddiant 'Diogelu Gwybodaeth' yn seiliedig ar asesiad.

4.75 Rhaid i'r holl staff gwblhau'r lefel sy'n briodol i'w lefel o gyfrifoldeb ar gyfer trin data. Cwblhaodd pob aelod o staff yr hyfforddiant yn 2021/22.

4.76 Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg wedi darparu datganiad ei bod yn fodlon bod gennym bolisïau priodol i'r staff ddilyn, cyn belled â'u bod yn berthnasol i'r Awdurdod, a bod prosesau priodol yn eu lle i liniaru risgiau i'n gwybodaeth.

4.77 Paratowyd y datganiad hwn wedi ystyriaeth o Asesiad Blynyddol yr Awdurdod o Reolaeth Risg Gwybodaeth ar gyfer 2021/22 a'r sicrwydd a geir trwy hynny.

4.78 Ni roddwyd adroddiad am unrhyw ddigwyddiadau yn ymwneud â data personol i'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ystod y flwyddyn.

### *Pwrpas y system rheolaeth fewnol*

4.79 Cynlluniwyd y system rheolaeth fewnol i reoli risg i'r graddau y bo hynny'n rhesymol yn hytrach na dileu pob risg o fethu cyflawni polisïau, amcanion a nodau; felly gall roi sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd y gall ei wneud, ond nid sicrwydd llwyr.

4.80 Mae'r system o reolaeth fewnol wedi ei chynllunio i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion sefydliadol, i werthuso'r tebygolrwydd y cyflawnir y risgiau hynny a'r effaith pe byddant yn cael eu cyflawni, ac i'w rheoli'n effeithiol, effeithlon ac economaidd.

4.81 Mae'r system o reolaeth fewnol wedi bod yn weithredol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad a chyfrifon blynyddol ac yn cyd-fynd â chanllaw Trysorlys EM. Mae elfennau allweddol y system reolaeth fewnol yn cynnwys:

- Gweithdrefnau ariannol yn manylu rheoliadau ariannol ar gyfer cyfrifoldebau dros, ac awdurdodaeth a ddirprwywyd i, y tîm rheoli
- Prosesau cynllunio busnes yn sefydlu amcanion yr Awdurdod wedi eu cefnogi gan fanylion incwm blynyddol, gwariant, cyfalaf a chyllidebau llif arian

- Adolygiadau rheolaidd o berfformiad ynghyd ag adrodd amrywiant, cynllunio senario ac ail-ddarogan.

### Adolygu effeithiolrwydd

4.82 Fel Swyddog Atebolrwydd, rwy’n gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Hysbysir fy adolygiad o waith yr archwilwyr mewnol, a'r Grŵp Cyfarwyddwyr, sy’n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y rheoliadau mewnol, a sylwadau gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill. Mae’r Pwyllgor Archwilio a Risg a’r Bwrdd wedi fy nghynghori o oblygiadau canlyniadau fy adolygiad ar y system o reolaeth fewnol.

4.83 Cynhaliwyd ac adolygwyd effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol trwy:


- Fwrdd yr Awdurdod, a gyfarfu chwech o weithiau
- Y Pwyllgor Archwilio a Risg, sy’n cynnwys tri aelod o’r Bwrdd. Rwyf hefyd yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Risg hefyd ynghyd â’r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a’r Pennaeth Cyllid. Mae cynrychiolwyr o’r Swyddfa Archwilio Genedlaethol a’n harchwilwyr mewnol hefyd yn bresennol
- Trefniadau rheoli risg sy'n nodi risgiau allweddol allai effeithio ar gyflawniad ein hamcanion a bod y risgiau hynny wedi eu rheoli’n weithredol, gan adrodd ar gynnydd i’r Pwyllgor Archwilio a Risg a, thrwyddo, i Fwrdd yr Awdurdod
- Ein hasesiad blynyddol o reolaeth risg gwybodaeth a gyflawnwyd yn unol â chanllaw Swyddfa’r Cabinet
- Adroddiadau rheolaidd gan yr archwilwyr mewnol, Mazars, yn cydymffurfio gyda Safonau Archwilio Mewnol y llywodraeth
- Sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol, yr NAO, yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill.

4.84 Mazars fu ein harchwilwyr mewnol ar gyfer y flwyddyn dan sylw. Dywedodd y Pennaeth Archwilio Mewnol yn ei adroddiad ar gyfer 2021/22: ‘Ar sail ein gwaith archwilio, ein barn ar y fframwaith llywodraeth, rheoli risg, a rheolaeth yw Cymedrol yn ei ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol’.

4.85 Nid wyf o’r farn fod gennym wendidau arwyddocaol yn ein system o reoliadau mewnol. Mae rhaglen o fonitro rheolaidd yn bodoli, mewn ymgynghoriad â’r Pwyllgor Archwilio a Risg, archwilwyr mewnol ac archwilwyr allanol, i sicrhau ein bod yn bodloni safonau arfer gorau ym mhob maes o’n gweithrediadau.

4.86 Mae ein Fframwaith Sicrwydd yn cael ei monitro ynghyd â’r gofrestr risg gan y Grŵp Cyfarwyddwyr, y Pwyllgor Archwilio a Risg a’r Bwrdd. Ystyrir dylanwadau mewnol ac allanol gan drafod unrhyw risgiau allai fod yn arwyddocaol gyda rhanddeiliaid allweddol cyn gynted ag y’i gwelir. Mae’r Pwyllgor Archwilio a Risg wedi adolygu ein fframwaith sicrwydd yn ystod y flwyddyn i sicrhau ei fod yn darparu lefel briodol o sicrwydd i’r Pwyllgor a’r Bwrdd.

4.87 Rwy’n fodlon bod yr asesiad blynyddol o reoli risg gwybodaeth yn adlewyrchu’r risgiau gwybodaeth yr ydym wedi eu rheoli’n ddigonol a’n bod wedi ystyried risgiau yn y dyfodol. Ystyriaf ein bod wedi cymryd y camau angenrheidiol i reoli risgiau gwybodaeth yn effeithiol. Rwy’n hyderus fod staff yn ymwybodol o’u cyfrifoldeb i storio, rhannu a dinistrio gwybodaeth yn ddiogel.



Alan Clamp
Swyddog Cyfrifyddu
15 Mehefin 2022

# Adroddiad cydnabyddiaeth a staff

## Polisi tâl

4.88 Mae'r Pwyllgor Cyllid yn ymdrin â chydnabyddiaeth ariannol staff. Cynhaliwyd pum cyfarfod Pwyllgor Cyllid rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022.

4.89 Mae'r Pwyllgor Enwebiadau yn ymdrin â materion cydnabyddiaeth y Bwrdd. Cynhaliwyd pum cyfarfod Pwyllgor Enwebiadau rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022.

4.90 Yn gyffredinol fe gynigir cytundebau parhaol. Os y'i cynigir ar sail cyfnod sefydlog, mae hyn i adlewyrchu natur a chyd-destun y gwaith dan sylw. Pennir y cyfnod hysbysiad gofynnol gan swydd y deiliad.

## Pwyllgor Enwebiadau

4.91 Mae'r Pwyllgor Enwebiadau yn sicrhau bod gan yr Awdurdod aelodaeth Bwrdd priodol trwy oruchwylio perfformiad y Bwrdd a recriwtio ar gyfer y Bwrdd.

4.92 Cynhaliwyd pum cyfarfod Pwyllgor Enwebiadau rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022. Dangosir presenoldeb aelodau isod.

| Aelod o'r Bwrdd | Nifer o gyfarfodydd a fynychwyd | Posibl |
|---|---|---|
| Caroline Corby | 5 | 5 |
| Frances Done CBE | 5 | 5 |
| Antony Townsend | 4 | 5 |
| Renata Drinkwater | 5 | 5 |

### *Cytundebau uwch reolwyr*

| Enw | Teitl | Dyddiad cytundeb | Tymor heb ddod i ben | Cyfnod rhybudd |
|---|---|---|---|---|
| Alan Clamp | Prif Weithredwr | 1 Tachwedd 2018 | Contract parhaol | 6 mis |
| Jane Carey | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol | 11 Ionawr 2021 | Contract parhaol | 3 mis |
| Mark Stobbs | Cyfarwyddwr Craffu ac Ansawdd | 3 Mai 2016 | Contract parhaol | 3 mis |
| Christine Braithwaite | Cyfarwyddwr Safonau a Pholisi | 17 Mai 2010 | Contract parhaol | 3 mis |

### Cyflogau uwch reolwyr

| Enw | Cyflog 2021/22 £'000 | Taliadau treuliau (trethadwy) Cyfanswm £000 | Tâl perfformiad a bonws £000 | Hirdymor a bonws hirdymor £' 000 | Holl fuddion sy'n ymwneud â phensiwn £' 000 | CYFANSWM 2021/22 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Alan Clamp | 175-180 | 0 | 0 | 0 | 43 | 220-225 |
| Jane Carey | 100-105 | 0 | 0 | 0 | 53 | 150-155 |
| Mark Stobbs | 120-125 | 0 | 0 | 0 | 31 | 155-160 |
| Christine Braithwaite | 120-125 | 0 | 0 | 0 | 29 | 150-155 |

| Enw | Cyflog 2020/21 £'000 | Taliadau treuliau (trethadwy) Cyfanswm £000 | Tâl perfformiad a bonws £000 | Hirdymor a bonws hirdymor £' 000 | Holl fuddion sy'n ymwneud â phensiwn £' 000 | CYFANSWM 2020/21 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Alan Clamp | 175-180 | 0 | 0 | 0 | 42 | 220-225 |
| Mark Stobbs | 120-125 | 0 | 0 | 0 | 30 | 150-155 |
| Christine Braithwaite | 120-125 | 0 | 0 | 0 | 36 | 155-160 |
| Jane Carey * | 20-25 | 0 | 0 | 0 | 5 | 25-30 |
| John McDermott ** | ***75-80 | 0 | 0 | 0 | 15 | 90-95 |

* O 11 Ionawr. Mae cyflog FTE yn £95k-£100k
** Hyd at 14 Awst 2020. Cyflog FTE £125k- £130k
***Yn cynnwys taliad yn lle rhybudd £28K, heb gynnwys taliad ex-gratia o £30k

Mae'r tablau uchod wedi eu harchwilio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

4.93 Roedd pob uwch reolwr yn y flwyddyn yn aelodau o Gynllun Pensiwn y GIG.

4.94 Mae cyfanswm ta cyn cynnwys cyflog a buddion cysylltiedig â phensiwn a gyfrifir yn unol â chanllaw Pensiynau'r GIG,[22] sy'n ceisio meintoli'r cynnydd mewn buddion pensiwn yn y flwyddyn trwy gymharu'r buddion pensiwn cyffredinol ar ddechrau'r flwyddyn gyda'r rhai ar ddiwedd y flwyddyn. Ni chafwyd unrhyw gyflog sy'n

[22] Datgeliad o Dâl Uwch Reolwyr (Greenbury) 2015.

gysylltiedig â pherfformiad heb ei gydgrynhoi buddion mewn da yn ystod 2020/21 na 2021/22.

## Pensiynau

| Enw | Teitl | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn yn 60 oed (bandiau o £2,500) | Cynnydd gwirioneddol mewn cyfandaliad pensiwn yn 60 oed (bandiau o £2,500) | Cyfanswm y pensiwn a gronnwyd yn 60 oed ar 31 Mawrth 2022 (bandiau o £5,000) | Cyfandaliad yn 60 oed yn gysylltiedig â phensiwn a gronnwyd ar 31 Mawrth 2022 (bandiau o £5,000) | Gwerth Trosglwyddo Cyfateb i Arian ar 1 Ebrill 2021 (i’ r £1,000 agosaf) | Gwerth Trosglwyddiad yn Cyfateb i Arian ar 31 Mawrth 2022 (i’ r £1,000 agosaf) | Cynnydd real yn y Gwerth Trosglwyddiad sy’ n Cyfateb i Arian yn y flwyddyn a drodd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Alan Clamp | Prif Gweithredol | 2.5-5 | Amh* | 10-15 | Amh* | 113 | 162 | 22 |
| Jane Carey | Cyfarwyddwr Gwasanaeth au Corfforaethol | 2.5-5 | Amh* | 0-5 | Amh* | 6 | 49 | 30 |
| Mark Stobbs | Cyfarwyddwr Craffu ac Ansawdd | 0-2.5 | Amh* | 10-15 | Amh* | 159 | 196 | 19 |
| Christine Braithwaite | Cyfarwyddwr Safonau a Pholisi | 0-2.5 | 5-7.5 | 30-35 | 90-95 | Amh** | Amh** | Amh** |

* Ddim yn berthnasol yng nghynllun 2008 a 2015.
** Ddim yn berthnasol gan fod yr unigolyn dros 60.

Mae’r tabl hwn wedi ei archwilio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

## Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod

4.95 Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalaf prisiad yr actwari manteision cynllun pensiwn cronedig aelod ar bwynt penodol mewn amser. Y manteision a brisir yw manteision cronnol aelodau ac unrhyw bensiwn cymar dilynol sy’n daladwy o’r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun pensiwn neu drefniant i sicrhau manteision pensiwn mewn cynllun arall neu drefniant pan fydd aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo’r manteision a gronnwyd yn y cynllun blaenorol. Mae a wnelo’r ffigurau pensiwn a ddangosir â’r buddiannau y mae’r unigolyn wedi eu cronni o ganlyniad i’w aelodaeth gyfan o’r cynllun pensiwn, ac nid dim ond y cyfnod a dreuliwyd mewn uwch swydd y mae’r datgeliad yn gymwys iddo.

4.96 Mae’r ffigwr CETV – ac o 2005-2006 y manylion pensiwn eraill – yn cynnwys gwerth unrhyw fanteision pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall mae’r unigolyn wedi trosglwyddo i Gynllun Pensiwn y GIG. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fanteision pensiwn atodol i’r aelodau yn deillio o brynu blynyddoedd atodol o wasanaeth pensiwn yn y cynllun o’u poced eu hunain. Cyfrifir CETV o fewn y canllawiau a fframwaith a ragnodwyd gan Sefydliad a Chyfadran yr Actwari.

### Cynnydd/(gostyngiad) gwirioneddol mewn CETV

4.97 Mae hyn yn adlewyrchu’r cynnydd/(lleihad) real yn CETV. Mae’n ystyried y cynnydd mewn pensiwn cronnol oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogwr a’r gweithiwr (yn cynnwys gwerth unrhyw fanteision a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant arall) ac yn defnyddio ffactorau cyffredin gwerthuso’r farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

4.98 Ni thalwyd unrhyw iawndal i gyn uwch reolwyr na gwneud taliadau i drydydd parti ar gyfer gwasanaethau uwch reolwr.

4.99 Mae’r wybodaeth hon wedi ei harchwilio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

4.100 Nid oedd gan unrhyw uwch reolwr dreuliau oedd yn amodol i dreth yn y Deyrnas Unedig.

### Taliadau aelodau Bwrdd yr Awdurdod

4.101 Mae’r Cadeirydd yn derbyn tâl o £34,530 y flwyddyn (2020/21: £34,530 y flwyddyn); mae aelodau Cyfrin Gyngor, Gweinyddiaethau Datganoledig yn derbyn tâl blynyddol o £10,000 (2020/21: £8,078), mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn derbyn tâl blynyddol o £13,465 (2020/21: £13,465), mae Cadeirydd y Pwyllgor Craffu yn derbyn tâl blynyddol o £13,465 (2020/21: £13,465) ac mae Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid yn derbyn tâl blynyddol o £13,465 (2020/21: £13,465). Daeth cyfanswm taliadau i aelodau trwy gydol y flwyddyn i £111,752 (2020/21: £103,827) yn cynnwys costau nawdd cymdeithasol.

4.102 Mae tâl aelodau yn amodol i dreth ac yswiriant gwladol trwy TWE.

4.103 Yn ogystal, ad-dalwyd costau yn dod i £3,027 (2020/21: £ 1,177) i aelodau’r Bwrdd. Mae costau teithio yn gysylltiedig â theithio i swyddfeydd yr Awdurdod yn amodol i dreth sy'n cael ei dalu gan yr Awdurdod ar eu rhan, trwy gytundeb gyda CThEM.

4.104 Mae taliadau’r aelodau wedi eu harchwilio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

4.105 Datgelir taliadau a wnaed i aelodau unigol isod.

4.106 Nid oedd unrhyw aelodau o'r bwrdd yn aelodau o gynllun pensiwn y GIG yn 2021/22.

### Taliadau a wnaethpwyd i aelodau Bwrdd yr Awdurdod yn ystod 2021/22

| | Cyflog 2021/22 (bandiau o £5,000) | 2021/22 Costau teithio (bandiau o £5,000) | Cyflog 2020/21 (bandiau o £5,000) | 2020/21 Costau teithio (bandiau o £5,000) |
|---|---|---|---|---|
| **Cadeirydd** | | | | |
| Caroline Corby | 30-35 | 0 | 5-10* | 0 |
| **Aelodau** | | | | |
| Antony Townsend | 10-15 | 0-5 | 25-30** | 0 |
| Frances Done CBE (Cadeirydd Archwilio a Risg) | 10-15 | 0-5 | 10-15 | 0 |
| Renata Drinkwater | 10-15 | 0 | 10-15*** | 0 |
| Thomas Frawley CBE | 10-15 | 0-5 | 5-10 | 0 |
| Moiram Ali | 10-15 | 0-5 | 5-10 | 0-5 |
| Marcus Longley | 10-15 | 0-5 | 5-10 | 0-5 |

* O 01/02/21

** Cadeirydd Dros Dro o 1/09/2020-31/01/2021

*** Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid 1/07/2020

### Adroddiad staff

4.107 Rydym oll yn ymroddedig i alluogi gweithwyr i gyflawni eu llawn botensial mewn amgylchedd a nodweddir gan urddas a pharch i'w gilydd. Mae ein polisïau cyflogaeth yn ceisio creu gweithle ble gall pob gweithiwr wneud ei orau a chyfrannu i'n llwyddiant ni a'u llwyddiant eu hunain. Fe adolygir y rhain a'u diweddaru'n rheolaidd gydag arbenigwyr allanol er mwyn sicrhau cydymffurfiad gyda deddfwriaeth.

4.108 Rydym yn defnyddio gwasanaethau Right Corecare, rydym wedi cael cydnabyddiaeth allanol fel cyflogwr ystyrlon ac mae gan ein staff i gyd fynediad at gymorth a chynghori os oes angen ac ystafell dawel fel gofod myfyriol.

4.109 Rydym wedi cyflawni Gwobr Gweithlu Iach Llundain i adlewyrchu ein hymroddiad i lesiant ein staff ac wedi derbyn Achrediad Hyderus o ran Anabledd Lefel 1.

4.110 Rydym yn cydnabod manteision busnes cael gweithlu amrywiol ac yn ymroddedig i gynnal diwylliant ble mae amrywiaeth a chydraddoldeb yn cael ei hyrwyddo'n weithredol a ble na oddefir gwahaniaethu. Rydym yn gweithredu polisi dethol teg ac agored ar gyfer ceisiadau am gyflogaeth a dyrchafiadau mewnol.

4.111 Ceir rhagor o wybodaeth am y tîm o uwch reolwyr yn adran Taliadau'r adroddiad hwn.

4.112 Roedd trosiant staff eleni o fewn ein dangosydd perfformiad allweddol.

4.113 Yn rhan o'n cyfrifoldeb corfforaethol, rydym yn annog ein staff i gefnogi elusennau a sefydliadau cymunedol eraill. Mae staff yn weithgar wrth godi arian ar gyfer nifer o achosion da.

### Datgeliadau cyflogau teg

4.114 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y cyfarwyddwr sy'n derbyn y cyflog uchaf (yn ein hachos ni, y Prif Weithredwr) a'r gweithwyr ar y 25ain, 50fed a'r 75ain canradd o gydnabyddiaeth ariannol gweithwyr yr endid ar gyfer y flwyddyn ariannol.

4.115 Mae'n ofynnol hefyd i'r Awdurdod ddatgelu

- Canran y newid ers y flwyddyn ariannol flaenorol mewn perthynas â'r cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf (yn ein hachos ni, y Prif Weithredwr)
- Y newid canrannol cyfartalog o'r flwyddyn ariannol flaenorol mewn perthynas â gweithwyr yr endid a gymerwyd fel cyfan (ac eithrio'r Prif Weithredwr).

4.116 Tâl y Prif Weithredwr ym mlwyddyn ariannol 2021/22 oedd £177,500 (a gyfrifwyd fel canol y band) a £177,500 ym mlwyddyn ariannol 2020/21 felly nid oedd newid canrannol yn nhâl y Prif Weithredwr.

4.117 Y cynnydd canrannol cyfartalog o'r flwyddyn flaenorol mewn perthynas â gweithwyr yr endid yn ei gyfanrwydd oedd 2.93% sydd i'w briodoli i bolisi gwobrwyo a dilyniant yr Awdurdod.

4.118 Roedd y wybodaeth am y gymhareb gyflog yn y flwyddyn 2021/22 fel a ganlyn:

| Blwyddyn | Cymhareb gyflog 25ain canradd | Cymhareb gyflog canolrifol | Cymhareb gyflog 75ain canradd |
|---|---|---|---|
| 2021/22 | 3.84:1 | 3.55:1 | 2.64:1 |

Tâl y gweithlu ar y 25ain canradd oedd £46,189 a £50,013 a £67,304 ar y canolrif a 75ain canradd yn y drefn honno.

4.119 Tâl y Prif Weithredwr yn y flwyddyn ariannol 2020/21 oedd £177,500 (cyfrifwyd fel canol y band). Roedd hyn 3.74 gwaith yn fwy na thâl canolig y gweithlu, sef £47,509.

4.120 Ni dderbyniodd unrhyw weithiwr dâl oedd yn fwy na'r Prif Weithredwr yn 2021/22 na 2020/21. Roedd tâl yn amrywio o £31,673 i £179,478 (2020/21: £31,672 i £179,478).

4.121 Mae gwybodaeth ar ddatgeliadau tâl teg wedi ei harchwilio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

4.122 Ar ddiwedd 2021/22, roedd dau aelod o'r uwch dîm rheoli yn fenywod (33%) (2020/21, 33%) tra'n gyffredinol, roedd 32 o weithwyr yn fenywod (69%) (2020/21, 74%).

### Absenoldeb salwch

4.123 Collwyd cyfanswm o 295 niwrnod (2020/21 275 niwrnod) o ganlyniad i absenoldeb salwch yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn cyfateb i 6.7 niwrnod (2020/21, 6.4 niwrnod) y pen – oedd 165 niwrnod o'r absenoldeb hwn yn ymwneud â dau aelod o staff oedd ag absenoldeb hirdymor yn ystod y flwyddyn.

## Polisïau yn ymwneud ag anabledd

4.124 Rydym yn ymroddedig i weithredu ein polisi cyfle cyfartal ar bob cam o recriwtio a dethol.

4.125 Rydym yn gweithio i sicrhau:

- Y penodir yr ymgeisydd mwyaf addas i bob swydd, gan dalu sylw i wir anghenion y swydd
- Fod y broses yn agored, teg a gonest
- Ein bod yn gwneud addasiadau rhesymol i drechu rhwystrau wrth gynnal cyfweliadau a chyflogaeth
- Y rhoddir cyfle cyfartal i bob ymgeisydd
- Yr asesir ymgeiswyr mewnol ac allanol ar sail yr un meini prawf dethol
- Mae gwahaniaethu a rhagfarn wedi eu dileu o’r broses, i'r fath raddau ag y mae'n bosibl gwneud hynny
- Y bodlonir amcanion cyfreithiol, ac y dilynir arferion cyflogaeth da
- Mae ein ffurflen gais yn darparu adran ble gall ymgeiswyr posibl gadarnhau p'un a ydynt yn ystyried eu hunain i fod ag anabledd neu beidio ac os felly os ydynt angen gwneud addasiadau rhesymol.

4.126 Os nodir hyn ar y ffurflen gais, bydd pob ymgeisydd sy'n bodloni'r meini prawf isafswm ar gyfer swydd yn cael cyfweliad dan y Cynllun Cyfweliad Gwarantedig.

4.127 Er ein bod yn ymroddedig i'r Cynllun Cyfweliad Gwarantedig, nid yw'r gofyniad hwn yn ymestyn i'r penderfyniad penodi, ble bydd yr unigolyn gorau ar gyfer y swydd yn cael ei benodi yn unol â deddfwriaeth cydraddoldeb.

## Niferoedd staff a chostau cysylltiedig

### *Nifer cyfartalog y bobl a gyflogwyd*

4.128 Mae cyfartaledd y nifer o staff llawn amser a rhan amser a gyflogir (yn cynnwys staff dros dro) yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | Cyflogir yn barhaol | Arall | Cyfans wm 2021/22 | Cyflogir yn barhaol | Arall | Cyfanswm 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfans wm | 42.75 | 0.33 | 43.08 | 41.10 | 0.35 | 41.45 |

4.129 Ni chyflogwyd unrhyw staff ar brosiectau cyfalaf yn y cyfnod i 31 Mawrth 2022.

### *Costau personau a gyflogir*

| | Cyflogir yn barhaol | Arall | Cyfanswm 2021/22 | Cyflogir yn barhaol | Arall | Cyfanswm 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Cyflogau | 2,690 | - | 2,690 | 2,708 | - | 2,708 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 292 | - | 292 | 298 | - | 298 |
| Costau pensiynau | 465 | - | 465 | 436 | - | 436 |
| Staff asiantaeth/ dros dro | - | 22 | 22 | - | 52 | 52 |
| | 3,447 | 22 | 3,469 | 3,442 | 52 | 3,494 |

4.130 Mae'r ddau dabl uchod wedi eu harchwilio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

4.131 Ni thalwyd unrhyw becynnau ymadael yn 2021/22. (£42k yn 2020/21).

4.132 Ni chododd unrhyw gostau diswyddo yn y flwyddyn ariannol 2021/22 (dim yn 2020/21).

4.133 Ni chyflogwyd unrhyw bersonau oddi ar y gyflogres nac ar sail ymgynghorol yn ystod y flwyddyn (dim yn 2020/21).

4.134 Mae'r wybodaeth hon wedi ei harchwilio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

# Atebolrwydd seneddol ac adroddiad archwilio

## Eglurhad

### *Colledion a thaliadau arbennig*

4.135 Roedd colledion a thaliadau arbennig yn unigol ac yn gyfan gwbl islaw'r trothwy adrodd o £300,000. Mae'r wybodaeth hon wedi ei harchwilio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

### *Cysondeb gwariant*

4.136 Mae'r Awdurdod yn gweithredu gyda phedwar ffrwd gwaith penodol a adlewyrchir yn segmentiad ein cyfrifon:

- Gwaith rheoleiddiol a gosod safonau – a delir amdano trwy ffioedd a gesglir gan y rheolyddion
- Cofrestrau Achrededig – hunan ariannu gyda chefnogaeth cymhorthdal gan y DHSC
- Comisiynau gan Lywodraeth(au) – telir amdanynt gan y corff comisiynu
- Cyngor i sefydliadau eraill – enillir trwy ffioedd.

4.137 Rhoddir cyfrif ar gyfer yr incwm a gwariant ar gyfer pob segmentiad ar wahân ac rydym yn gweithio i sicrhau nad oes unrhyw draws gymorthdalu.

4.138 Fel yr adroddwyd mewn adran arall, mae ein harchwilwyr mewnol yn cyflawni adolygiad blynyddol o reolaeth ein cyllid parthed ein hegwyddorion busnes a pholisi wrth gefn cyhoeddedig sydd ym mharagraffau 10.23-10.33.

4.139 Mae'r wybodaeth hon wedi ei harchwilio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

### *Ffioedd a thaliadau*

4.140 Darparodd y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 i'r Awdurdod gael ei ariannu gan y rheolyddion y mae'n eu goruchwylio.

4.141 Y swyddogaethau o fewn cwmpas y Rheoliadau Ffioedd yw'r rhai o fewn ein ffrwd waith gyntaf; sef goruchwylio rheoleiddio a gwaith gwella a gyflawnwyd parthed cyrff iechyd proffesiynol a reoleiddir dan statud.

4.142 Blwyddyn ariannol 2021/22 oedd chweched flwyddyn lawn yr Awdurdod wedi ei gyllido'n bennaf trwy ffioedd. Bydd y cyfnod ffioedd ar gyfer 2022/23 o Ebrill i Fawrth yn cwmpasu'r un cyfnod â blwyddyn ariannol yr Awdurdod.

4.143 Rhoddir manylion y costau gweithredu cysylltiedig ar gyfer ein swyddogaeth rheoleiddio a gosod isod.

| **31 Mawrth 2022** | **Gwaith rheoleiddio a gosod safonau** |
|---|---|
| | **£'000** |
| Costau gweithredu | 4,490 |
| Incwm gweithredol | (4,720) |
| **(Incwm) gweithredu net/gwariant** | **(230)** |

4.144 Mae’r wybodaeth hon wedi ei harchwilio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

### *Achosion adran 29*

4.145 Gall y maes hwn o'n gwaith amrywio gryn dipyn ac felly mae'n anodd ei ragweld. Mae nifer o achosion yn cymryd dipyn o amser o'r dyddiad pan wneir cwyn i pan fyddant yn dod i'r Awdurdod, felly nid dim ond faint o waith a dderbynnir gan reoleiddiwr sydd angen ei ystyried, ond hefyd yr amser a gymer i'w prosesu sy'n dylanwadu ar lwyth gwaith yr Awdurdod.

4.146 Eleni rydym wedi gweld rhywfaint o gynnydd o 6% yn y nifer o benderfyniadau achosion addasrwydd i ymarfer gan y rheolyddion (2,137 yn 2021/22 o gymharu â 2,019 yn 2020/21). Yn ystod 2021/22 gofynnom am ragor o wybodaeth a chynnal adolygiadau achos manwl mewn 101 o achosion. I gymharu, fe gyflawnom 75 adolygiad achos manwl yn 2020/21.

4.147 Er ei bod yn ymddangos bod y llwyth achosion yn parhau i fod yn is nag yn y blynyddoedd cyn-bandemig, gall y niferoedd amrywio ac rydym yn arbennig o ymwybodol bod y pandemig wedi cael effaith sylweddol ar nifer yr achosion a glywyd gan y rheolyddion a bod ôl-groniad yn cronni, felly mae niferoedd yn debygol o gynyddu yn y blynyddoedd i ddod. Rydym yn adolygu lefelau staffio yn gyson, ac yn ystod cyfnodau arbennig o brysur, mae gennym drefniadau ar-alwad yn eu lle gyda'n darparwyr cyfreithiol allanol i sicrhau ein bod yn parhau i fodloni ein dyddiadau cau statudol. Rydym hefyd yn ceisio sicrwydd allanol o’n penderfyniadau i gau achosion , ble mae hyn yn ymddangos i fod yn briodol.

### *Newidiadau i'n deddfwriaeth*

4.148 Mae posibiliad y gallai newidiadau i ddeddfwriaeth effeithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar ein gwaith. Byddai cyflwyno newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth naill ai i ni neu'r rheolyddion yn gofyn am ddadansoddiad ac ystyriaeth. Mae yna gynigion ar gyfer newidiadau i reoleiddio gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol, ond nid yw'r rhain wedi eu datblygu i gyflwr fyddai'n galluogi'r Awdurdod i ystyried yr effaith ar ein gwaith neu wariant ar hyn o bryd.

4.149 Gan dybio fod ein llwyth gwaith yn dal yn gyson gyda'r flwyddyn gyfredol, nid ydym yn rhagweld newidiadau arwyddocaol i'n gwariant.


4.150 Wrth ysgrifennu hyn, rwy'n hyderus iawn ynghylch gallu’r Awdurdod , i barhau fel busnes gweithredol ar gyfer y dyfodol rhagweladwy. Mae’r holl ffioedd gan y 10 rheoleiddiwr statudol ar gyfer 2022/23 wedi eu talu, sy'n cynrychioli oddeutu 90% o’r incwm disgwyliedig ar gyfer y flwyddyn. Mae'r rhaglen cofrestrau achrededig yn

gyfrifol am ddim ond 10% o incwm yr Awdurdod. Ar hyn o bryd mae gan yr Awdurdod gronfeydd anghyfyngedig o oddeutu £650,000.

4.151 Mae’r Awdurdod yn parhau i gyflawni ei swyddogaethau statudol. Y newid mwyaf arwyddocaol yn ystod 2022/23 fydd amrywiaethau yn y nifer o achosion addasrwydd i ymarfer a ddaw gan y rheolyddion. Efallai y bydd yna newidiadau i amseriad a chwmpas adolygiadau perfformiad ar gyfer rhai rheolyddion yn ystod y flwyddyn, oherwydd llwyth gwaith y rheolyddion. Fodd bynnag ar hyn o bryd, rwy'n rhagweld y byddwn yn cwblhau’r holl adolygiadau sydd ar y gweill o fewn y flwyddyn fusnes.

4.152 Mae’r Awdurdod wedi symud yn llwyddiannus i weithio o bell yn ystod y pandemig Covid-19. Nid yw gweithio o bell wedi cael effaith hanfodol ar gynhyrchiant. Ym mis Medi 2021 fe wnaethom ddychwelyd i'r swyddfa a chyflwyno ein Polisi Gweithio Hybrid sy'n gweithio'n effeithiol.

4.153 Yn olaf, nid wyf yn disgwyl unrhyw newidiadau polisi na deddfwriaeth arwyddocaol a fydd yn effeithio ar allu'r Awdurdod i barhau fel busnes gweithredol dros y 12 mis nesaf.



Alan Clamp,

Swyddog Cyfrifyddu

15 Mehefin 2022

# 5. Tystysgrif AC Adroddiad y Rheolwr Ac Archwilydd Cyffredinol I'r Senedd, Senedd Yr Alban, Cynulliad Gogledd Iwerddon A Senedd Cymru

## Barn ar ddatganiadau ariannol

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol am y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2022 o dan Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y canlynol gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol:

- Datganiad Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2022;
- Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr, Datganiad Llif Arian Parod a Datganiad Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a'r
- nodiadau cysylltiedig gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu arwyddocaol.

Y gyfraith berthnasol a'r Safonau Adrodd Cyfrifyddu Rhyngwladol fel y'u mabwysiadwyd gan y DU yw'r fframwaith adrodd cyllidol a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi adlewyrchiad gwir a theg o gyflwr yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar 31 Mawrth 2022 ac o'i Incwm Cynhwysfawr net am y flwyddyn ddaeth y ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â Deddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 a chyfarwyddiadau'r Cyfrin Gyngor a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf honno.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, mae'r incwm a'r gwariant a adroddwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

## Y sail i'r farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (SARh DU), y gyfraith berthnasol a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig. Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu hegluro ymhellach yn adran *Cyfrifoldebau'r archwilydd wrth archwilio datganiadau ariannol* yn fy adroddiad.

Mae'r safonau hynny yn gofyn fy mod i a fy staff yn cydymffurfio â Safon Foesegol Ddiwygiedig 2019 y Cyngor Adrodd Ariannol. Rwyf hefyd wedi dewis cymhwyso'r safonau moesegol sy'n berthnasol i endidau rhestredig. Wrth gymhwyso'r Safon Foesegol nodais berthynas fusnes rhwng y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Datgelir rhagor o fanylion yn Nodyn 4 i'r

Cyfrifon. Mae'r refeniw a dderbynnir yn amherthnasol i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, ac rwyf o'r farn bod mesurau diogelu priodol wedi'u rhoi ar waith i ddiogelu fy ngwrthrychedd i, a thîm y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, drwy gydol yr archwiliad. Rwy'n annibynnol ar yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i fy archwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Credaf fod y dystiolaeth archwilio sydd wedi dod i law yn ddigonol ac yn briodol i roi sail i fy marn.

## Casgliadau'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi casglu bod defnydd yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol o gyfrifo ar sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith rwyf wedi'i wneud, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg y mae'r datganiadau ariannol wedi'u hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifo mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

Mae'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu ar gyfer yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cael ei mabwysiadu o ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Llywodraeth Trysorlys EM, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle'r oedd yn rhagweld y bydd y gwasanaethau y maent yn eu darparu yn parhau i'r dyfodol.

## Gwybodaeth Arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth sy'n cael ei chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol ond nid y datganiadau ariannol a fy nhystysgrif archwilio wedi hynny. Y Swyddog Cyfrifo sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall.

Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn ymdrin â'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir yn benodol yn fy nhystysgrif, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicr arni.

Mewn cysylltiad â fy archwiliad ar y datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb yw darllen y wybodaeth arall ac o wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn faterol anghyson gyda'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth sydd gennym drwy'r archwiliad neu'n ymddangos mewn ffordd arall ei bod wedi ei chamddatgan.

Os byddaf yn adnabod anghysonderau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol, mae gofyn i mi benderfynu a ydy hyn wedi arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os dof i'r casgliad, ar sail y gwaith yr wyf wedi ei wneud, bod camddatganiad perthnasol o'r wybodaeth arall hon, mae gofyn i mi adrodd am y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i’w adrodd yn hyn o beth.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i , mae'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiau’r Cyfrin Gyngor a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod yr archwiliad:

- mae'r rhan o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiau’r Cyfrin Gyngor a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002.
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiadau Perfformiad, Dangosyddion Perfformiad Allweddol a’r Adroddiad gwaith ac Atebolrwydd Rheoleiddio a Gosod Safonau ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratoir y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

## Materion rwy'n adrodd arnynt fel eithriad

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth am yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Perfformiad, Dangosyddion Perfformiad Allweddol, Adroddiad Gwaith ac Atebolrwydd Rheoleiddio a Gosod Safonau. Nid oes dim gennyf i’w adrodd o ran y materion canlynol, rwyf yn eu hadrodd wrthych os, yn fy marn i:

- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a’r esboniadau sy’n ofynnol gennyf ar gyfer fy archwiliad; neu
- nad oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, neu nid oes ffurflenni digonol ar gyfer fy archwiliad wedi'u derbyn gan ganghennau nad ymwelwyd â nhw gan fy nhîm; neu
- nad yw’r datganiadau ariannol a’r rhannau o’r Adroddiad Atebolrwydd sy’n destun archwiliad yn cyd-fynd â’r cofnodion cyfrifo a’r adroddiadau; neu
- na wnaed datgeliadau penodol o gydnabyddiaeth ariannol a bennir gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol Llywodraeth Trysorlys EM neu nad yw rhannau o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff sydd i'w harchwilio yn cytuno â'r cofnodion cyfrifyddu a'r ffurflenni; neu
- nad yw’r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu y cydymffurfiwyd â chanllawiau Trysorlys EM.

## Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifo ar gyfer y datganiadau ariannol

Fel yr esbonir yn llawnach yn Natganiad Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifo, mae'r Swyddog Cyfrifo yn gyfrifol am:

- gadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi'r datganiadau ariannol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg;

- sicrhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r cyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy;
- sicrhau bod rheolaethau mewnol fel y mae'r Swyddog Cyfrifo yn penderfynu eu bod yn angenrheidiol er mwyn galluogi paratoi datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad; ac
- asesu gallu'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail busnes gweithredol cyfrifyddu oni bai bod y Swyddog Cyfrifo yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

## Cyfrifoldebau'r archwilydd wrth archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002.

Fy nod yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn gyffredinol yn rhydd rhag unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed trwy dwyll neu gamgymeriad, ac i gyflwyno tystysgrif sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad sy'n cael ei gynnal yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddigwydd oherwydd twyll neu wall a chânt eu hystyried yn sylweddol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellir disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed ar sail y datganiadau ariannol hyn.

## I ba raddau yr ystyriwyd bod yr archwiliad yn gallu canfod diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau gan gynnwys twyll

Rwy'n cynllunio gweithdrefnau yn unol â fy nghyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas â diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll. Mae'r graddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll, i'w gweld isod.

## Nodi ac asesu risgiau posibl sy'n gysylltiedig â pheidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll

Wrth nodi ac asesu risgiau camddatganiad perthnasol mewn perthynas â pheidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll, ystyriwyd y canlynol:

- natur y sector, yr amgylchedd rheoli a pherfformiad gweithredol gan gynnwys dyluniad polisïau cyfrifyddu, dangosyddion perfformiad allweddol a chymhellion perfformiad yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol.
- holi'r rheolwyr, pennaeth Archwilio Mewnol yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol yn ymwneud â pholisïau a

gweithdrefnau'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol o ran:

  - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth;
  - canfod ac ymateb i risgiau twyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a'r
  - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau gan gynnwys rheolaethau'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol mewn perthynas â Deddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 a Rheoliadau'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ffioedd) 2015; a

- thrafod ymhlith y tîm ymgysylltu ynghylch sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion twyll posibl.

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, ystyriais y cyfleoedd a'r cymhellion a allai fodoli o fewn yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyfer twyll a nodais y potensial mwyaf ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: cydnabod refeniw, postio cofnodion anarferol, trafodion cymhleth a rhagfarn mewn amcangyfrifon rheoli. Yn yr un modd â phob archwiliad o dan SARh (DU), mae hefyd yn ofynnol i mi gyflawni gweithdrefnau penodol i ymateb i'r risg o reolaethau'n cael eu diystyru gan reolwyr.

Cefais ddealltwriaeth hefyd o fframwaith awdurdod yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar symiau a datgeliadau perthnasol yn y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Roedd y cyfreithiau a'r rheoliadau allweddol a ystyriais yn y cyd-destun hwn yn cynnwys Deddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, Rheoliadau'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ffioedd)

2015, cyfraith cyflogaeth, deddfwriaeth pensiynau a deddfwriaeth treth.

Yn ogystal, ystyriais a ydy'r yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi adrodd ei wariant yn briodol rhwng ei waith rheoleiddio a safonau (y mae'n derbyn ffioedd ar ei gyfer gan y deg corff rheoleiddio) a'i feysydd gweithgarwch eraill.

## Ymateb archwilio i risgiau a nodwyd

O ganlyniad i gyflawni'r uchod, roedd y gweithdrefnau a weithredais i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau y datganiadau ariannol a phrofi dogfennaeth ategol i asesu cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod fel rhai a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol;
- holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a Risg ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;

- darllen ac adolygu cofnodion cyfarfodydd y rhai fu’n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd ac adroddiadau archwilio mewnol;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll drwy reolwyr yn diystyru rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o duedd bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs busnes arferol; a
- phrofi a oedd gwariant wedi'i gofnodi'n gywir fel gwariant cyfyngedig yn gysylltiedig â gwaith rheoleiddio a safonau neu wariant anghyfyngedig yn gysylltiedig â meysydd gweithgarwch eraill.

Cyfleais hefyd gyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau twyll posibl i holl aelodau'r tîm archwilio gan barhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae disgrifiad pellach o fy nghyfrifoldebau dros archwilio’r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy nhystysgrif.

## Cyfrifoldebau archwilio eraill

Mae'n ofynnol i fi gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod yr incwm a'r gwariant a adroddwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli

Rwyf yn cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, gwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio sylweddol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

## Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

## Cyfieithiad Cymraeg

Rwyf wedi ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol hyn yn eu ffurf wreiddoil. Mae’r fersiwn hon yn gyfieithiad o’r fersiwn Saesneg wreiddiol. Mae Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad hyn.

**Gareth Davies**

**Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol**

Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria, Llundain
SW1W 9SP

**Dyddiad**

17 Mehefin 2022

# Datganiadau Ariannol

**6. Datganiadau ariannol – datganiad o wariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022**

| | Nodyn | | 2021/22 £'000 | | 2020/21 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| ***Gwariant*** | | | | | |
| Costau staff | 3 | | 3,469 | | 3,494 |
| Costau gweinyddol eraill | 4 | | 1,483 | | 1,449 |
| ***Incwm*** | | | | | |
| Incwm Ffioedd | 5 | | (4,515) | | (4,394) |
| Incwm gweithredol | 6 | | (724) | | (535) |
| **Cost gweithredu net / (incwm)** | | | **(287)** | | **14** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 72 i 91 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn

**Gwariant net cynhwysfawr arall**

6.1 Nid oedd unrhyw wariant net cynhwysfawr arall yn y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 (dim yn y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021)

## 7. Datganiadau ariannol – datganiad o'r sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2022

| | | 31 Mawrth 2022 | | 31 Mawrth 2021 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nodyn | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Asedau nad ydynt yn gyfredol** | | | | | |
| Asedau anniriaethol | 7 | 111 | | 161 | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 8 | 49 | | 65 | |
| ***Cyfanswm asedau nad ydynt yn gyfredol*** | | | ***160*** | | ***226*** |
| | | | | | |
| **Asedau cyfredol** | | | | | |
| Masnach ac elfennau derbyniadwy eraill | 9 | 247 | | 250 | |
| Buddsoddiadau | 10 | 750 | | 0 | |
| Arian parod a chyfatebol i arian parod | 11 | 6,810 | | 6,757 | |
| ***Cyfanswm asedau cyfredol*** | | | ***7,807*** | | ***7,007*** |
| **Cyfanswm Asedau** | | | **7,967** | | **7,233** |
| | | | | | |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | | | |
| Masnach ac elfennau taladwy eraill | 12 | (5,389) | | (4,942) | |
| Darpariaethau | 13 | (10) | | (10) | |
| ***Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol*** | | | ***(5,399)*** | | ***(4,952)*** |
| | | | | | |
| **Asedau llai'r rhwymedigaethau** | | | **2,568** | | **2,281** |
| | | | | | |
| **Cronfeydd** | | | | | |
| Cronfa wrth Gefn Gyffredinol | | | **2,568** | | **2,281** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 72 i 91 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn

Alan Clamp
Swyddog Cyfrifyddu, 15 Mehefin 2022

## 8. Datganiadau ariannol – datganiad o lif arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022

| | Nod yn | 2021/22 | 2020/21 |
|---|---|---|---|
| | | **£'000** | **£'000** |
| **Llif arian o weithgareddau gweithredol** | | | |
| (Costau)/incwm gweithredu net ar gyfer y flwyddyn | | 287 | (14) |
| Addasiad ar gyfer trafodion heb fod yn arian parod | 4 | 90 | 81 |
| Lleihad/(cynnydd) mewn masnach a derbynion eraill | 9 | 3 | 274 |
| Cynnydd/(lleihad) mewn masnach ac elfennau taladwy eraill | 12 | 447 | 218 |
| Cynnydd/(Lleihad) mewn darpariaethau | 13 | - | - |
| ***Mewnlif (all-lif) arian net o weithgareddau gweithredol*** | | ***827*** | ***559*** |
| | | | |
| **Llifoedd arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Pryniant eiddo, cyfarpar, offer ac eitemau anniriaethol | 7,8 | (24) | (57) |
| Buddsoddiadau | 10 | (750) | 750 |
| ***Mewnlif (all-lif) arian net o weithgareddau buddsoddi*** | | ***(774)*** | ***693*** |
| | | | |
| **Llif arian parod o weithgareddau ariannu** | | | |
| ***Cyllid DHSC*** | | ***0*** | ***162*** |
| ***Llif arian net o weithgareddau ariannu*** | | ***0*** | ***162*** |
| ***Ariannu net*** | | | |
| **Cynnydd/(lleihad) net mewn arian a chyfatebol i arian** | 11 | 53 | 1,414 |
| Arian a chyfatebol i arian ar ddechrau'r flwyddyn ariannol | 11 | 6,757 | 5,343 |
| **Arian parod a chyfatebol i arian parod ar ddiwedd y cyfnod ariannol** | 11 | **6,810** | **6,757** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 72 i 91 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn

## 9. Datganiadau ariannol – datganiad o newidiadau yn ecwiti'r trethdalwr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022

| | Nodyn | Cronfa wrth gefn gyffredinol |
|---|---|---|
| | | **£'000** |
| **Balans ar 1 Ebrill 2020** | | **2,133** |
| | | |
| **Newidiadau mewn cronfeydd yn y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2021** | | |
| **(Costau)/incwm gweithredu net** | | (14) |
| **Cyllid DHSC** | | 162* |
| | | |
| **Balans ar 31 Mawrth 2021** | | **2,281** |
| | | |
| **Newidiadau mewn cronfa wrth gefn yn y flwyddyn ddaeth i 31 Mawrth 2022** | | |
| | | |
| **(Costau)/incwm gweithredu net** | | 287 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2022** | 14 | **2,568** |

* **Cyllid DHSC ar gyfer cymhorthdal Cofrestrau Achrededig**

Mae'r nodiadau ar dudalennau 72 i 91 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn

## 10. Nodiadau ar y cyfrifon

### 1. Polisïau cyfrifo

**Sail paratoi**

10.1 Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi eu paratoi yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM) 2021/22 a gyhoeddir gan Drysorlys EM.

10.2 Mae'r polisïau cyfrifo sydd wedi eu cynnwys yn y FReM yn cymhwyso'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'i haddaswyd neu dehonglwyd ar gyfer cyd-destun sector cyhoeddus y Deyrnas Unedig.

10.3 Ble fo'r FReM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifo, dewiswyd y polisi cyfrifo a fernir i fod fwyaf priodol i amgylchiadau penodol yr Awdurdod i'r diben o roi golwg wir a theg.

10.4 Disgrifir y polisïau penodol a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod ar gyfer y cyfnod adrodd isod. Maent wedi eu gweithredu yn gyson wrth ddelio ag eitemau yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

### Dyfarniadau cyfrifo critigol a ffynonellau allweddol ansicrwydd amcangyfrif

10.5 Wrth gymhwyso polisïau cyfrifo'r Awdurdod, rhaid i reolwyr wneud dyfarniadau, amcangyfrifon a thybiaethau ynglŷn â chario symiau o asedau ac atebolrwydd nad ydynt yn amlwg o ffynonellau eraill.

10.6 Mae’r amcangyfrifon a thybiaethau cysylltiedig yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill a ystyrir i fod yn berthnasol.

10.7 Efallai y bydd y gwir ganlyniadau yn wahanol i’r amcangyfrifon hynny. Adolygir yr amcangyfrifon a’r tybiaethau sylfaenol yn barhaus.

10.8 Cydnabyddir adolygiadau i’r amcangyfrifon cyfrifo yn y cyfnod pan adolygir yr amcangyfrif os yw’r adolygiad yn effeithio ar y cyfnod hwnnw yn unig, neu yng nghyfnod yr adolygiad a chyfnodau yn y dyfodol sy’n adlewyrchu cyfnodau presennol ac yn y dyfodol.

10.9 Yn ystod blwyddyn 2021/22 gwnaed dau ddyfarniad rheoli. Roedd y cyntaf yn ymwneud â’r newid mewn cydnabyddiaeth incwm ar gyfer y strwythur ffioedd Cofrestrau Achredediq newydd (gweler nodyn 10.39); yr ail oedd bod y newidiadau i swyddogaeth y Cofrestrau Achredediq gan gynnwys y strwythur ffioedd diwygiedig, cyflwyno prawf budd y cyhoedd a symud i broses 3 blynedd yn seiliedig ar risg yn golygu bod y swyddogaeth Cofrestrau Achredediq yn wahanol o ran sylwedd i’r hyn a oedd ar waith yn flaenorol ac felly nid yw’n gyfystyr â newid yn y polisi cyfrifyddu fesul IAS 8.

### Asedau anniriaethol

#### *Asedau anghyffwrddadwy ac eraill a grëwyd yn fewnol*

10.10 Cydnabyddir unrhyw ased anghyffwrddadwy ac eraill a grëwyd yn fewnol o weithgareddau a gwariant yr Awdurdod pan fydd yr holl amodau canlynol wedi eu bodloni:

- Crëir ased y gellir ei hadnabod (megis meddalwedd neilltuol)
- Mae’n debygol y bydd yr ased a grëwyd yn creu manteision economaidd yn y dyfodol, h.y. mae gan yr Awdurdod reolaeth dros yr ased
- Gellir mesur cost (yn cynnwys cost datblygu) yr ased yn ddibynadwy.

10.11 Mesurir asedau annirweddol sefydlog yn gychwynnol ar gost ac yna eu prisio yn defnyddio cost amnewid wedi dibrisio neu a bennir i fod yn gyfwerth ar gyfer gwerth teg. Ar gyfer asedau anghyffwrddadwy gyda bywydau defnyddiol cyfyngedig, cyfrifir amorteiddiad er mwyn gallu dileu cost ased, llai ei werth gweddilliol a amcangyfrifir, dros ei fywyd economaidd defnyddiol.

- Adolygir cyfnod amorteiddiad a dull amorteiddiad ased anniriaethol yn ystod diwedd pob blwyddyn ariannol. Os yw oed defnyddiol disgwyliedig ased yn wahanol i amcangyfrifon blaenorol, bydd y cyfnod a dull amorteiddiad yn cael ei newid i adlewyrchu’r patrwm newydd.

### Asedau nad ydynt yn gyfredol

#### *Eiddo, offer a chyfarpar*

10.12 Cyfalafir asedau nad ydynt yn gyfredol ac eithrio meddalwedd cyfrifiadurol fel eiddo, peiriannau ac offer fel a ganlyn:

- Offer gyda gwerth unigol o £1,000, neu fwy
- Asedau mewn grŵp o natur debyg gyda gwerthu cytûn o £1,000 neu fwy
- Costau ailwampio gyda gwerth o £1,000 neu fwy.

10.13 Mae'r Awdurdod wedi mabwysiad IFRS 13 ac yn unol â FReM wedi pennu bod cost hanesyddol dibrisiedig yn ddewis amgen addas i werth cyfredol mewn defnydd cyfredol neu werth teg ble mae gan yr ased oes economaidd ddefnyddiol byr neu os yw o werth isel. Nid yw mynegeio wedi ei gymhwyso ers 31 Mawrth 2008 gan na fyddai hyn yn faterol. Bydd gwerthusiad asedau yn cael eu hadolygu yn flynyddol, ar ddyddiad pob datganiad o safle ariannol, i sicrhau bod y gwerth i'w gario yn adlewyrchiad teg o'r gost bresennol.

10.14 Darperir dibrisiant ar sail linol, wedi ei gyfrifo ar y swm a ddatgelwyd i ddileu asedau, llai unrhyw falans gweddilliol a amcangyfrifir, yn ystod eu bywyd defnyddiol sy'n weddill.

10.15 Mae bywydau defnyddiol asedau nad ydynt yn gyfredol wedi eu hamcangyfrif fel a ganlyn:

- Dodrefn a gosodiadau yn ystod gweddill tymor prydles y llety
- Offer cyfrifiadurol - tair blynedd.

10.16 Mae'r rhain yn darparu adlewyrchiad realistig o fywydau'r asedau.

10.17 Codir dibrisiant o'r mis pan gaffaelwyd yr ased.

**Buddsoddiadau**

10.18 Mae'r rhain yn adneuon tymor byr a gedwir gyda sefydliadau ariannol gyda dyddiad aeddfedu o dros dri mis ac yn ddim hirach na naw mis.

**Arian yn y banc a cyfatebol i arian parod**

10.19 Mae arian yn arian mewn llaw ac arian a gadwyd mewn unrhyw sefydliad ariannol gyda dyddiad aeddfedu o lai na thri mis.

**Cyllid cymorth grant a chronfa wrth gefn cyffredinol**

10.20 O 1 Awst 2015, nid oedd yr Awdurdod bellach yn cael ei ariannu trwy gymorth grant gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

10.21 Triniwyd refeniw cymorth grant a dderbynnir gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ac a ddefnyddiwyd i ariannu gweithgareddau a gwariant i gefnogi amcanion statudol ac eraill yr Awdurdod fel cyfraniad gan blaid lywodraethol gan arwain at ddiddordeb ariannol yn y llog gweddillol yn yr Awdurdod, ac felly fe roddir cyfrif ohono fel ariannu trwy eu credydu yn uniongyrchol i'r gronfa ganolog ar sail arian a dderbyniwyd.

10.22 Yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2022 ni dderbyniodd yr Awdurdod unrhyw gymhorthdal gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (£0.162m yn y flwyddyn 2020/21).

**Polisi wrth gefn**

10.23 Nid yw amseriad pennu ffioedd yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth yr Awdurdod ac os bydd unrhyw oedi wrth dderbyn yr incwm ffioedd, bydd yr Awdurdod yn wynebu

problemau llif arian a gallai fod yn anodd bodloni ei ofynion gwariant a dyletswyddau statudol.

10.24 Mae'r materion llif arian yn gysylltiedig i dderbyn yr incwm ffioedd. Os na chwblheir y broses ymgynghori mewn pryd gan y cyfrin gyngor er mwyn pennu erbyn dechrau Mawrth, yna bydd yr Awdurdod yn wynebu'r posibiliad o fod heb incwm ar ddechrau'r flwyddyn ariannol.

10.25 Efallai y bydd rhaid i'r Awdurdod hefyd ddelio â diffygion ariannol yn deillio yn codi yn ystod y flwyddyn ariannol. Rhaid amcangyfrif y gyllideb ar gyfer unrhyw flwyddyn benodol cyn cychwyn yr ymarfer ymgynghori, a gan ei fod yn broses maith rhaid cychwyn yn gynnar yn y flwyddyn flaenorol, felly gall fod amgylchiadau pan fydd rhaid i'r Awdurdod daclo gwariant annisgwyl yn ystod y flwyddyn wedi pennu'r ffi, er enghraifft, costau'n deillio o gynnydd yn ei lwyth gwaith, yr angen i gyflawni ymchwiliad neu newidiadau i ddeddfwriaeth.

10.26 Er bod gan yr Awdurdod y pŵer i ymgynghori ar ffi atodol yn ystod y flwyddyn, mae'r amser y byddai hyn yn ei gymryd yn ei wneud yn anymarferol o ran ymdrin â materion o'r fath. Golyga ceisio ffioedd atodol hefyd y byddai gofyn i'r rheolyddion ddarparu cyllid nad oeddynt wedi cyllidebu ar ei gyfer, gan arwain at bwysau ar eu cyllidebau eu hunain.

10.27 I ddarparu ar gyfer uchafbwyntiau gwariant annisgwyl a diffygion llif arian, ac i leihau'r posibiliad o fod angen casglu ffioedd atodol, mae'r Bwrdd wedi cytuno y dylai'r Awdurdod gadw lefel a gytunir o gronfeydd cyllid, a fyddai'n ddigonol i sicrhau y gall ddal i weithredu ie swyddogaethau statudol.

10.28 Bydd cael cronfeydd y gellir eu defnyddio hefyd yn diddymu'r angen i dalu ffioedd trefnu a lles ar unrhyw arian a fenthycwyd.

10.29 Mae'r Awdurdod wedi cytuno i gadw cronfeydd o gyfanswm o dri mis o gostau gweithredu, sef tua £1.244 miliwn, ble mae'r gwahaniaeth rhwng y canlynol wedi ei nodi:

- Elfen gyfyngedig yn gysylltiedig i waith rheoleiddio a safonau
- Elfen anghyfyngedig yn gysylltiedig i holl waith yr Awdurdod.

10.30 Y bwriad yw, gydag amser, bydd yr elfen gyfyngedig yn cyfateb i gyfanswm o ddau fis o gostau gweithredu.

10.31 Bydd lefel a lluniad ein cronfeydd yn cael eu hadrodd trwy ein Hadroddiad Blynyddol.

10.32 Bydd angen rhoi unrhyw arian a gymerir o'r cronfeydd yn ystod y flwyddyn sy'n ei leihau i lai na'r isafswm gofynnol yn ôl yn y flwyddyn neu flynyddoedd dilynol.

10.33 Os bydd angen galw am ddefnyddio elfen gyfyngedig y cronfeydd, byddwn yn adrodd am hyn i'r rheolyddion ar bwynt priodol.

**Incwm ffioedd**

10.34 Mae'r FReM yn ymestyn y diffiniad o gontract o fewn IFRS 15 Incwm o gontractau gyda chwsmeriaid i gynnwys deddfwriaeth (Rheoliadau Ffioedd 2015) sy'n galluogi'r Awdurdod i dderbyn arian parod neu asedau ariannol eraill. Mae ffioedd a dderbynnir gan y 10 corff statudol yn cael eu cydnabod dros amser h.y. dros y flwyddyn ariannol a ddynodwyd yn y penderfyniad ffioedd blynyddol. Mae'r ffioedd hyn, sydd fel arfer yn cael eu derbyn cyn cychwyn y cyfnod ariannol maent yn

berthnasol iddynt, yn cael eu cydnabod fel incwm gohiriedig (atebolrwydd contract) tan bydd y rhwymedigaethau perfformiad dros amser wedi eu cyflawni. Bydd unrhyw warged yn cael ei ystyried wrth gyfrifo cyfraddau ffioedd yn y dyfodol i'r fath raddau nad yw'n angenrheidiol i gynnal lefel briodol o gronfa wrth gefn yn unol â pholisi wrth gefn yr Awdurdod.

**Incwm gweithredol**

10.35 Mae’r incwm gweithredu yn cynnwys: Adferiadau costau achosion Adran 29; llog a dderbyniwyd o fuddsoddiadau incwm eiddo a dderbyniwyd gan is-denantiaid; ffioedd a dderbyniwyd o ddarparu gwasanaethau i aelodau eraill y gymuned rheoleiddio iechyd; a ffioedd achredu a dderbyniwyd gan ymgeiswyr y sector wirfoddol sydd eisiau cael eu hachredu.

10.36 Mae incwm eiddo a dderbyniwyd gan is-denantiaid yn incwm a dderbyniwyd o isosod eiddo'r Awdurdod. Mae’r rhain yn daladwy yn llawn ar ddechrau’r cyfnod isosod. Cydnabyddir incwm yn fisol yn ystod tymor y brydles yn unol ag IAS 17.

10.37 Cydnabyddir incwm a dderbyniwyd o’r contractau ar gyfer comisiwn i lywodraeth a chyngor i sefydliadau eraill yn unol â’r broses pum cam o fewn IFRS 15 pan fydd goblygiadau perfformiad pob contract unigol wedi eu bodloni. Mae incwm o'r contractau hyn naill ai'n cael ei gydnabod yn llawn ar y pwynt hwnnw mewn amser e.e. cyflwyno’r adroddiad terfynol dros amser gan fod y costau yn codi le mae’r contract yn dynodi y bydd y cwsmer yn atebol am yr holl gostau tan y dyddiad terfynu. Mae cydnabyddiaeth incwm yn ystod y cyfnod yn seiliedig ar gostau staff a gwariant uniongyrchol sy'n codi ac wedi ei gydnabod yn y cyfrifon. Dyma yw costau cyflawni'r gwaith. Yn gyffredinol fe dderbynnir taliadau cyn y bodlonir rhwymedigaethau perfformiad ac felly mae’r rhain yn cael eu cydnabod fel incwm gohiriedig ac fel incwm wedi bodloni rhwymedigaethau perfformiad.

10.38 Mae incwm cofrestrau achrededig yn cynnwys ffioedd achredu sefydlog ar gyfer cofrestrau newydd na ellir eu had-dalu, sy’n daladwy pan fydd dogfennau cais wedi eu cyflwyno i’r Awdurdod, a ffioedd adnewyddu, sy’n daladwy cyn daw blwyddyn yr achrediad i ben. Cydnabyddir incwm o ffioedd ceisiadau cychwynnol yn y datganiad cost gweithredu ar bwynt penderfyniad achredu'r Awdurdod yn unol ag IFRS 15 a chydnabuwyd incwm o ffioedd adnewyddu ar adeg y penderfyniad adnewyddu achrediad.

10.39 Rhoddwyd y model ffioedd newydd ar waith ar 1 Gorffennaf fel rhan o newidiadau ehangach i swyddogaeth y Cofrestrau Achrededig; ac mae'n cynnwys proses asesu ac achredu tair blynedd newydd yn seiliedig ar risg. Mae incwm o ffioedd adnewyddu bellach yn cael ei gydnabod yn y datganiad cost gweithredu dros amser h.y. dros y flwyddyn ariannol (9 mis yn 2021/22), gan fod y rhwymedigaeth perfformiad bellach yn cael ei chyflawni dros amser yn unol ag IFRS 15. Mae'r ffioedd hyn, a dderbynnir fel arfer cyn dechrau'r cyfnod ariannol y maent yn ymwneud ag ef, yn cael eu cydnabod fel incwm gohiriedig (rhwymedigaeth contract) hyd nes y cyflawnir y rhwymedigaeth perfformiad dros amser.

**Costau ac adferiadau Adran 29**

10.40 Dan ei rymoedd Adran 29, gall yr Awdurdod apelio i’r Uchel Lys yn erbyn penderfyniad disgyblu rheoleiddiwr. Codir costau'r Awdurdod wrth weithred apeliadau Adran 29 ar y datganiad gwariant net cynhwysfawr ar sail croniadau.

10.41 O ganlyniad i farnwriaeth a wneir gan y Llysoedd, gellir dyrannu costau i'r Awdurdod os yw'r achos yn llwyddiannus, neu gellir dyrannu costau yn erbyn yr Awdurdod os collir yr achos. Ble dyrannir costau i, neu yn erbyn, yr Awdurdod, gellir diddymu neu leihau'r rhain yn hwyrach o ganlyniad i apêl lwyddiannus naill ai gan yr amddiffynnydd neu'r Awdurdod. Cyn ystyried naill ai incwm neu wariant, mae'r Awdurdod yn ystyried canlyniad tebygol pob achos yn ôl ei rinweddau felly.

10.42 Os dyrannir costau'r achos i'r Awdurdod, ni ddaw'r incwm i gyfrif oni bai bod dyfarniad terfynol diwrthwynebiad o blaid yr Awdurdod neu gytundeb rhwng pleidiau o'r gyfradd o gostau fyd yn cael eu talu a'u cyflwyno i'r llysoedd ac mae setlo'r swm hwnnw wedi ei gytuno gan y ddau barti. Pan fydd achos wedi ei ennill ond y canlyniad terfynol yn dal yn amodol i apêl, a'i bod bron yn sicr y bydd yr achos cael ei ennill ar apêl a chostau'n cael eu dyfarnu i'r Awdurdod, fe ddatgelir ased amodol.

10.43 Yn achos costau a ddyrannir yn erbyn yr Awdurdod, cydnabyddir costau yn incwm a gwariant pan fydd dyfarniad diwrthwynebiad terfynol yn erbyn yr Awdurdod. Yn ogystal, os collwyd achos ond bod y canlyniad terfynol yn dal yn amodol i apêl, a'i bod yn debygol y bydd costau yn cael eu dyfarnu yn erbyn yr Awdurdod, cydnabyddir darpariaeth yn y cyfrifon. Ble'i bod yn bosibl ond nid yn debygol y bydd yr achos yn cael ei golli ar apêl ac y gallai'r Awdurdod fod yn amodol i gostau, datgelir atebolrwydd amodol.

**Dileu dyledion drwg Adran 29**

10.44 Mewn amgylchiadau prin pan fo'r Awdurdod yn ystyried bod ased Adran 29 yn anadferadwy (gallai hyn fod oherwydd cost ariannol a gweinyddol casglu neu resymau moesegol) bydd dyled yn cael ei dileu'n uniongyrchol yn y datganiad incwm yn y cyfnod pan fo'r Awdurdod wedi penderfynu peidio ceisio casglu.

**Treth ar Werth**

10.45 Ni ellir adfer treth ar werth (TAW) ar bwrcasau, felly mae'n gost yn y datganiad gwariant net cynhwysfawr ac wedi ei gynnwys dan y pennawd perthnasol i'r math o wariant, na'i gyfalafu os yw'n ymwneud ag ased.

**Costau budd-daliadau ymddeoliad**

10.46 Mae gweithwyr presennol a gorffennol wedi eu cynnwys yn narpariaethau Cynllun Pensiynau'r GIG. Mae'r cynllun yn gynllun budd-daliadau diffiniedig, di-nawdd sy'n cwmpasu gweithwyr y GIG, meddygfeydd a chyrff eraill, a ganiateir dan gyfarwyddyd yr Ysgrifennydd Gwladol, yng Nghymru a Lloegr. Ni fwriedir i'r cynllun gael ei redeg mewn unrhyw fodd fyddai'n galluogi cyrff y GIG i adnabod eu cyfran o'r asedau ac atebolrwydd sylfaenol y cynllun.

10.47 Felly, cyfrifir ar gyfer y cynllun fel pe bai'n gynllun cyfraniad diffiniedig; cymerir y gost i'r GIG o gymryd rhan yn y cynllun fel cyfartal i'r cyfraniadau sy'n daladwy i'r cynllun ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu.

10.48 Ar gyfer ymddeol yn gynnar, ac eithrio oherwydd salwch, ni ariennir y taliadau atebolrwydd pensiwn atodol gan y cynllun. Codir swm llawn yr atebolrwydd ar gyfer costau atodol i'r datganiad o wariant net cynhwysfawr ar yr un pryd ag y mae'r Awdurdod yn ymroi ei hun i ymddeoliad, waeth beth yw'r dull talu.

10.49 Disgwylir i gyfraniadau i'r cynllun ar gyfer y cyfnod adrodd blynyddol nesaf fod oddeutu £0.528m.

**Prydlesau gweithredu**

10.50 Rhoddir cost rhent sy'n daladwy dan brydlesau gweithredol ar y datganiad gwariant net cynhwysfawr ar sail gronnol.

**Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS), addasiadau a dehongliadau dan sylw ond nid eto'n effeithiol neu wedi eu mabwysiadu**

10.51 Mae Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol (IAS8), polisïau cyfrifo, newidiadau mewn amcangyfrifon a gwallau cyfrifyddu, yn gofyn am ddatgeliadau parthed IFRS newydd, addasiadau a dehongliadau sydd, neu a fydd yn berthnasol wedi'r cyfnod cyfrifyddu. Mae yna nifer o IFRSau, addasiadau a dehongliadau a gyhoeddir gan y Bwrdd Safonau Cyfrifo Rhyngwladol sy'n effeithiol ar gyfer datganiadau ariannol wedi'r cyfnod cyfrifo hwn. Nid yw'r canlynol wedi eu mabwysiadu'n gynnar gan yr Awdurdod:

- IFRS 17 a diwygiadau i IFRs 17 – Contractau yswiriant.
- Addasiadau i IAS 1- Dosbarthiad Atebolrwydd fel Cyfredol na Anghyfredol
- Addasiadau i IFRS 3 - Cyfeiriad at y Fframwaith Cysyniadol
- Addasiadau i IAS 16 - Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar — Elw cyn Defnydd Arfaethedig
- Addasiadau i IAS 37 - Contractau Beichus — Cost Cyflawni Contract
- Addasiadau i IAS 1 ac IFRS Datganiad Ymarfer 2 - Datgeliad o Bolisïau Cyfrifo
- Addasiadau i IAS 8 - Diffiniadau o Amcangyfrifon Cyfrifo
- Addasiadau i IFRS 16 - gostyngiadau Rhent Cysylltiedig i Covid-19 tu hwnt i 30 Mehefin 2021
- Diwygiadau i IAS12 - Treth Ohiriedig sy'n ymwneud ag Asedau a Rhwymedigaethau sy'n deillio o Drafodion Sengl.

10.52 O fis Ebrill 2022, bydd Prydlesi IFRS 16 yn disodli Prydlesi IFRS 17 ac IFRIC 4 gan benderfynu a yw trefniant yn cynnwys prydles a dehongliadau eraill. Mae Trysorlys EM wedi cadarnhau y bydd Prydlesi IFRS 16, fel y'u dehonglir ac y'u mabwysiadwyd gan FReM, yn dod i rym o 1 Ebrill 2022

10.53 Amcan IFRS 16 yw adrodd ar wybodaeth sy'n cynrychioli trafodion prydles yn ffyddlon a darparu sail i ddefnyddwyr datganiadau ariannol asesu'r swm, amseriad ac ansicrwydd llif arian sy'n deillio o brydlesi. Er mwyn bodloni'r amcan hwnnw, dylai prydleswr gydnabod asedau a rhwymedigaethau sy'n deillio o brydles. Ar gyfer prydleswyr, mae IFRS 16 yn dileu gwahaniaethau rhwng prydlesi gweithredu a phrydlesi cyllid. Caiff y rhain eu disodli gan fodel lle cydnabyddir ased hawl i ddefnyddio a rhwymedigaeth gyfatebol ar gyfer pob prydles, ac eithrio prydlesi tymor byr ac asedau gwerth isel.

10.54 Nid yw'r Awdurdod yn brydleswr canolradd mewn unrhyw drefniadau isbrydles materol ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

10.55 Cynhaliwyd adolygiad o gontractau i nodi unrhyw brydlesi a threfniadau cyfredol sy'n cynnwys les a ddelir ar 1 Ebrill 2022, a fydd yn dod yn asedau a rhwymedigaethau yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar y dyddiad hwn.

10.56 Bydd y pontio i IFRS 16 yn cael ei gwblhau yn unol â pharagraff C5 (b) y Safon, gan gymhwyso gofynion IFRS 16 yn ôl-weithredol gan gydnabod yr effeithiau cronnol ar ddyddiad y cais cychwynnol. Mae IFRS 16 yn newid y diffiniad o brydles o'i gymharu ag IAS 17 ac IFRIC 4. Bydd yr Awdurdod yn cymhwyso'r diffiniad hwn i brydlesi newydd yn unig ac yn sefydlu trefniant tad-cu ar gyfer asesiadau a wnaed o dan yr hen safonau ynghylch a yw trefniadau presennol yn cynnwys les.

10.57 Ar gyfer prydlesi gweithredu presennol gyda thymor prydles yn weddill o fwy na 12 mis a gwerth ased sylfaenol o leiaf £5,000, bydd rhwymedigaeth les yn cael ei chydnabod sy'n hafal i werth y taliadau prydles sy'n weddill wedi'i ddisgowntio ar drawsnewid ar gyfradd fenthyca gynyddrannol y sefydliad. Cyfradd fenthyca gynyddrannol yr Awdurdod a ddiffinnir gan Drysorlys EM ar hyn o bryd yw 0.95%. Bydd yr ased hawl i ddefnyddio cysylltiedig yn cael ei fesur yn gyfartal â'r rhwymedigaeth les wedi'i haddasu ar gyfer unrhyw daliadau prydles rhagdaledig neu gronedig. Bydd y gwahaniaeth rhwng gwerth yr ased a'r rhwymedigaeth les a gyfrifwyd yn cael ei gydnabod yn y gronfa incwm a gwariant wrth gefn wrth drosglwyddo.

10.58 Ar gyfer prydlesi sy'n dechrau yn 2022/23, ni fydd yr Awdurdod yn cydnabod ased hawl i ddefnyddio nac atebolrwydd prydles ar gyfer prydlesi tymor byr (llai na neu'n hafal i 12 mis) nac ar gyfer prydlesi asedau gwerth isel (llai na £5,000). Bydd asedau hawl i ddefnyddio'n cael eu mesur wedyn ar sail sy'n gyson ag asedau y maent yn berchen arnynt ac yn cael eu dibrisio dros gyfnod y brydles.

10.59 Mae'r Awdurdod wedi adolygu'r holl drefniadau presennol ac wedi asesu a oes prydles yn bodoli ac yn bwrw ymlaen â gweithredu IFRS 16 mewn modd amserol

10.60 Mae'r sefydliad wedi amcangyfrif effaith cymhwyso IFRS 16 yn 2022/23 ar y Datganiad o Sefyllfa Ariannol agoriadol a'r effaith yn ystod y flwyddyn ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ac ychwanegiadau cyfalaf fel a ganlyn:

| **Amcangyfrif o'r effaith ar ddatganiad o'r sefyllfa ariannol 1 Ebrill 2022** | **£000** |
|---|---|
| Asedau hawl i ddefnyddio ychwanegol a gydnabyddir ar gyfer prydlesi gweithredu presennol | 189 |
| Rhwymedigaethau prydles ychwanegol wedi'u cydnabod ar gyfer prydlesi gweithredu presennol | (187) |
| Newidiadau i eitemau llinell eraill y datganiad o'r sefyllfa ariannol [ac eithrio'r gronfa wrth gefn] | 0 |
| **Effaith net ar asedau net ar 1 Ebrill 2022** | **2** |
| **Amcangyfrif o'r effaith yn ystod y flwyddyn yn 2022/23** | **£000** |
| Dibrisiant ychwanegol ar asedau hawl i ddefnyddio | (189) |
| Costau cyllid ychwanegol ar rwymedigaethau prydles | (2) |
| Rhenti les nad ydynt bellach yn cael eu codi ar wariant gweithredu | 189 |
| Effaith arall ar incwm / gwariant [Os yw'r llinell hon yn berthnasol, dylid ychwanegu datgeliad pellach a/neu ddadgyfuno'r llinell hon] | 0 |
| **Amcangyfrif o'r effaith ar warged / diffyg yn 2022/23** | **(2)** |
| | |
| | |

| | |
|---|---|
| **Cynnydd amcangyfrifiedig mewn ychwanegiadau cyfalaf ar gyfer prydlesi newydd yn dechrau yn 2022/23** | **0** |

10.61 O ganlyniad i weithredu IFRS 16 nid yw effeithiau ar y SoFP/SocNE yn sylweddol

10.62 Mae trefniadau prydles presennol yr Awdurdod gyda'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol i fod i ddod i ben ar 31 Hydref 2022. Nid oedd unrhyw drefniadau prydles eraill wedi'u cadarnhau ar waith ar 31 Mawrth 2022

**Safonau cyfrifyddu a gyhoeddwyd sydd wedi eu mabwysiadu'n gynnar**

10.63 Nid yw'r Awdurdod wedi mabwysiadu unrhyw IFRSau, addasiadau na dehongliadau yn gynnar.

## 2. Dadansoddiad net o gostau/(incwm) gweithredu fesul segment

**Dadansoddiad segmentau**

10.64 Cododd costau/(incwm) gweithredu net i bedwar prif ffrwd gwariant yr Awdurdod fel a ganlyn. Nid yw'r Awdurdod yn cynnal datganiadau o safle ariannol ar wahân ar gyfer y ffrydiau hyn. Ni chafwyd unrhyw drafodion ar y cyd rhwng segmentau yn y flwyddyn.

| 2021/22 | Gwaith rheoleiddio a gosod safonau | Cofrestrau achrededig | Comisiynau gan Lywodraeth(au) | Cyngor i sefydliadau eraill | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Costau gweithredu | 4,490 | 462 | 0 | 0 | 4,952 |
| Incwm gweithredol | (4,720) | (519) | 0 | 0 | (5,239) |
| Costau/(incwm) gweithredu net | (230) | (57) | 0 | 0 | (287) |
| **2020/21** | **Gwaith rheoleiddio a gosod safonau** | **Cofrestrau achrededig** | **Comisiynau gan Lywodraeth(au)** | **Cyngor i sefydliadau eraill** | **Cyfanswm** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Costau gweithredu | 4,493 | 441 | 0 | 9 | 4,943 |
| Incwm gweithredol | (4,653) | (258) | 0 | (18) | (4,929) |
| Costau/(incwm) gweithredu net | (160) | 183 | 0 | (9) | 14 |

10.65 Disgrifir gwaith y segmentau gweithredu hyn yn yr adroddiad perfformiad.

### 3. Niferoedd staff a chostau cysylltiedig

Costau personau a gyflogir

| | Cyflogir yn barhaol | Arall | Cyfanswm 2021/22 | Cyflogir yn barhaol | Arall | Cyfanswm 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Cyflogau | 2,690 | - | 2,690 | 2,708 | - | 2,708 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 292 | - | 292 | 298 | - | 298 |
| Costau pensiynau | 465 | - | 465 | 436 | - | 436 |
| Costau asiantaeth/staff dros dro | - | 22 | 22 | - | 52 | 52 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 3,447 | 22 | 3,469 | 3,442 | 52 | 3,494 |

*Nifer cyfartalog y bobl a gyflogwyd*

10.66 Mae cyfartaledd y nifer o staff llawn amser a rhan amser a gyflogir (yn cynnwys staff dros dro) yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | Cyflogir yn barhaol | Arall | Cyfanswm 2021/22 | Cyflogir yn barhaol | Arall | Cyfanswm 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm | 42.75 | 0.33 | 43.08 | 41.10 | 0.35 | 41.45 |

## 4. Costau gweinyddol eraill

| | Nodiadau | 2021/22 | 2020/21 |
|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 |
| Tâl aelodau | | 112 | 104 |
| Ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol | | 432 | 396 |
| Eiddo a pheiriannau sefydlog | | 645 | 588 |
| Hyfforddiant a recriwtio | | 62 | 78 |
| AD, cyfathrebu a chynadleddau | | 15 | 79 |
| Costau sefydliadol | | 34 | 27 |
| Ffi archwiliad allanol | | 28 | 25 |
| Costau eraill | | 65 | 71 |
| **Cyfanswm** | | **1,393** | **1,368** |
| **Gwariant nad yw'n arian parod:** | | | |
| Amorteiddiad | 7 | 50 | 43 |
| Dibrisiant | 8 | 40 | 38 |
| **Cyfanswm gwariant nad yw'n arian parod** | | **90** | **81** |
| **Cyfanswm costau gweinyddol** | | **1,483** | **1,449** |

* Gwnaeth yr Awdurdod daliadau o £332,768.29 (£332,678.50 yn 2020/21) i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol am waith nad oedd yn waith archwilio parthed costau llety'r Awdurdod am ddefnydd o ofod swyddfa yn 157-197 Buckingham Palace Road, Llundain.

## 5. Incwm Ffioedd

| | 2021/22 | 2020/21 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Incwm Ffioedd gan y rheolyddion | 4,515* | 4,394 |
| **Cyfanswm** | **4,515** | **4,394** |

*Incwm ffioedd yn ymwneud â ffioedd statudol 2021/22. Ar gyfer incwm ffioedd yn ymwneud â 2022/23 disgwylir y bydd £4,559k yn cael ei gydnabod o fewn 2022/23.

10.67 Roedd incwm ffioedd a dderbyniwyd gan GMC (£845k), NMC (£1,982k) a HCPC (£781k) yn fwy na 10% o gyfanswm refeniw'r Awdurdod yn unigol. Telir y ffioedd yn unol â'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 a Rheoliadau'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ffioedd) 2015.

### 6. Incwm Gweithredu

| | **2021/22** | **2020/21** |
|---|---:|---:|
| | **£'000** | **£'000** |
| Adfer costau Adran 29 | 142 | 192 |
| Incwm cofrestrau achrededig | 519 | 258 |
| Cyngor i sefydliadau eraill | 0 | 18 |
| Incwm is-denantiaid | 63 | 62 |
| Incwm gweithredu arall | 0 | 5 |
| Comisiynau gan Lywodraeth | 0 | 0 |
| Cyfanswm Incwm Gweithredol | **724** | **535** |

## 7. Anniriaethol

| | Cronfa ddata Adran 29 ac Asedau anniriaethol eraill |
|---|---|
| | **£'000** |
| **Prisiad** | |
| Ar 1 Ebrill 2021 | 613 |
| Ychwanegiadau | - |
| Gwarediadau | (393) |
| Ar 31 Mawrth 2022 | 220 |
| | |
| **Amorteiddiad** | |
| Ar 1 Ebrill 2021 | 452 |
| Cost am y cyfnod | 50 |
| Gwarediadau | (393) |
| Ar 31 Mawrth 2022 | 109 |
| | |
| **Gwerth net yn y llyfrau** | |
| **Ar 31 Mawrth 2022** | 111 |
| Ar 31 Mawrth 2021 | 161 |
| | **Cronfa ddata Adran 29** |
| | **£'000** |
| **Prisiad** | |
| Ar 1 Ebrill 2020 | 586 |
| Ailddosbarthiadau | 2 |
| Ychwanegiadau | 25 |
| Ar 31 Mawrth 2021 | 613 |
| | |
| **Amorteiddiad** | |
| Ar 1 Ebrill 2020 | 409 |
| Cost am y cyfnod | 43 |
| Ar 31 Mawrth 2021 | 452 |
| | |
| **Gwerth net yn y llyfrau** | |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | 161 |
| Ar 31 Mawrth 2020 | 177 |

## 8. Eiddo, Peiriannau ac Offer

**Eiddo, Peiriannau ac Offer**

| | Dodrefn, gosodiadau a ffitiadau | Offer TG | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Prisiad** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2021 | 153 | 447 | 600 |
| Ychwanegiadau | 1 | 23 | 24 |
| Gwarediadau | - | - | - |
| Ar 31 Mawrth 2022 | 154 | 470 | 624 |
| | | | |
| **Dibrisiant** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2021 | 133 | 402 | 535 |
| Newid yn y cyfnod | 13 | 27 | 40 |
| Gwarediadau | - | - | - |
| Ar 31 Mawrth 2022 | 146 | 429 | 575 |
| | | | |
| | | | **Gwerth net yn y llyfrau** |
| **Ar 31 Mawrth 2022** | **8** | **41** | **49** |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | **20** | **45** | **65** |

Mae'r holl eiddo yn eiddo llwyr i'r Awdurdod heb unrhyw atebolrwydd ariannol cysylltiedig.

| | Dodrefn, gosodiadau a ffitiadau | Offer TG | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Prisiad** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2020 | 145 | 427 | 572 |
| Ychwanegiadau | 8 | 24 | 32 |
| Gwarediadau | - | (2) | (2) |
| Ailddosbarthiadau | | (2) | (2) |
| Ar 31 Mawrth 2021 | 153 | 447 | 600 |
| | | | |
| **Dibrisiant** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2020 | 131 | 368 | 499 |
| Newid yn y cyfnod | 2* | 36 | 38 |
| Gwarediadau | - | (2) | (2) |
| Ar 31 Mawrth 2021 | 133 | 402 | 535 |
| | | | |
| | | | **Gwerth net yn y llyfrau** |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | **20** | **45** | **65** |
| **Ar 31 Mawrth 2020** | **14** | **59** | **73** |

*yn cynnwys addasiad i ddod â'r holl ddibrisiant yn unol â pholisi.

## 9. Masnach ac elfennau derbyniadwy eraill

10.68 Symiau a ddaw yn ddyledus o fewn blwyddyn:

| | 31 Mawrth 2022 | 31 Mawrth 2021 |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Masnach ac elfennau derbyniadwy eraill | 53 | 45 |
| Rhagdaliadau | 194 | 205 |
| **Cyfanswm masnach a derbyniadwyon eraill** | **247** | **250** |
| | | |

10.69 Nid oes unrhyw symiau masnach nac asedau eraill sy'n daladwy wedi mwy na blwyddyn.

## 10. Buddsoddiadau

| | 31 Mawrth 2022 | 31 Mawrth 2021 |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Balans ar 1 Ebrill 2021 | 0 | 750 |
| Newid net mewn adneuon | 750 | (750) |

| | | |
|---|---|---|
| Balans ar 31 Mawrth 2021 | 750 | 0 |

10.70 Mae buddsoddiadau yn adneuon tymor byr yr ymrwymir iddynt gyda sefydliadau ariannol gyda dyddiad aeddfedu o fwy na thri mis a heb fod yn hwy na naw mis. Mae’r adneuon yn cydymffurfio gyda pholisi wrth gefn yr Awdurdod. Ar 31 Mawrth 2022 mae un adnau tymor byr wedi aeddfedu a bydd yn cael ei ail-fuddsoddi. Ar 31 Mawrth 2022 mae adneuon tymor byr wedi aeddfedu ac wedi cael eu hail-fuddsoddi yn 2022/23.

## 11. Arian parod a chyfatebol i arian parod

| | **2021/22** | **2020/21** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Balans ar 1 Ebrill | 6,757 | 5,343 |
| Newidiadau net mewn arian a chyfatebol i arian parod | 53 | 1,414 |
| **Gweddill ar 31 Mawrth** | **6,810** | **6,757** |
| *Roedd y balans canlynol wedi eu cadw yn:* | | |
| Gwasanaeth Bancio’r Llywodraeth | 50 | 198 |
| Banciau masnachol ac arian mewn llaw | 6,760 | 6,559 |
| **Gweddill ar 31 Mawrth** | **6,810** | **6,757** |

## 12. Masnach ac elfennau taladwy eraill

10.71 Symiau a ddaw yn ddyledus o fewn blwyddyn:

| | **31 Mawrth 2022** | **31 Mawrth 2021** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Masnach ac elfennau taladwy eraill | 30 | 18 |
| Trethu a nawdd cymdeithasol | 88 | 84 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 5,271** | 4,840* |
| ***Cyfanswm masnach a symiau taladwy eraill*** | ***5,389*** | ***4,942*** |

* Gwerth agoriadol atebolrwydd contract gyda chwsmeriaid. Cafodd hyn oll ei gydnabod fel incwm yn y flwyddyn gyfredol.
** Gwerthoedd cau atebolrwydd contract.

10.72 Nid oedd unrhyw symiau masnach taladwy nac atebolrwydd arall yn daladwy wedi mwy na blwyddyn.

## 13. Darpariaethau

| | **Darpariaethau** |
|---|---|
| | **£'000** |
| Balans ar 31 Mawrth 2021 | 10 |
| Yn codi yn ystod y cyfnod | - |
| Darpariaeth a ddefnyddiwyd | - |
| **Balans ar 31 Mawrth 2022** | **10** |

10.73 Mae'r ddarpariaeth gan CThEM ar 31 Mawrth 2022 yn cynrychioli atebolrwydd treth yr Awdurdod ar les a dderbyniwyd gan fuddsoddiadau banc.

### 14. Nodyn cronfeydd cyffredinol atodol

| | **Elfen Anghyfyngedig** Holl waith (Rheoleiddio a gosod safonau / cofrestrau Achrededig / Comisiynau gan Lywodraeth(au) / Cyngor i sefydliadau eraill) | **Elfen Gyfyngedig** (Gwaith rheoleiddio a gosod safonau) | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2021** | **605** | **1,676*** | **2,281*** |
| **Newidiadau mewn cronfeydd yn y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2022** | | | |
| Gwaith rheoleiddio a gosod safonau | - | 230 | 230 |
| Cofrestrau achrededig | 57 | | 57 |
| Comisiynau gan Lywodraeth(au) | - | | - |
| Cyngor i sefydliadau eraill | - | | - |
| **Addasiadau cyfrifo eraill** | | | |
| **Balans ar 31 Mawrth 2022** | **662** | **1,906*** | **2,568*** |

*Mae hyn yn cynnwys elfennau arian parod ac nid arian parod.

### 15. Asedau ac atebolrwydd amodol

**Asedau**

10.74 Cafodd un achos Uchel Lys ei gwblhau a gorchymyn y costau o blaid yr Awdurdod. Ni dderbyniwyd gorchymyn llys terfynol gan yr Awdurdod erbyn 31 Mawrth 2022 (un achos ar 31 Mawrth 2021).

**Rhwymedigaethau**

10.75 Roedd yna ddeg achos yn yr Uchel Lys, dan rymoedd Adran 29 yr Awdurdod, heb eu pennu ar 31 Mawrth 2022. Felly roedd ansicrwydd, ar y dyddiad hwnnw, o ran y canlyniad yr achosion a chanlyniadau ariannol cysylltiedig hyd nes y gwneir dyfarniad terfynol.

10.76 Gallai dyfarniad gan yr Uchel Lys ganiatáu adfer y costau hyn gan yr Awdurdod neu, godi tâl ar yr Awdurdod am gostau'r rheoleiddiwr a'i weithiwr cofrestredig. Mae'r Awdurdod yn ystyried ei bod yn bosibl ond nid yn debygol y bydd goblygiad o'r fath yn codi.

### 16. Ymrwymiadau cyfalaf

10.77 Nid oedd gan yr Awdurdod unrhyw ymrwymiadau cyfalaf ar ddyddiadau'r datganiad safle ariannol.

### 17. Ymrwymiadau dan brydlesau

**Prydlesau gweithredu**

10.78 Mae costau'r Awdurdod yn cynnwys taliadau rhent a thâl gwasanaeth dan renti prydles gweithredol.

10.79 Roedd gan yr Awdurdod yr oblygiadau canlynol dan brydlesi gweithredol na ellir eu canslo:

| Adeiladau | 31 Mawrth 2022 | 31 Mawrth 2021 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| I'w gwblhau dim hwyrach nag un flwyddyn | 189 | 324 |
| Yn hwyrach na blwyddyn ond ddim hwyrach na phum mlynedd | - | 189 |
| **Cyfanswm ymrwymiadau dan brydlesi gweithredol** | **189** | **513** |

10.80 Mae swm o £325k wedi ei gydnabod fel taliad prydles yn y Datganiad o Incwm Net Cynhwysfawr.

10.81 Mae'r Awdurdod yn is-osod ei eiddo i un is-denant ac yn cydnabod derbynion rent a thâl gwasanaeth o is-osod fel incwm. Mae swm o £39k parthed y taliadau hyn wedi ei gydnabod fel incwm yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr.

10.82 Rhoddir cyfanswm isafswm derbynion les sy'n daladwy i'r Awdurdod dan brydlesau gweithredu yn y tabl isod:

| Isafswm derbynion is-osod yn y dyfodol | 31 Mawrth 2022 | 31 Mawrth 2021 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| I'w gwblhau dim hwyrach nag un flwyddyn | 0 | 39 |
| Yn hwyrach na blwyddyn ond ddim hwyrach na phum mlynedd | - | 23 |
| **Cyfanswm isafswm derbynion is-osod** | **0** | **62** |

**Prydlesau ariannol**

10.83 Nid oedd gan yr Awdurdod unrhyw brydlesau ariannol yn y cyfnod i 31 Mawrth 2022 a 31 Mawrth 2021.

### 18. Partïon cysylltiedig

10.84 Mae'r Awdurdod yn atebol i Senedd y Deyrnas Unedig.

10.85 Mae'r Awdurdod yn gorff cyhoeddus annosbarthedig. Fe'i hariannwyd a noddi gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol hyd at 31 Gorffennaf 2015. Mae'r Adran hefyd wedi darparu cyllid i gefnogi'r cynllun cofrestrau achrededig ac i dalu am

gyngor a gomisiynwyd gan yr Awdurdod. Ystyrir yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i fod yn barti cysylltiedig.

10.86 Yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2022, ni dderbyniodd yr Awdurdod unrhyw gymhorthdal mewn perthynas â'r rhaglen Cofrestrau Achrededig (£162k yn 2020/21) na chyllid arall (dim yn 2021/22) gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

10.87 Yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2022, nid yw’r Awdurdod wedi derbyn unrhyw gyllid gan unrhyw Weinyddiaethau Datganoledig (dim yn 2020/21).

10.88 Mae'r HCPC yn perthyn i grŵp yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac fe'i cydnabyddir fel parti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2022 mae'r Awdurdod wedi derbyn £0.78m mewn perthynas ag incwm ffioedd 2022/23 (2020/21 £0.78 miliwn mewn perthynas ag incwm ffioedd 2021/22) gan HCPC. Yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2022 nid yw'r Awdurdod wedi derbyn unrhyw incwm mewn perthynas ag achosion Uchel Lys o dan bŵer Adran 29 yr Awdurdod (2020/21: £74k).

10.89 Mae'r NMC yn perthyn i grŵp yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac fe'i cydnabyddir fel parti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2022, mae'r Awdurdod wedi derbyn £1.998m mewn perthynas ag incwm ffioedd 2022/23 gan yr NMC (2020/21 £1.98m mewn perthynas ag incwm ffioedd 2020/21). Yn ogystal â'r Awdurdod hwn, mae'r Awdurdod wedi derbyn £34k gan yr NMC mewn perthynas â saith achos Uchel Lys o dan bŵer Adran 29 yr Awdurdod (2020/21: £58k).

10.90 Mae’r Awdurdod yn cynnal cofrestr o fuddiannau ar gyfer y Cadeirydd ac aelodau’r Bwrdd, sydd ar gael ar y wefan. O bryd i’w gilydd, bydd yr Ysgrifennydd Gweithredol yn diweddaru’r gofrestr i adlewyrchu unrhyw newid ym muddiannau aelodau’r Bwrdd. Yn ystod y cyfnod ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 ni chyflawnodd unrhyw aelod o’r Bwrdd drafodion partïon cysylltiedig gyda’r Awdurdod (ar wahân i'r adroddiad tâl a ddisgrifir uchod yn yr Adroddiad Tâl a Staff).

10.91 Gofynnwyd i’r uwch dîm rheoli hefyd ddatgelu unrhyw drafodion trydydd parti cysylltiedig. Yn ystod 2021/22, nid oedd unrhyw drafodion partïon cysylltiedig i'w datgelu (ar wahân i'r adroddiad tâl a ddisgrifir uchod yn yr Adroddiad Tâl a Staff).

### 19. Colledion a thaliadau arbennig

10.92 Roedd colledion a thaliadau arbennig yn unigol ac yn gyfan gwbl ymhell islaw'r trothwy adrodd o £300,000.

### 20. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

10.93 Cafodd y cyfrifon hyn eu hawdurdodi i’w cyhoeddi ar y dyddiad pan gawsant eu hardystio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

### 21. Arfau Ariannol

10.94 O fewn cwmpas Offerynnau Ariannol IFRS 9, mae’r Awdurdod yn cadw derbyniadwyon a thaladwyon masnach (nodiadau 9 a 12), buddsoddiadau byrdymor (nodyn 10) ac arian parod a chyfatebol i arian parod (nodyn 11).

### Rheoli risg ariannol

10.95 Mae safon adrodd ariannol IFRS 7 yn gofyn am ddatgelu rôl arfau ariannol yn ystod y cyfnod o ran creu neu newid risgiau mae corff yn wynebu wrth gyflawni ei weithgareddau.

10.96 Os ystyried sut mae'r awdurdod wedi ei ariannu, a bod ganddo rymoedd cyfyngedig i fenthyg neu fuddsoddi cronfeydd dros ben, a bod ei asedau ac atebolrwydd ariannol wedi eu creu gan weithgareddau gweithredol dydd i ddydd ac yn syml eu natur, mae amlygiad yr Awdurdod i risgiau ariannol yn isel iawn.

10.97 Mae derbyniadwyon a thaladwyon fydd yn aeddfedu neu'n daladwy o fewn 12 mis i ddyddiad y datganiad o safle ariannol wedi eu hepgor o bob datguddiad.

### Risg arian tramor

10.98 Mae'r Awdurdod yn sefydliad domestig gyda'r mwyafrif helaeth o drafodion, asedau ac atebolrwydd wedi eu seilio yn y Deyrnas Unedig ac ar Sterling. Nid oes gan yr Awdurdod unrhyw weithredoedd dramor. Felly ni effeithir yr Awdurdod rhyw lawer gan amrywiaethau yn y gyfradd gyfnewid.

### Risg cyfradd llog

10.99 Ni chafodd yr Awdurdod unrhyw fenthyciad ac fe dderbyniwyd y mwyafrif o ffioedd gan y rheolyddion yn 2021/22 felly roedd amlygiad yr Awdurdod i'r risg yma yn isel iawn. Ar 31 Mawrth 2022, roedd gan yr Awdurdod falans arian parod nad yw'n dwyn llog o £5,421 a £2,139 mewn adnau banc yn creu swm bychan o log. Mae'r symiau a nodir hefyd yn cynnwys buddsoddiad o £750K.

### Risg credyd

10.100 Gan y daw'r rhan fwyaf o incwm yr Awdurdod o ffioedd statudol sy'n daladwy gan reolyddion, mae'r risg credyd i'r Awdurdod yn isel.

### Risg dirwyn i ben

10.101 Mae'r Awdurdod yn dibynnu'n bennaf ar incwm ffioedd gyda ffioedd statudol yn daladwy ar gychwyn y flwyddyn ariannol, felly mae amlygiad yr Awdurdod i risg dirwyn i ben yn isel. Fodd bynnag, gallai amseriad derbyn ffioedd statudol o bosibl arwain at broblemau llif arian byr dymor. Mae'r Awdurdod yn lliniaru'r risg hon trwy gynnal lefel resymol o arian wrth gefn.

**E02761345**

**978-1-5286-3494-6**

**Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
157-197 Buckingham Palace Road
Llundain SW1W 9SP

Ffôn: **020 7389 8030**
E-bost: **info@professionalstandards.org.uk**
Gwefan: **www.professionalstandards.org.uk**

professional standards authority